

Adroddiad Blynyddol
Cyllid a
Llywodraethu
2017/2018

A H Kirkham BA (Anrhydedd) FCPFA

Cyfarwyddwr Strategol – Arian ac Effeithlonrwydd

CYNNWYS

	Tudalen
CYFLWYNIAD	5
ADRODDIAD NARATIF	6 - 13
DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R DATGANIAD CYFRIFON	
▪ Cyfrifoldebau'r Awdurdod	14
▪ Cyfrifoldebau'r Swyddog Adran 151	15
ADRODDIAD YR ARCHWILIWR	16 - 17
<u>DATGANIAD CYFRIFON 2017/18:</u>	
DATGANIAD O EGWYDDORION A PHOLISIŪ CADW CYFRIFON	18 - 36
DATGANIADAU CRAIDD	
▪ Dadansoddiad Gwariant a Chyllido	38 - 39
▪ Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	40
▪ Symudiadau yn Natganiad y Cronfeydd wrth Gefn	41 - 42
▪ Y Fantolen	43
▪ Datganiad ynglŷn â Llif Arian	44
NODIADAU I'R CYFRIFON:	
Nodyn 1	45
Nodyn 2	45 - 46
Nodyn 3	47
Nodyn 4	48
Nodyn 5	48
Nodyn 6	48
Nodyn 7	49 - 50
Nodyn 8	50
Nodyn 9	51
Nodyn 10	51
Nodyn 11	51
Nodyn 12	52 - 55
Nodyn 13	56 - 58
Nodyn 14	59 - 61
Nodyn 15	62
Nodyn 16	63
Nodyn 17	64 - 67
Nodyn 18	67
Nodyn 19	68
Nodyn 20	68
Nodyn 21	69
Nodyn 22	70
Nodyn 23	70 - 71
Nodyn 24	72
Nodyn 25	72 - 78
Nodyn 26	79
Nodyn 27	79
Nodyn 28	80
Nodyn 29	80
Nodyn 30	80
Nodyn 31	81
Nodyn 32	81

	Tudalen
Nodyn 33	82 - 83
Nodyn 34	84
Nodyn 35	85 - 86
Nodyn 36	87 - 88
Nodyn 37	89
Nodyn 38	90
Nodyn 39	91 - 94
Nodyn 40	94 - 95
Nodyn 41	96
Nodyn 42	96
Nodyn 43	96
Nodyn 44	96 - 101
Nodyn 45	102
Nodyn 46	102
Nodyn 47	102
Nodyn 48	103 - 106
Nodyn 49	107
Nodyn 50	107
Nodyn 51	108
Nodyn 52	109
Nodyn 53	109 - 113
CRONFA'R DEGWM	114 - 117
YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG LLANRWST	118 - 119
GEIRFA	120 - 127
DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL (ATODIAD)	1 - 35

CYFLWYNIAD

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn awdurdod unedol sy'n darparu holl brif wasanaethau llywodraeth leol megis Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Amgylcheddol, Hamdden, Cynllunio a Phrifyrdd.

Mae gan Fwrdeistref Sirol Conwy boblogaeth o oddeutu 116,200. Mae dros 80% o'r boblogaeth yn byw ar hyd y llain arfordirol sy'n cynnwys trefi Abergele, Bae Colwyn a Llandudno. Mae gweddill y boblogaeth wedi'i gwasgaru ar draws yr ardal gan ymestyn i Ddolwyddelan yn y de-orllewin a Llangwm a Dinmael yn y de-ddwyrain. Mae oddeutu traean o breswylwyr Conwy yn siarad Cymraeg ac fe aned oddeutu hanner poblogaeth y Fwrdeistref Sirol yng Nghymru.

Llywodraethu Gwleidyddol

Mae gan Conwy 59 o gynghorwyr sir a etholwyd i gynrychioli 38 o ranbarthau etholiadol. Cynhaliwyd etholiadau lleol ym mis Mai 2017, ac mae gwneuthuriad gwleidyddol y Cyngor ym mis Mehefin 2018 fel a ganlyn:-

- 16 Ceidwadol
- 13 Grŵp Annibynnol Conwy yn Gyntaf
- 8 Plaid Cymru
- 8 Llafur
- 7 Annibynnol
- 4 Democrat Rhyddfrydol
- 3 Plaid Annibynnol

Y Cyngor

Y Cyngor (59 cynghorydd) sy'n pennu'r gyllideb a'r polisiau cyffredinol. Mae'n cyfarfod o leiaf pedair gwaith y flwyddyn, ac mae'n trafod y gwahanol ddewisiadau ar gyfer materion pwysig sy'n wynebu'r Fwrdeistref Sirol. Mae'r Cyngor yn penodi Arweinydd y Cyngor sy'n dewis yr Aelodau'r Cabinet, ac yn clustnodi cyfrifoldebau (portffolios) i aelodau Cabinet. Y Cyngor hefyd yw canolbwynt unrhyw drafodaeth am berfformiad y Cabinet.

Y Cabinet

Mae'r Cabinet yn cynnwys naw o Gynghorwyr ynghyd ag Arweinydd y Cyngor sy'n cadeirio cyfarfodydd y Cabinet. Mae gan bob Aelod Cabinet bortffolio penodol o gyfrifoldeb ar gyfer meysydd o wasanaethau'r Cyngor.

Mae rhagor o wybodaeth am y Cyngor ar gael ar y ddolen ganlynol:

<http://www.conwy.gov.uk/cy/Council/Council.aspx>

ADRODDIAD NARATIF

1. Diben Datganiad Cyfrifon y Cyngor yw darparu gwybodaeth glir am effaith ariannol gweithgareddau'r Cyngor yn ystod y cyfnod dan sylw, mewn arddull sy'n hawdd ei deall.
2. Mae'r Cyfrifon wedi'u paratoi yn unol â Chod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol 2017/18 (y Cod 2017/18), sy'n nodi egwyddorion ac arferion cyfrifo sy'n ofynnol i ddarparu 'safbwynt gwirioneddol a theg' o sefyllfa ariannol a thrafodion yr awdurdod lleol. Mae Cod 2017/18 yn nodi 'arferion cyfrifo priodol' o dan delerau adran 21 (2) Deddf Llywodraeth Leol 2003. Mae Cod 2017/18 yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).
3. Mae'r cyfrifon hyn yn cynnwys y datganiadau ariannol canlynol yn unol â'r Cod:-
 - a) **Datganiad Cyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon**

Mae hyn yn nodi cyfrifoldebau perthnasol y Cyngor a'i swyddogion ar gyfer paratoi a chymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon.

- b) **Datganiad o egwyddorion a pholisïau Cyfrifon**

Diben y datganiad hwn yw egluro sail y ffigyrau yn y Cyfrifon. Mae'n amlinellu'r pholisïau cyfrifo sydd wedi'u mabwysiadu.

- c) **Dadansoddiad Gwariant a Chyllid**

Mae hwn yn ddadansoddiad i ddangos y gwariant net sy'n daladwy i'w drethu ac yn ei gysoni i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

- d) **Datganiadau Ariannol 'Craidd'**

1. Y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

Mae'r datganiad yn dangos y gost gyfrifeg yn ystod y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â'r arferion cyfrifeg a dderbynnir yn gyffredinol, yn hytrach na'r swm i'w ariannu o drethiant. Mae Awdurdodau yn codi trethi i dalu am wariant yn unol â rheoliadau; gall hyn fod yn wahanol i'r gost gyfrifeg. Mae'r sefyllfa trethiant wedi ei nodi yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r datganiad yn dangos bod diffyg yn y flwyddyn o £26.855m (diffyg 2016/17 o £11.150m).

2. Datganiad ynglŷn â'r Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn

Mae'r datganiad hwn yn dangos y symudiadau yn ystod y flwyddyn yng ngwahanol gronfeydd wrth gefn yr Awdurdod, wedi'u dadansoddi yn 'gronfeydd y gellir eu defnyddio' (h.y. y rhai sy'n cael eu defnyddio i ariannu gwariant neu leihau trethi lleol) a chronfeydd eraill. Mae'r Arian Dros Ben (neu'r Diffyg) ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau yn dangos gwir gost economaidd darparu gwasanaethau'r Awdurdod, ac mae'r manylion wedi'u dangos yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r rhain yn wahanol i'r symiau statudol sy'n berthnasol i Falans Cronfa'r Cyngor (y swm cyffredinol o arian at raid heb ei ddyrannu) ar gyfer sefydlu treth y cyngor. Mae'r Cynnydd/Lleihad Net cyn Trosglwyddo (i/o) gronfeydd wrth gefn a glustnodwyd yn dangos Balans Cronfa'r

Cyngor statudol cyn unrhyw drosglwyddiadau dewisol i neu o'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd gan y Cyngor.

Swm y cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio oedd £22.747m ar ddiwedd y flwyddyn 31 Mawrth 2018 (31 Mawrth 2017 £24.754m) gan gynnwys balans Cronfa'r Cyngor o £6.309m (31 Mawrth 2017 £4.809m).

3. Y Fantolen

Mae'r Fantolen yn dangos gwerth yr asedau a'r dyledion sy'n cael eu cydnabod gan yr Awdurdod. Mae asedau net yr Awdurdod (asedau llai dyledion) yn cael eu cydweddu â'r cronfeydd wrth gefn y mae'r Awdurdod yn eu dal. Adroddir ynglŷn â chronfeydd wrth gefn mewn dau gategori. Mae'r categori cyntaf o gronfeydd wrth gefn yn gronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio, h.y. y cronfeydd wrth gefn hynny y gall yr awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gadw lefel ddoeth o gronfeydd wrth gefn ac ar unrhyw gyfyngiadau statudol ar eu defnydd (er enghraifft y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn na ellir ei defnyddio ond i gyllido gwariant cyfalaf neu ad-dalu dyled). Mae'r ail gategori o gronfeydd wrth gefn yn rhai na all yr Awdurdod eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori hwn o gronfeydd wrth gefn yn cynnwys cronfeydd wrth gefn sy'n dal enillion a cholledion sydd heb eu gwireddu (er enghraifft y Gronfa Adbriso Wrth Gefn), ble y deuai symiau ar gael i ddarparu gwasanaeth dim ond os gwerthir yr asedau; a chronfeydd wrth gefn sy'n dal gwahaniaethau amseru a gaiff eu dangos yn y llinell 'Addasiadau rhwng y sail gyfrifo a'r sail gyllido o dan reoliadau' yn y Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

Gwerth net yr Awdurdod ar 31 Mawrth 2018 oedd £75.860m, gostyngiad o £10.310m o'r sefyllfa ar 31 Mawrth 2017, yn bennaf oherwydd amhariad, a symudiadau o ran benthyca, buddsoddi ac arian parod a chyfwerth ag arian parod.

4. Datganiad Llif Arian

Mae'r Datganiad Llif Arian yn dangos y newid mewn arian parod a chyfwerth arian parod yr Awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut mae'r awdurdod yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod a chyfwerth arian, drwy ddsbarthu llifoedd arian fel gweithgareddau gweithredol, buddsoddi ac ariannu. Mae swm y llifoedd arian net sy'n deillio o weithgareddau gweithredu'n ddangosydd allweddol o'r graddau y mae gweithrediadau'r Awdurdod yn cael eu hariannu drwy drethiant ac incwm grant, neu gan bobl sy'n derbyn gwasanaethau a ddarperir gan yr awdurdod. Mae gweithgareddau buddsoddi'n cynrychioli'r graddau y mae all-lifoedd arian parod wedi'u gwneud ar gyfer adnoddau sydd wedi'u bwriadu i gyfrannu at ddarpariaeth gwasanaeth yr Awdurdod yn y dyfodol.

4. Ariannu Gwasanaethau'r Cyngor

Mae gan y Cyngor ddau fath o wariant – gwariant refeniw a gwariant cyfalaf

Mae **Gwariant Refeniw** yn cynnwys gwario ar gostau dyddiol gwasanaethau megis cyflogau staff, cynnal a chadw adeiladau, cyflenwadau ac offer cyffredinol. Telir am y gwariant drwy'r incwm a dderbynnir gan Dalwyr Treth y Cyngor, talwyr trethi busnes, ffioedd a thaliadau a wneir ar gyfer gwasanaethau penodol, a grantiau a dderbynnir gan y llywodraeth.

Mae **Gwariant Cyfalaf** yn cynnwys gwario ar asedau megis ffyrdd, ailddatblygu a gwaith adnewyddu adeiladau. Bydd yr asedau hyn yn darparu buddion i'r gymuned am flynyddoedd lawer ac fe ariennir y gwariant yn bennaf drwy fenthycia a grantiau cyfalaf.

4.1 Adolygiad y Flwyddyn – Gwariant Refeniw

Cafodd cyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2017/18 ei chymeradwyo ar swm o £206.083m ym mis Mawrth 2017 (£202.339miliwn yn 2016/17) ac roedd yn ystyried dyfarniadau cyflog hysbys ac amcangyfrifedig, cynnydd mewn prisiau, pwysau a risgiau.

Pennwyd y gyllideb yng nghyd-destun setliad ariannol gwael o gymorth grant gan Lywodraeth Cymru. Rhoddwyd pecyn o ostyngiadau cyllidebol heriol ar waith er mwyn gosod y gyllideb o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

Cafodd y gyllideb ei monitro a'i rheoli'n agos yn ystod y flwyddyn a'i hadrodd i'r Aelodau, yn unol â threfnau a gymeradwywyd gan y Cyngor.

Adroddwyd ynghylch amrywiadau cyllidebol yn ystod y flwyddyn, mae Tabl 1 yn dangos amrywiadau pellach gydag eglurhad priodol yn y nodiadau. Roedd sefyllfa ariannol holl gynhwysfawr yr Awdurdod yn gyffredinol fel y rhagamcanwyd yn yr adroddiadau i'r Aelodau ac eithrio cadarnhad gan Gyllid a Thollau EM fod hawliad mewn perthynas â TAW ar wasanaethau chwaraeon a hamdden wedi bod yn llwyddiannus. Mae ad-daliad ôl-ddyddiedig ar gyfer y cyfnod 1/5/2010 hyd 31/3/2017 - swm net o £1.5m wedi ei gynnwys yn y cyfrif refeniw, gan ganiatáu cyfraniad y swm hwn i'r Balansau Cyffredinol. Wrth gau'r cyfrifon trefnwyd darpariaethau a chronfeydd wrth gefn priodol a darbodus ar gyfer rhwymedigaethau hysbys a disgwylidiedig.

Tabl 1

Col 1	Col 2	Col 3	Col 4	Col 5	
CRYNODEB	AMCAN GWREIDDOL	SEFYLLFA A GYMERADW YWYD YM MIS CHWEFROR 2018	FFIGYRAU TERFYNOL	AMRYWIAD (Col 4 - Col 3)	NODIADAU
	2017/18 £'000	2017/18 £'000	2017/18 £'000	2017/18 £'000	
Sylfaen Adnoddau (incwm)					
Grant Cynnal Refeniw	(112,027)	(112,027)	(112,027)	0	
Trethi Annomestig wedi'i Haiiddosbarthu	(38,530)	(38,530)	(38,530)	0	
Treth y Cyngor	(55,526)	(55,526)	(55,526)	0	
Gwarged Treth y Cyngor	0	(100)	(339)	(239)	1
Cyfanswm	(206,083)	(206,183)	(206,422)	(239)	
Gwariant Net					
Addysg	78,517	78,867	78,870	3	
Gwasanaethau Cymdeithasol	56,597	57,284	57,255	(29)	
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	18,327	18,861	18,854	(7)	
Gwasanaethau Datblygu Cymunedol	7,091	7,217	7,208	(9)	
Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai	4,431	4,581	4,544	(37)	
Gwasanaethau Ariannol Corfforaethol	1,024	1,042	1,054	12	
Archwilio a Chaffael	575	582	585	3	
Gwasanaethau Refeniw a Budd-daliadau	1,463	1,486	1,349	(137)	2
Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor	9,890	9,290	9,339	49	
Y Gyfraith a Llywodraethu	1,543	1,703	1,703	0	
Technoleg Gwybodaeth	2,016	2,080	2,080	0	
Rheoli Ystadau ac Asedau	71	74	86	12	
Adran y Prif Weithredwr	1,522	1,538	1,534	(4)	
Theatrau a'r Ganolfan Gynadledda	1,058	1,103	1,103	0	
Adnoddau Dynol Corfforaethol	833	837	837	0	
Rheoli'r Trysorlys ac Isafswm Darpariaeth Refeniw	9,832	9,582	9,577	(5)	
Costau ac Incwm Corfforaethol	7,920	6,583	6,574	(9)	
Ardollau	6,035	6,035	6,020	(15)	
Ad-daliad TAW ar Wasanaethau Chwaraeon a Hamdden	0	0	(1,500)	(1,500)	3
Is-gyfanswm gwariant net gwasanaethau	208,745	208,745	207,072	(1,673)	
Cyfraniad o Gronfeydd Wrth Gefn	(2,435)	(2,435)	(2,435)	0	
Cyfraniad i'r Gronfa Risg a Arweinir gan Alw	0	100	512	412	4
Colledion Llai ar yr hyn a gesglir (Treth y Cyngor)	(227)	(227)	(227)	0	
Cyfraniad at Falansau	0	0	1,500	1,500	5
Is-gyfanswm Arall	(2,662)	(2,562)	(650)	1,912	
Cyllideb Refeniw Net	206,083	206,183	206,422	239	

Nodiadau

1. Gwelliant ar y lefelau casglu a phrosesau adfer yn gyffredinol
2. Grant ychwanegol a gafwyd drwy brosesu'r buddion yn llwyddiannus
3. Hawliad wedi'i ôl-ddyddio
4. Arian dros ben cyffredinol wedi'i ddefnyddio i ail-gyflenwi Cronfa Wrth Gefn Risg dan arweiniad Galw
5. Hawliad ôl-ddyddiedig wedi'i roi yn y balansau cyffredinol

Mae Tabl 1 yn wahanol i golofn agoriadol y Dadansoddiad Gwariant a Chyllid (tudalen 38) oherwydd rhai mân wahaniaethau cyflwyniadol rhwng y modd yr adroddir ar y gyllideb yn ystod y flwyddyn a sut yr adroddir ar y deiliant ar ôl cwblhau'r drefn o gau'r cyfrifon.

Amrywiol wasanaethau wedi adrodd am ddiffygion mewn adnoddau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Rheoleiddio ac Addysg, a'r Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau. Roedd y diffygion hyn yn gyfanswm o £1.050m

Mae Tabl 2 isod yn nodi sut y cytunwyd y dylid cefnogi'r diffygion hyn ynghyd â ffynhonnell y gymeradwyaeth. Mae'r cyfeiriadau at gofnodion yn cyfeirio at eitemau ar gyfer y Cabinet a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau.

Tabl 2

Gwasanaeth	Gorwariant / (tanwariant) £'000	Cofnodion
Gwasanaethau Cymdeithasol	300	551, 562, 946, 958
Gwasanaethau Addysg	300	551, 562
Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai	100	551, 562
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	300	551, 562, 946, 958
Costau Corfforaethol	50	551, 562
Cyfanswm	1,050	
Wedi'i ariannu gan:-		
Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor	(600)	201, 216, 551, 562
Rheoli Trysorlys	(250)	201, 216
Cofrestru Pensiynau Awtomatig	(100)	551, 562
Lwfansau Aelodau	(62)	201, 216, 551, 562
Darpariaeth Cyflogau	(38)	249, 287
Cyfanswm	1,050	

Gwariant net gwirioneddol yn gyfanswm o £206.422m, ac mae'n galonogol nodi bod y Cyngor wedi cyflawni gwariant net cyffredinol o fewn y gyllideb, er gwaethaf pwysau sylweddol a nodwyd yn Nhabl 2 uchod. Yn ystod y broses cau'r cyfrifon daeth gwarged net o £239mil ar Dreth y Cyngor a gasglwyd ac arbediad net o £137mil ar gyllideb y Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau i'r amlwg (gweler Tabl 1 Uchod). O ganlyniad i hyn, ynghyd â rhai arbedion net bychan eraill, bu modd cyfrannu £412mil i'r Gronfa Risg a Arweinir gan Alw a fydd yn cynorthwyo i fynd i'r afael â diffygion cysylltiedig â phwysau nad oes modd ei ragweld yn y dyfodol.

Balans Cronfa Gyffredinol y Cyngor yw'r cronfeydd heb eu hymrwymo y mae'r Cyngor yn eu dal i ddiwallu gofynion llif arian a digwyddiadau nad oes modd eu rhagweld yn y dyfodol. Balans y Gronfa Gyffredinol yw £6.309m, gyda £2.382m ohono wedi'i glustnodi i gynnal y gyllideb yn 2018/19.

Mae cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy eraill wedi eu nodi yn Nodyn 13 y cyfrifon.

Setlwyd hawliadau cyflog cyfartal i'r swm o £5mil yn ystod y flwyddyn. Nid oes bellach ddarpariaeth ar gyfer hawliadau Cyflog Cyfartal yn y cyfrifon. Deallir nad oes unrhyw hawliadau eraill i'w setlo.

Mae Mantolen yr Awdurdod yn cynnwys nifer o symudiadau o ran cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd. Yn ystod 2017/18 sefydlwyd a chynyddwyd nifer o gronfeydd wrth gefn, a defnyddiwyd nifer o gronfeydd wrth gefn. Mae cronfeydd refeniw wrth gefn yn deillio o ddigwyddiadau lle bu modd neilltuo arian am amryw resymau, e.e. gwargedion, neu sefyllfaoedd sy'n arwain at ohirio gwariant. Mae symudiad yn y cronfeydd wrth gefn yn ystod 2017/18 yn adlewyrchu Penderfyniadau'r Cyngor, cofnodion cyfrifo darbodus, datblygiadau gwasanaethau, arian a neilltuwyd ar gyfer ymrwymadau, ac adnoddau i gynorthwyo gwasanaethau i gyflawni arbedion effeithlonrwydd yn y dyfodol.

4.2 Gwariant Cyfalaf

Yn ogystal â gwario arian i ddarparu gwasanaethau o ddydd i ddydd, mae'r Cyngor hefyd yn gwario arian ar ddarparu cyfleusterau newydd neu wedi'u hadnewyddu megis ysgolion, seilwaith arfordirol a phriffyrdd. Cyfanswm y gwariant cyfalaf yn 2017/18 oedd £21.842m. Mae'r canlynol yn grynodeb o'r meysydd gwasanaeth a welodd fuddsoddiad cyfalaf yn 2017/18 a sut y cafodd ei ariannu o'i gymharu â chyllideb o £25.525m:-

Gwariant Cyfalaf	2017/18 Gwirioneddol £'000
Gwariant Cyfalaf yn ol Gwasanaeth:	
Addysg	6,595
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	6,252
Gwasanaethau Datblygu Cymunedol	2,269
Y Gyfraith a Llywodraethu	6
Gwasanaeth Cymdeithasol	468
Theatrau a'r Ganolfan Gynadledda	94
Technoleg Gwybodaeth	39
Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai	1,884
Gwasanaethau Eraill	4,235
Cyfanswm Ariannu Cyfalaf	21,842

Ariannu Cyfalaf	2017/18 Gwirioneddol £'000
Drwy:	
Benthyca a Chymorth	5,044
Benthyca Darbodus	6,294
Derbyniadau Cyfalaf	1,281
Grantiau Cyfalaf	8,992
Arian Cyfalaf Wrth Gefn	231
Cyfanswm Ariannu Cyfalaf	21,842

Ar gyfer gwariant cyfalaf a ariennir drwy fenthyca â chymorth, ariennir y costau drwy Grant Cynnal Refeniw, ac ar gyfer Benthyca Darbodus ariennir y costau gan y Gwasanaethau.

Dyma rai o'r prosiectau mawr a gynhaliwyd yn ystod 2017/18:-

- Cyfleuster Ail-ddefnyddio Canolfan Ailgylchu Mochdre
- Prosiect Moderneiddio Ysgolion Cynradd
- Gosod Polion Golau Stryd Newydd
- Diweddarau Cyfleusterau Cyhoeddus
- Datblygiadau'r Gronfa Gofal Canolraddol
- Menter Treftadaeth Treflun Bae Colwyn
- Gosod Arwyneb Newydd a Gwella Rhwydwaith Ffyrdd y Sir
- Gwaith Adfer Amddiffynfeydd Arfordirol, Lliniaru Llifogydd a Rheoli Risg
- Cwblhau Addasiadau i Dai Sector Preifat
- Datblygu Parc Eirias
- Prosiect Swyddfeydd a Moderneiddio

Dyled y Cyngor sy'n weddill ar 31 Mawrth 2018 oedd £175.048m (£149.128m ar 31 Mawrth 2017), gan olygu cynnydd o £25.920m drwy fenthyca.

Roedd y Terfynau ar gyfer Gweithgarwch Benthycy yn 2017/18, a osodwyd yn unol â'r Fframwaith Darbodus ar gyfer Buddsoddiad Cyfalaf Awdurdod Lleol a gyflwynwyd drwy Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (y Cod Darbodus) fel a ganlyn:

	£'000
Terfyn Awdurdodedig ar gyfer dyled allanol:	
Benthycy	188,394
Dyledion Hirdymor eraill	21,102
	209,496
Terfyn Gweithredol ar gyfer dyled allanol:	
Benthycy	183,394
Dyledion Hirdymor Eraill	21,102
	204,496

5. Atebolrwydd Pensiwn - Safon Cyfrifo Rhyngwladol 19 (IAS19)

Mae'r Cyfrifon a gyflwynwyd yn cydymffurfio â'r safon uchod gan eu bod yn adlewyrchu cost darpariaeth pensiwn i weithwyr yn y flwyddyn bresennol yn y cyfrifon refeniw fel y cynghorwyd gan Actiwari'r Cyngor. Mae'r Datganiadau hefyd yn cynnwys, o fewn y Fantolen, asesiad yr actiwari o gyfran yr Awdurdod o atebolrwydd y gronfa pensiwn a'r gronfa wrth gefn sydd ei angen i dalu am yr atebolrwydd hwnnw ar 31 Mawrth 2018.

Yr atebolrwydd cronfa pensiwn a gofnodir ar y fantolen o £167.487m (£169.641m yn 2016/17) yw cyfanswm y diffyg a ragwelir sy'n bodoli dros gyfnod oes y gronfa. Bydd y diffyg yn newid yn flynyddol yn dibynnu ar berfformiad buddsoddiadau a rhagdybiaethau actiwaraid a wneir o ran pensiynwyr presennol, pensiwn wedi'i ohirio a gweithwyr presennol.

Mae'r gronfa yn destun prisiad bob tair blynedd sy'n asesu cyflwr y gronfa pensiwn ar y pryd ac yn gwneud argymhellion i'r cyrff amrywiol o ran y gyfradd briodol ar gyfer cyfraniadau cyflogwr sydd angen eu cyflwyno er mwyn adfer y gronfa i sefyllfa gytbwys dros gyfnod o amser.

Mae manylion ynglŷn â newidiadau rheolau Cynllun Pensiwn y Llywodraeth Leol, gan gynnwys y newid o fudd-daliadau cyflog terfynol i fudd-daliadau gyrfa cyfartalog wedi eu hailbrisio o 1^{af} Ebrill 2014 ymlaen, ar gael ar y ddolen ganlynol:

<https://www.lgpsregs.org/>

Mae Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gynllun statudol ac, o'r herwydd, dim ond trwy ddeddfwriaeth y gellir newid y buddion sy'n cronni o dan y cynllun.

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU Y DATGANIAD CYFRIFON

CYFRIFOLDEBAU'R AWDURDOD

Y mae'n ofynnol bod y Cyngor yn:

- Trefnu bod ei faterion ariannol yn cael eu gweinyddu'n gywir, a sicrhau bod gan un o'i swyddogion gyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny. Yng Nghyngor Bwrdeistref Siroel Conwy, y swyddog hwnnw yw'r Cyfarwyddwr Strategol – Cyllid ac Effeithlonrwydd a **Swyddog Adran 151**.
- Rheoli ei fusnes mewn modd sy'n sicrhau defnydd darbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau ac i ddiogelu ei asedau.
- Cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon. Mae'r Cyngor yn dirprwyo'r cyfrifoldeb hwn i'r Pwyllgor Archwilio.

TYSTYSGRIF YR AWDURDOD

Rwy'n cymeradwyo Datganiad Cyfrifon Cyngor Bwrdeistref Siroel Conwy ar 31 Mawrth 2018.

LLOFNOD:

Y Cynghorydd Mike Priestley
Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu

DYDDIEDIG: 24/09/2018

CYFRIFOLDEBAU'R SWYDDOG ADRAN 151

Fel y Prif Swyddog Cyllid, mae'r Swyddog Adran 151 yn gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Cyngor sydd, yn ôl gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gadw Cyfrifon Llywodraeth Leol ym Mhrydain ("Y Cod 2017/18"), yn gorfod cyflwyno barn gywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyngor ar y dyddiad cyfrifyddu, ac o incwm a gwariant y Cyngor am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018.

Wrth baratoi'r datganiad cyfrifon hwn, mae'r Cyfarwyddwr Strategol – Arian ac Effeithlonrwydd a Swyddog Adran 151 wedi:

- dewis polisïau addas ar gyfer cadw cyfrifon ac wedi'u defnyddio mewn modd cyson;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon a oedd yn rhai rhesymol a gofalus;
- cydymffurfio â'r Cod;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir sydd yn gyfoes;
- cymryd camau rhesymol i rwystro a chanfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

TYSTYSGRIF SWYDDOG ADRAN 151

Tystiaf fod y Datganiad Cyfrifon yn rhoi barn cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar 31 Mawrth 2018, a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

LLOFNODWYD:

A H Kirkham
Cyfarwyddwr Strategol – Arian ac Effeithlonrwydd
Swyddog Adran 151

DYDDIEDIG: 24/09/2018

Adroddiad yr archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Barn

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy am y flwyddyn a ddaeth i ben 31^{ain} Mawrth 2018 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cynnwys y Datganiad Symud Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod, a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiâu cyfrifyddu pwysig.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2018 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS).

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar 31^{ain} Mawrth 2018 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â'r gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2018

Sail y farn

Cynhaliiais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU (ISAs (DU)). Caiff fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hyn eu disgrifio ymhellach yn adran cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r adran datganiadau ariannol yn fy adroddiad. Rwy'n annibynnol o'r cyngor yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau yn ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol y mae Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU yn ei gwneud yn ofynnol i mi gyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

- nid yw'r defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nid yw'r swyddog ariannol cyfrifol wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a all fwrw amheuaeth sylweddol ar allu y cyngor i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Gwybodaeth arall

Mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol a chyfrifon. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad fel archwilydd arnynt. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, ar wahân i'r graddau a nodir yn benodol yn ddiweddarach yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel petai'n berthnasol anghywir ar sail y wybodaeth a ddaeth i law wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamdatganiadau neu anghysondebau perthnasol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm hadroddiad.

Adrodd ar ofynion eraill

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- Mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar eu cyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Adroddiad Naratif wedi ei baratoi yn unol â'r Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2018;
- Mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r Datganiad Llywodraethu wedi ei baratoi yn unol â'r canllawiau.

Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yn sgil gwybodaeth a dealltwriaeth y cyngor a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Tystysgrif cwblhau archwiliad

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon a nodir ar dudalennau 14 i 15, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun gwir a theg, ac am y fath reolaeth fewnol ag sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog ariannol cyfrifol i allu paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiad cyfrifon, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu'r cyngor i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir nad yw'n briodol.

Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol gyda'i gilydd yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny drwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad yr archwilwyr sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid disgwyl iddynt yn rhesymol ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

Anthony J Barrett

24 Heol y Gadeirlan

Dros ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

Caerdydd

28/9/18

CF11 9LJ

Cyfrifoldeb y Cyngor yw hygyrdd gwefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a'r gwaith o gynnal y wefan honno; nid yw'r gwaith a gyflawnir gan archwilwyr yn cynnwys ystyriaeth o'r materion hyn ac, yn unol â hynny, nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldebau am unrhyw newidiadau a allai fod wedi cael eu cyflwyno i'r datganiadau ariannol ers eu cyflwyno'n wreiddiol ar y wefan.

DATGANIAD CYFRIFON 2017/18

DATGANIAD O EGWYDDORION A PHOLISIÂU CYFRIFO

1. EGWYDDORION CYFFREDINOL

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn crynhoi trafodion yr Awdurdod ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18 a'i sefyllfa diwedd blwyddyn o 31 Mawrth 2018. Mae gofyn i'r Awdurdod baratoi Datganiad Cyfrifon Blynyddol gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiad) 2018, y mae'r Rheoliadau hynny'n gofyn iddynt gael eu paratoi yn unol ag arferion cyfrifo priodol. Mae'r arferion hyn yn cynnwys Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2017/18 (y Cod) yn bennaf, a gefnogir gan y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh).

Y confensiwn cyfrifo pennaf a fabwysiadwyd yn y Datganiad Cyfrifon yw cost hanesyddol, wedi ei diwygio trwy ailbriso rhai categorïau penodol o asedau nad ydynt yn gyfredol, ac offerynnau cyllidol. Mae'r Datganiad Cyfrifon wedi cael ei baratoi ar sail 'busnes gweithredol'.

2. CRYNHOI INCWM A GWARIANT

Rhoddir cyfrif am weithgaredd yn y flwyddyn pryd y digwyddodd, nid yn unig pryd y gwneir neu pryd y derbynnir taliadau arian parod. Yn arbennig:-

- Mae'r referniw o werthu nwyddau'n cael ei gydnabod pan fo'r Awdurdod yn trosglwyddo'r risgiau sylweddol a'r buddiannau perchenogaeth i'r prynwr ac mae'n debygol y bydd buddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trafodyn yn llifo i'r Awdurdod.
- Mae referniw o ddarparu gwasanaethau yn cael ei gydnabod pan fo'r Awdurdod yn medru mesur yn ddibynadwy pa ganran o'r trafodyn a gwblhawyd a hithau'n debygol y bydd buddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r trafodyn yn llifo i'r Awdurdod.
- Mae cyflenwadau'n cael eu cofnodi fel gwariant pan gânt eu defnyddio – pan fo bwllch rhwng dyddiad derbyn cyflenwadau a'u defnyddio, cânt eu cludo fel rhestrau eiddo ar y Fantolen.
- Mae treuliau yng nghyswllt gwasanaethau a dderbyniwyd (gan gynnwys gwasanaethau a ddarparwyd gan weithwyr) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fo'r gwasanaethau'n cael eu derbyn yn hytrach na phan fo taliadau'n cael eu gwneud.
- Mae'r llog a dderbynnir ar fuddsoddiadau ac sy'n cael ei dalu ar fenthyciadau'n cael ei gyfrifo fel incwm a gwariant yn seiliedig ar gyfradd y llog mewn grym i'r offeryn cyllidol perthnasol yn hytrach nag fel llif arian parod sy'n cael ei bennu neu ei sefydlu dan y contract.
- Pan fo incwm a gwariant wedi'i gydnabod ond dim arian parod wedi'i dalu na'i dderbyn, mae dyled neu gredyd i'r swm perthnasol yn cael ei gofnodi ar y Fantolen. Pan fo dyledion heb eu setlo mae balans y ddyled yn cael ei nodi a chodir ar referniw am yr incwm na chaiff, o bosib, ei gasglu.

- O bryd i'w gilydd, pan fo taliadau yn destun anghydfod a/neu phan nad yw'r symiau dan sylw yn hysbys, caiff y taliad ei wneud yn y cyfrifon yn y flwyddyn y caiff yr anghydfod ei setlo ac nid o reidrydd y flwyddyn sy'n berthnasol i'r taliad.
- Hefyd, o bryd i'w gilydd, caiff anfoneb ei thrin ar sail arian parod yn y cyfrifon i sicrhau bod y nifer cywir o daliadau yn ymddangos yn y cyfrifon mewn blwyddyn ariannol.

3. **ARIAN PAROD A CHYFWERTH ARIAN**

Mae arian parod yn golygu arian mewn llaw ac adneuon gyda sefydliadau ariannol sy'n ad-daladwy heb gosb ar rybudd o ddim mwy na 24 awr. Mae cywerthydd arian yn fuddsoddiadau sy'n aeddfedu mewn tri mis neu lai o ddyddiad eu caffael ac y gellir eu trosglwyddo'n rhwydd i symiau gwybyddus o arian heb risg sylweddol o newid mewn gwerth.

Yn y Datganiad Llif Arian, dangosir arian parod a chyfwerth arian yn net o orddrafftiau banc sy'n daladwy ar ofyniad ac sy'n ffurfio rhan integrol o reolaeth arian yr Awdurdod.

4. **EITEMAU EITHRIADOL**

Pan fo eitemau incwm a gwariant yn berthnasol, datgelir eu natur a'u maint ar wahân, un ai ar wyneb y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr neu yn y Nodiadau i'r Cyfrifon, gan ddibynnu ar ba mor arwyddocaol yw'r eitemau i bwrpas deall perfformiad ariannol yr Awdurdod.

5. **ADDASIADAU CYN CYFNOD, NEWIDIADAU MEWN POLISIÂU CYFRIFO AC AMCANGYFRIFON A CHAMGYMERIADAU**

Gall addasiadau cyn cyfnod ddeillio o newid mewn polisiâu cyfrifo neu i gywiro camgymeriad perthnasol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifo yn rhagolygol, hy eleni ac ym mlynnyddoedd y dyfodol y ceir effaith arnynt gan y newid ac nid ydynt yn achosi addasiad cyfnod blaenorol.

Dim ond pan fo'n ofynnol gan arferion cyfrifo cywir y gwneir newidiadau mewn polisiâu cyfrifo neu pan fo'r newid yn rhoi gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol ynghylch effeithiau trafodion, digwyddiadau eraill a'r amodau ar sefyllfa ariannol a pherfformiad ariannol yr Awdurdod. Pan wneir newid, caiff ei ddefnyddio'n ôl-weithredol (oni bai y nodir fel arall) trwy addasu'r balansau agoriadol a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol fel petai'r polisi newydd wedi ei ddefnyddio erioed.

Mae camgymeriadau a ganfyddir mewn ffigyrau cyn cyfnod yn cael eu cywiro'n ôl weithredol trwy addasu'r balansau agor a symiau cymharol ar gyfer y cyfnod blaenorol.

6. **TALIADAU I REFENIW AM ASED AU NAD YDYNT YN GYFREDOL**

Rhoddir debyd yn erbyn gwasanaethau, gwasanaethau cefnogol a chyfrifon masnachu yn ôl y symiau a ganlyn i bwrpas cofnodi cost dal asedau sefydlog yn ystod y flwyddyn:-

- Dibrisiant a briodolir i'r asedau a ddefnyddiwyd gan y gwasanaeth perthnasol.
- Colledion ailbriso ac amhariad ar asedau a ddefnyddiwyd gan y gwasanaeth lle nad oes enillion cronrus yn y Cyfrif Ailbriso Wrth Gefn y mae modd dileu'r colledion yn ei erbyn.

- Amorteiddio asedau sefydlog anniriaethol a briodolir i'r gwasanaeth.

Nid oes raid i'r Awdurdod godi'r dreth gyngor i bwrpas cyllido colledion dibrisiant, ailbrisiu neu amhariad na rhai amorteiddio. Fodd bynnag rhaid iddo wneud cyfraniad blynyddol o referniw tuag at y gostyngiad yn ei anghenion benthyca cyffredinol – cyfraniad sy'n cyfateb i swm a gyfrifir ar sail ddarbodous ac a bennir gan yr awdurdod yn unol â chyfarwyddiadau statudol. Felly yn lle colledion dibrisiant, ailbrisiu ac amhariad ac yn lle amorteiddiadau ceir cyfraniad i Falans Cronfa'r Cyngor – Isafswm Darpariaeth Referniw (IDR) - trwy drafodyn diwygio i'r Cyfrif Diwygio Cyfalaf yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn ac yn cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng y ddau.

7. BUDDIANNAU'R GWEITHWYR

Buddiannau Sy'n Daladwy yn Ystod Cyflogaeth

Y buddiannau tymor byr i'r gweithwyr yw'r rheiny sy'n cael eu talu cyn pen 12 mis i ddiwedd y flwyddyn - buddiannau megis cyflogau wythnosol a misol, gwyliau blynyddol gyda thâl, absenoldeb gwaeledd gyda thâl, taliadau bonws a buddiannau heblaw arian i'r gweithwyr presennol a'r rheiny'n cael eu cydnabod fel treuliau i'r gwasanaethau yn ystod y flwyddyn pryd y rhydd y gweithwyr wasanaeth i'r Awdurdod. Darperir ffigwr cronnus ar gyfer costau hawliadau gwyliau (neu unrhyw fath o absenoldeb, e.e. amser hyblyg) a enillwyd gan weithwyr a'r rheiny heb eu cymryd cyn diwedd y flwyddyn a hawl ganddynt i'w trosglwyddo i'r flwyddyn ariannol ddilynol. Mae'r ffigwr gronnus yn seiliedig ar y cyfraddau perthnasol i gyflogau wythnosol a misol yn y flwyddyn gyfrifo ddilynol, sef pryd y bydd y cyflogai yn cymryd y budd. Codir y ffigwr gronnus yn erbyn yr Arian dros Ben neu Ddiffyg ar y Ddarpariaeth Gwasanaethau, ond wedyn caiff ei wyrdroi trwy'r Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn fel bod buddiannau gwyliau yn cael eu codi yn erbyn referniw yn ystod y flwyddyn ariannol y mae'r absenoldeb gwyliau'n digwydd ynddi.

Buddiannau Terfynu

Buddiannau terfynu yw'r symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan yr Awdurdod i ddod â chyflogaeth swyddog i ben cyn y dyddiad ymddeol cyffredin neu benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddo gwirfoddol a chodir y rhain ar sail groniadau pan fo'r Awdurdod yn amlwg wedi ymrwymo i derfynu cyflogaeth swyddog neu grŵp o swyddogion neu i wneud cynnig i annog diswyddo gwirfoddol.

Pan fo buddiannau terfynu'n golygu ategu pensiynau mae darpariaethau statudol yn mynnu ar godi o falans Cronfa'r Cyngor y swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa bensiwn neu i'r pensiynwr yn y flwyddyn, nid y swm a gyfrifwyd yn ôl y safonau cyfrifeg perthnasol. Yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn, mae angen clustnodiadau i mewn ac allan o'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn i gael gwared â'r debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer buddiannau terfynu wrth ategu pensiynau ac yn eu lle ddarparu debydau am yr arian parod a dalwyd i'r gronfa bensiwn ac i'r pensiynwyr a'r cyfryw symiau'n daladwy ond heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn.

Buddiannau Ôl Gyflogaeth

Mae gweithwyr yr Awdurdod yn aelodau o ddau gynllun pensiwn sydd ar wahân i'w gilydd:

- Cynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan Bensiynau Athrawon Capita ar ran yr Adran Addysg (DfE)

- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir gan Gyngor Gwynedd.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir gan Gyngor Sir y Fflint.

Mae'r cynlluniau'n darparu buddiannau diffiniedig i aelodau (lwmp swm ymddeol a pensiwn), a enillwyd tra oedd gweithwyr yn gweithio i'r Awdurdod.

Fodd bynnag, mae'r trefniadau i gynllun yr athrawon yn golygu na all yr rhwymedigaethau i'r buddiannau hyn gael eu dynodi fel arfer yn benodol i'r Awdurdod. Felly cyfrifir am y cynllun fel petai'n gynllun cyfraniad diffiniedig ac ni chydabyddir unrhyw rwymedigaeth ar gyfer talu buddiannau i'r dyfodol yn y Fantolen. Codir am gyfraniadau y cyflogwr i Bensiynau Athrawon yn y flwyddyn i'r llinell Addysg yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Cedwir cyfrifon i'r Cynllun Llywodraeth Leol fel cynllun buddiannau diffiniedig:

- Mae'r rhwymedigaethau i Gynlluniau Pensiwn Gwynedd a Sir y Fflint a briodolir i'r Awdurdod yn cael eu cynnwys yn y Fantolen yn ôl dull actiwariol gan ddefnyddio'r dull uned ragamcanedig - h.y. asesiad o'r taliadau a wneir yn y dyfodol yng nghyswllt buddiannau ymddeoliad a enillwyd hyd yma gan y gweithwyr, yn seiliedig ar ragdybiaethau yng nghyswllt cyfraddau marwolaeth, cyfraddau trosiant y gweithwyr ayyb. a hefyd ar ragamcanion yng nghyswllt enillion y gweithwyr presennol.
- Rhoddir disgownt yn erbyn y rhwymedigaethau i lawr i'w gwerth yn ôl prisiau cyfredol, gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt o 2.7% (2.6% 2016/17) (yn seiliedig ar raddfa dychweliad awgrymiadol ar fondiau corfforaethol o safon uchel (iBoxx)).
- Mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd a briodolir i'r Cyngor wedi'u cynnwys yn y Fantolen yn ôl eu gwerth teg:-
 - Stociau a ddyfynnir - pris bid presennol
 - Stociau heb eu dyfynnu - amcangyfrif proffesiynol
 - Stociau uned - cyfartaledd cyfraddau'r bidiau a'r cynigion
 - Eiddo - gwerth ar y farchnad
- Mae'r newid yn y rhwymedigaethau pensiwn net yn cael ei ddadansoddi fesul saith rhan:-
 - Costau gwasanaeth cyfredol - cynnydd yn y rhwymedigaethau oherwydd nifer y blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni - wedi ei glustnodi i Ddatganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y gwasanaethau y mae'r gweithwyr yn gweithio iddynt.
 - Costau gwasanaeth y gorffennol - y cynnydd yn y rhwymedigaethau oherwydd penderfyniadau a wnaed eleni ac effaith y rheiny yn ymwneud â nifer y blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd blaenorol - debyd i Arian Dros Ben neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r Costau ac Incwm Corfforaethol.
 - Costau llog - y cynnydd disgwylidig yng ngwerth presennol y rhwymedigaethau yn ystod y flwyddyn wrth i'r rheiny symud blwyddyn

yn nes i gael eu talu - debyd i'r llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddi a Gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

- Llog ar asedau Pensiwn – dyma'r llog ar asedau sy'n cael eu dal ar ddechrau'r flwyddyn a'r llif arian sy'n digwydd yn ystod y flwyddyn, a gyfrifir gan ddefnyddio'r gyfradd ostyngol ar ddechrau'r flwyddyn.
- Enillion neu golledion ar setliadau a chwtogiadau - o ganlyniad i gamau a gymerir i ryddhau'r Awdurdod o rwymedigaethau neu ddigwyddiadau sy'n gostwng gwasanaeth disgwylidig y dyfodol neu'r buddiannau cronus i weithwyr – debyd neu gredyd i'r Arian dros Ben neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r Costau ac Incwm Corfforaethol.
- Ail-fesuriadau (asedau) – dyma'r adenillion ar asedau cynlluniau net o dreuliau gweinyddol ac incwm llog. Mae'n disodli elw a cholled actiwaraid ar asedau. Hefyd yn gynwysedig, mae costau o ganlyniad i adolygu clustnodi asedau ar brisiad i bob aelod staff.
- Ail-fesuriadau (rhwymedigaethau) – mae hyn yn gyfuniad o newidiadau mewn demograffig a thybiaethau ariannol a phrofi elw a cholled ar rwymedigaethau.
- Cyfraniadau a dalwyd i Gronfa Bensiwn Gwynedd a Sir y Fflint - arian parod a dalwyd i mewn fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r gronfa bensiwn fel setliad o rwymedigaethau; heb ei gyfrif fel traul.

Yng nghyswllt buddiannau ymddeoliad, mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i godi'r swm sy'n daladwy gan yr Awdurdod i'r gronfa bensiwn neu'n uniongyrchol i bensiwnwyr yn y flwyddyn ar falans Cronfa'r Cyngor, ac nid y swm a gyfrifwyd yn unol â'r safonau cyfrifeg cysylltiedig. Yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn, golyga hyn fod cyllid yn mynd i'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn ac o'r Gronfa, er mwyn dileu'r debydau a'r credydau tybiannol ar gyfer buddiannau ymddeoliad a chael yn eu lle ddebydau ar gyfer yr arian parod a dalwyd i'r gronfa bensiwn neu bensiwnwyr ac unrhyw symiau o'r fath a oedd yn daladwy ond na thalwyd cyn diwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sy'n codi o'r Gronfa Bensiwn Wrth Gefn felly'n mesur yr effaith fuddiol i Gronfa'r Cyngor o'r angen i roi cyfrif am fuddiannau ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na buddiannau a enillwyd gan weithwyr.

Buddiannau Dewisol

Yn ogystal mae gan yr Awdurdod rai pwerau i dalu buddiannau ymddeoliad dewisol pan fo gweithwyr yn ymddeol yn gynnar. Mae unrhyw rwymedigaethau y tybir eu bod am godi yn sgil rhoi dyfarniad i unrhyw aelod o'r staff (gan gynnwys athrawon) yn cronni yn ystod blwyddyn y penderfyniad a gwneir cyfrif amdanynt gan ddefnyddio'r un polisiau â'r rheiny a ddefnyddir yng nghyswllt Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

8. DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN

Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, rhai ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan fo'r Datganiad Cyfrifon wedi ei awdurdodi i'w gyhoeddi. Gellir dynodi dau fath o ddigwyddiad:

- Y rheiny sy'n rhoi tystiolaeth o'r amodau oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – mae'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu'r fath ddigwyddiadau.
- Y rheiny sy'n arwydd o amodau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – nid yw'r Datganiad Cyfrifon yn cael ei addasu i adlewyrchu'r fath ddigwyddiadau, ond pan fo categori o ddigwyddiadau yn cael effaith berthnasol, gwneir datgeliad yn y nodiadau ar natur y digwyddiadau a'u heffaith ariannol ddisgwyliedig.

Nid adlewyrchir digwyddiadau sy'n cymryd lle ar ôl dyddiad awdurdodi (24/09/2018 2017/18) i gyhoeddi yn y Datganiad Cyfrifon.

9. OFFERYNNAU ARIANNOL

Rhwymedigaethau ariannol

Mae rhwymedigaeth ariannol yn cael ei chydabod yn y Fantolen pan fo'r Awdurdod yn dod yn barti i ddarpariaethau contract offeryn ariannol a chânt eu mesur, yn y lle cyntaf, yn ôl gwerth teg a chânt eu cludo ar eu cost amorteiddiedig. Mae'r treuliau blynyddol yn y llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddiad a Gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yng nghyswllt y llog taladwy yn seiliedig ar swm y rhwymedigaeth a gludir, wedi ei luosi gan y gyfradd log mewn grym ar y pryd i'r offeryn. Y gyfradd a ddefnyddir yw honno sy'n rhoddi disgownt union ar y taliadau arian parod yn y dyfodol dros oes yr offeryn yn ôl y swm a gafodd ei gydnabod iddo yn y lle cyntaf.

Yn achos y rhan fwyaf o fenthyciadau'r Awdurdod, golyga hyn mai'r swm sydd yn y Fantolen yw'r swm gwreiddiol sydd ar ôl i'w dalu (ynghyd â llog cronrus); a'r llog a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm sy'n daladwy am y flwyddyn yn ôl y cytundeb benthycyca.

Mae'r enillion neu'r colledion wrth ail-brynu neu wrth setlo'r benthyciad yn gynnar yn cael eu rhoddi mewn credyd neu mewn debyd yn y llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddiad a Gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn neu ail-brynu/setlo. Fodd bynnag, pan fo ail-brynu yn digwydd fel rhan o ailstrwythuro'r portffolio benthycyca yng nghyswllt diwygio neu ffeirio'r offerynnau presennol, yna mae'r premiwm neu'r disgownt yn cael ei dynnu neu ei ychwanegu ar gost amorteiddiedig y benthyciad newydd neu'r un diwygiedig a'r cofnod yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cael ei daenu dros oes y benthyciad trwy wneud diwygiad i'r gyfradd log weithredol.

Pan fo premiwm neu ddisgownt wedi ei godi ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, mae rheoliadau yn caniatáu taenu, dros flynyddoedd y dyfodol, unrhyw effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor. Polisi'r Awdurdod yw taenu'r enillion neu'r colledion dros weddill tymor y benthyciad yr oedd y premiwm yn cael ei dalu drosto neu pryd yr oedd y disgownt yn cael ei dderbyn pan ad-dalwyd. Mae cysoni symiau a godir ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr gyda'r taliad net o Falans Cronfa'r Cyngor yn cael ei reoli trwy drosglwyddo i neu o'r Cyfrif Diwygio Offerynnau Ariannol yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn.

Asedau Ariannol

Mae dau ddsbarth o asedau ariannol:

- Benthyciadau a symiau sy'n dderbyniadwy - asedau gyda thaliadau sefydlog neu gellir eu pennu, ond nad ydynt yn cael eu dyfynnu mewn marchnad weithredol.
- Asedau ar gael i'w gwerthu – asedau gyda phris y farchnad a ddyfynnwyd a/neu heb daliadau sefydlog neu gellir eu pennu.

Benthyciadau a Symiau sy'n Dderbyniadwy

Cydnabyddir benthyciadau a symiau sy'n dderbyniadwy posib ar y Fantolen pan fo'r Awdurdod yn dod yn rhan o ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol ac ar y cychwyn maent yn cael eu mesur ar werth teg. Wedi hynny cânt eu mesur yn ôl y gost amorteiddiedig. Mae'r credydau blynyddol i'r llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddiad a Gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer llog a dderbynnir yn seiliedig ar swm cludadwy ased wedi ei luosi gan y raddfa log berthnasol i'r offeryn. Yn achos y rhan fwyaf o'r benthyciadau a drefnwyd gan yr Awdurdod, mae hyn yn golygu mai'r swm a gyflwynwyd yn y Fantolen yw'r swm gwreiddiol sydd heb ei glirio ac yn dderbyniadwy (ynghyd â llog sydd wedi cronni) a'r llog a roddwyd mewn credyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yw'r swm a geir yn y flwyddyn yn ôl cytundeb y benthyciad.

Fodd bynnag, mae'r Awdurdod wedi gwneud nifer o fenthyciadau i sefydliadau chwaraeon a gwirfoddol ar raddfeydd is na'r farchnad (benthyciadau meddal). Pan y gwneir benthyciadau meddal, cofnodir colled yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (wedi ei ddebydu i'r gwasanaeth priodol) ar gyfer gwerth presennol y llog a gollir dros oes yr offeryn, gan arwain at gost amorteiddiedig is na'r prifswm sydd dros ben. Credydir llog i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar raddfa effeithiol ychydig yn uwch na'r raddfa a dderbynnir gan sefydliadau gwirfoddol, gyda'r gwahaniaeth yn arwain at gynyddu cost amorteiddiedig y benthyciad yn y Fantolen. Mae darpariaethau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i effaith benthyciadau meddal ar Falans Cronfa'r Cyngor yw'r llog sy'n dderbyniadwy ar gyfer y flwyddyn ariannol – rheolir cysoniad y symiau a ddebydir ac a gredydir i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r enilliad net sydd ei angen yn erbyn Balans Cronfa'r Cyngor gan drosglwyddiad i neu o'r Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol yn Datganiad Symudiad yn y Cronfeydd Wrth Gefn.

Pan fo asedau yn cael eu nodi fel rhai sy'n destun amhariad a hynny oherwydd y tebygrwydd, yn seiliedig ar beth a ddigwyddodd yn y gorffennol, na fydd taliadau dyledus dan y contract yn cael eu cyflwyno, yna rhoddir gostyngiad yn erbyn yr ased a chodi am hynny ar y gwasanaeth perthnasol (ar gyfer symiau sy'n dderbyniadwy sy'n benodol i'r gwasanaeth hwnnw) neu ar y llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddiad a Gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr mewn graddfa llog.

Bydd unrhyw enillion neu unrhyw golledion sy'n codi oherwydd dadgydnabod yr ased yn cael eu rhoddi mewn credyd/debyd i'r llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddiad a Gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Asedau Sydd Ar Gael i'w Gwerthu

Cydnabyddir Asedau sydd ar Gael i'w Gwerthu ar y Fantolen pan fo'r Awdurdod yn dod yn rhan o ddarpariaethau cytundebol offeryn ariannol ac ar y cychwyn maent yn cael eu mesur a'u cludo ar werth teg. Pan fo gan ased daliadau sefydlog neu rai y mae modd eu pennu, mae'r credydau blynyddol i'r llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddiad a Gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar gyfer llog a dderbynnir yn seiliedig ar gost amorteiddiedig yr ased wedi ei luosi gan y raddfa log berthnasol i'r offeryn. Ble nad oes unrhyw daliadau sefydlog na rhai y mae modd eu pennu, mae incwm (ee difidendau) yn cael ei gredydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan ddaw'n dderbyniadwy gan yr Awdurdod.

Cedwir yr asedau yn y Fantolen yn ôl eu gwerth teg. Mae'r gwerthoedd yn seiliedig ar yr egwyddorion a ganlyn:

- Offerynnau gyda phrisiau a nodir ar y farchnad - pris y farchnad.
- Offerynnau eraill gyda thaliadau penodol neu rai y mae modd eu pennu – dadansoddiad o'r llif arian ar ôl disgownt.
- Cyfrannau ecwiti heb brisiau wedi eu nodi ar y farchnad - asesiad annibynnol o werth y cwmni.

I gydnabod unrhyw newidiadau yn y gwerth teg, rhoddir cofnod yn y Gronfa Wrth Gefn ar Gael i'w Gwerthu a bydd cydnabyddiaeth i'r enillion/colledion yn yr Arian dros Ben neu Ddiffyg ar Ailbrisiant Asedau Ariannol Ar Gael i'w Gwerthu. Y mae eithriad pan fo colledion amhariad yn digwydd - rhoddir y rhain mewn debyd yn y llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddiad a Gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, ynghyd ag unrhyw golledion/enillion net i'r ased a gronnwyd i'r ased yn y Gronfa Wrth Gefn Ar Gael i'w Gwerthu.

Pan nodir fod asedau yn wynebu amhariad oherwydd y tebygrwydd, yn seiliedig ar ddigwyddiad yn y gorffennol, na fydd y taliadau dyledus dan y contract yn cael eu cyflwyno (taliadau sefydlog neu rai y mae modd eu pennu),neu pan fo gwerth teg yn gostwng o dan y gost, nodir gostyngiad i'r ased a chodir am hynny yn y llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddiad yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Os oes gan yr ased daliadau sefydlog neu rai y mae modd eu pennu, mesurir y golled amhariad fel y gwahaniaeth rhwng y swm cludadwy a gwerth presennol llif arian diwygiedig y dyfodol gyda disgownt yn seiliedig ar log gweithredol yr ased gwreiddiol. Fel arall, mesurir y golled amhariad fel unrhyw ddiffyg gwerth teg yn erbyn costau caffael yr offeryn (net o unrhyw ad-daliad swm gwreiddiol ac amorteiddiad).

Bydd unrhyw enillion neu golledion sy'n digwydd yn sgil dadgydnabod yr ased yn cael eu gosod mewn credyd/debyd i'r llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddiad a Gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ynghyd ag unrhyw enillion/colledion cronnus a gafodd eu cydnabod cyn hynny yn y Gronfa Wrth Gefn ar gael i'w Gwerthu.

Os nad oes modd mesur y gwerth teg mewn ffordd ddibynadwy, mae'r offeryn yn cael ei gludo yn ôl cost (llai unrhyw golledion amhariad).

10. TROSI ARIAN TRAMOR

Pan fo'r Awdurdod wedi gwneud trafodion mewn arian tramor, mae'r trafodyn yn cael ei drosi i sterling ar y raddfa gyfnewid sy'n berthnasol ar i ddiwrnod y gwnaethpwyd y trafodyn. Pan fo symiau mewn arian tramor dros ben ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, maent yn cael eu trosi i sterling.

11. GRANTIAU LLYWODRAETH A CHYFRANIADAU ERAILL

P'un a ydynt yn cael eu talu i'r cyfrif, trwy randaliadau neu fel ôl-ddyledion, cydnabyddir grantiau llywodraeth a chyfraniadau a rhoddion trydydd parti fel rhai sy'n ddyledus i'r Awdurdod pan fo sicrwydd rhesymol:

- Y bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r amodau sydd ynghlwm â'r taliadau, ac
- Y derbynnir y grantiau neu chyfraniadau.

Nid yw'r symiau a nodwyd fel rhai sy'n ddyledus i'r Cyngor yn cael eu rhoi mewn credyd yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hyd nes bydd yr amodau

sydd ynghlwm wrth y grant neu'r cyfraniad wedi eu bodloni. Mae'r amodau'n nodi bod rhaid i'r buddiannau economaidd yn y dyfodol neu i'r gwasanaeth posib sydd wedi'i ymgorffori yn yr ased a brynwyd gyda'r arian grant neu gyda'r cyfraniadau gael eu defnyddio gan y derbynnydd fel y nodwyd, neu bydd raid dychwelyd i'r trosglwyddydd y buddiannau economaidd yn y dyfodol neu'r gwasanaeth posib.

Mae'r arian a roddwyd fel grantiau a chyfraniadau lle na chafodd yr amodau eu bodloni yn cael eu cludo ymlaen yn y Fantolen fel credydwy. Pan fo'r amodau'n cael eu bodloni mae'r grant neu'r cyfraniad yn cael ei roddi mewn credyd yn y llinell gwasanaeth priodol (grantiau refeniw a chyfraniadau a briodolwyd) neu Dreth ac Incwm Grant Amhenodol (grantiau refeniw heb eu hamgáu a'r holl grantiau cyfalaf) yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo'r grantiau cyfalaf yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, maent yn cael eu gwyrddroi allan o Falans y Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth gefn. Pan fo grant heb ei ddefnyddio eto i gyllido gwariant cyfalaf, mae'n cael ei bostio i'r Grantiau Cyfalaf Wrth Gefn – y rhai na chafodd eu defnyddio. Pan fo wedi'i ddefnyddio mae'n cael ei bostio i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf. Mae'r symiau yn y Grantiau Cyfalaf Wrth Gefn na chawsant eu defnyddio yn cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf unwaith y cânt eu defnyddio i gyllido gwariant cyfalaf.

12. **ASEDAU ANNIRIAETHOL**

Mae gwariannau ar asedau nad ydynt yn rhai ariannol ac sydd heb ffurf ffisegol ond sy'n cael eu rheoli gan yr Awdurdod oherwydd digwyddiadau yn y gorffennol (e.e. trwyddedau meddalwedd) yn cael eu cyfalafu pan dybir y bydd buddiannau economaidd yn y dyfodol neu wasanaeth posib yn llifo o'r ased anniriaethol i'r Awdurdod.

Mae asedau a gynhyrchir yn fewnol yn cael eu cyfalafu pan fo modd dangos bod y prosiect yn dechnegol-ymarferol ac y bwriedir ei gwblhau (gydag adnoddau digonol ar gael) ac y bydd yr Awdurdod yn medru cynhyrchu buddiannau economaidd yn y dyfodol neu'n medru darparu gwasanaeth posib trwy werthu'r ased nei ei ddefnyddio. Mae gwariant yn cael ei gyfalafu pan fo modd ei fesur gyda sicrwydd fel un a briodolir i'r ased a phan fo'n cael ei gyfyngu i'r gwariant hwnnw a ddigwyddo yn ystod y cyfnod datblygu (nid oes modd cyfalafu gwariant ymchwil).

Nid yw gwariant ar ddatblygu gwefannau'n cael ei gyfalafu pan fo'r wefan yn cael ei defnyddio'n llwyr neu'n bennaf i hyrwyddo neu i hysbysebu nwyddau'r Awdurdod neu ei wasanaethau.

Ar y cychwyn cyntaf mesurir asedau anniriaethol yn ôl y gost. Nid yw'r symiau'n cael eu hailbriso hyd oni fydd modd pennu gwerth yr asedion y mae'r Awdurdod yn eu dal trwy droi at y farchnad weithredol. Yn ymarferol, nid oes yr un o'r asedau anniriaethol y mae'r Awdurdod yn eu dal yn bodloni'r maen prawf hwn ac felly cânt eu cludo yn ôl y gost amorteiddiedig. Mae swm dibrisiannol ased anniriaethol yn cael ei amorteiddio dros ei oes ddefnyddiol i linell(-au) y gwasanaeth perthnasol y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Rhoddir prawf amhariad ar ased pryd bynnag y ceir arwydd bod amhariad ar yr ased – mae unrhyw golledion a ganfyddir yn cael eu nodi yn erbyn y llinell(-au) i'r gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Bydd unrhyw enillion neu golledion wrth gael gwared ag ased anniriaethol neu wrth roi'r gorau iddo yn cael ei drosglwyddo i'r Llinell Gwariant Gweithredol arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo gwariant ar asedau anniriaethol yn gymwys i'w ystyried fel gwariant cyfalaf i ddibenion statudol, amorteiddio, colledion amhariad neu wrth gael gwared â'r asedion ni chaniateir i enillion a cholledion gael effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor.

Felly mae'r enillion a'r colledion yn cael eu gwyrddroi allan o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn a'u symud i'r Cyfrif Diwygio Cyfalaf ac (yn achos arian gwerthiant uwch na £10,000) i'r Gronfa Wrth Gefn Derbynion Cyfalaf.

13. **RHESTRAU STOC A CHONTRACTAU TYMOR HIR**

Rhestrau eiddo yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar y gost isaf a'r gwerth net gwireddadwy yn seiliedig ar sail cost gyfartalog wedi'i bwysoli. Rhoddir cyfrif am gontractau tymor hir trwy godi ar yr Arian dros Ben neu ar y Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn seiliedig ar werth y gwaith neu'r gwasanaeth a dderbynnir dan y contract yn ystod y flwyddyn ariannol.

14. **EIDDO BUDDSODDIAD**

Eiddo buddsoddiad yw eiddo a ddefnyddir yn unswydd i ennill rhent a/neu ar gyfer cynnydd cyfalaf. Nid yw'r diffiniad yn cael ei fodloni os yw'r eiddo'n cael ei ddefnyddio mewn unrhyw ffordd i hwyluso darparu gwasanaethau neu i gynhyrchu nwyddau neu pan fo'n cael ei ddal i'w werthu.

Mae eiddo buddsoddiad yn cael ei fesur yn ôl cost yn y lle cyntaf ac wedyn yn ôl gwerth teg, gan ddibynnu am faint y gellid cyfnewid yr ased rhwng partïon gwybodus hyd braich. Nid yw eiddo'n cael ei ddibrisio, yn hytrach caiff ei ailbrisiu'n flynyddol yn ôl amgylchiadau'r farchnad ar ddyddiad y Fantolen (diwedd y flwyddyn). Mae enillion a cholledion adeg ailbrisiu'n cael eu symud i'r llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddiad a Gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Yr un driniaeth yn union a roddir i enillion a cholledion wrth gael gwared ohonynt.

Mae rhent a dderbynnir am eiddo buddsoddiad yn cael ei roi mewn credyd yn y llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddiad ac yn peri cynnydd ym Malans Cronfa'r Cyngor. Fodd bynnag, ni chaniateir i enillion a cholledion ailbrisiu a gwerthu, dan drefniadau statudol, gael effaith ar Falans Cronfa'r Cyngor. Felly mae'r enillion a'r colledion yn cael eu gwyrddroi allan o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn a'u symud i'r Cyfrif Diwygio Cyfalaf ac (yn achos arian gwerthiant uwch na £10,000) i'r Gronfa Wrth Gefn Derbynion Cyfalaf.

15. **GWEITHREDIADAU A REOLIR AR Y CYD AC ASED AU A REOLIR AR Y CYD**

Y gweithrediadau a reolir ar y cyd yw'r gwaith hwnnw a wna'r Awdurdod ynghyd â mentrau eraill pan fo defnydd yn cael ei wneud o asedion ac o adnoddau'r mentrwyr yn hytrach na sefydlu endid ar wahân. Mae'r Awdurdod yn cydnabod ar ei Fantolen yr asedau y mae'n eu rheoli a'r rhwymedigaethau a wyneba ac mae'n rhoi fel credyd neu ddebyd, yn ei Ddatganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y gwariant hwnnw'r â iddo a'r gyfran o incwm a enilla yn sgil y gwaith.

Asedau a reolir ar y cyd yw eitemau eiddo, offer a chyfarpar sydd yn cael eu cydreoli gan yr Awdurdod a mentrwyr eraill a phan fo'r asedau'n cael eu defnyddio i sicrhau buddiannau i'r mentrwyr. Nid yw'r gydfenter yn galw am sefydlu endid ar wahân. Mae'r Awdurdod yn cadw cyfrif am ei gyfran ei hun yn unig o'r asedau a reolir ar y cyd, am y rhwymedigaethau a'r treuliau'r â iddynt ar ei ran ei hun neu ar y cyd ag eraill yng nghyswllt ei fuddiannau yn y gydfenter a'r incwm a ddaw iddo o'r fenter.

16. PRYDLESAU

Mae prydlesau'n cael eu categoraiddio fel prydlesau ariannol pan fo telerau'r brydles yn trosglwyddo, i bob pwrpas, o'r prydleswr i'r prydlesai yr holl risgiau a'r holl fendithion sydd ynghlwm wrth fod yn berchennog yr eiddo, yr offer a'r cyfarpar. Categorioiddir yr holl brydlesau eraill fel Prydlesau Gweithredol.

Pan fo prydles yn cynnwys tir ac adeiladau, mae'r tir a'r adeiladau'n cael eu hystyried ar wahân i bwrpas categoraiddio.

Pan fo trefniadau heb statws cyfreithiol prydles, ond er hynny'n trosglwyddo hawl i ddefnyddio ased yn gyfnewid am daliad, yna mae cyfrif amdanynt dan y polisi hwn pan fo cyflawni'r trefniant yn dibynnu ar ddefnyddio asedau penodol.

Yr Awdurdod fel Daliwr Prydles

Prydlesau Ariannol

Mae eiddo, offer a chyfarpar sy'n cael eu dal dan brydlesau ariannol yn cael eu cydnabod ar y Fantolen ar gychwyn y brydles yn ôl gwerth teg a fesurir adeg sefydlu'r brydles (neu yn ôl gwerth presennol y taliadau prydles lleiaf bosib, pa un bynnag o'r ddau sydd isaf). Gyda'r ased a gydnabyddir mae cyfrifoldeb cyfatebol i dalu i'r prydlesydd a all fod yn uwch na'r gwerth ased a gydnabyddir. Mae costau uniongyrchol cychwynol yr Awdurdod yn cael eu hychwanegu at y swm y mae'r ased yn ei gludo. Defnyddir y taliadau a wneir adeg gwneud prydles i nodi'r rhwymedigaeth sydd ynghlwm wrth y brydles. Codir am rent dilynol fel treuliau yn y cyfnodau hynny pryd y digwyddant.

Rhennir y taliadau prydles rhwng:-

- Tâl am brynu budd yn yr eiddo, offer a chyfarpar - defnyddir hwn i nodi i lawr beth yw rhwymedigaeth y brydles, a
- Tâl ariannol (mewn debyd yn y llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddiad a Gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr).

Cedwir cyfrif am Eiddo, Offer a Chyfarpar a gydnabyddir dan brydlesau ariannol trwy ddefnyddio'r polisiâu hynny a ddefnyddir yn gyffredin yng nghyswllt asedau o'r fath, yn amodol ar godi am ddibrisiant dros gyfnod y brydles os ydyw'r cyfnod hwnnw'n fyrrach na'r amcangyfrif i oes ddefnyddiol yr ased (pan fo perchnogaeth yr ased ddim yn trosglwyddo i'r Awdurdod ar ddiwedd cyfnod y brydles).

Nid yw'n ofynnol ar i'r Awdurdod godi Treth Gyngor i gynnwys dibrisiant neu ailbrisiant a cholledion amhariad sy'n deillio o asedau a brydleswyd. Yn hytrach, gwneir cyfraniad blynyddol gochelgar o gronfeydd refeniw tuag at y buddsoddiad cyfalaf tybiedig yn unol â gofynion statudol. Felly mae cyfraniad refeniw ym Malans Cronfa'r Cyngor yn cymryd lle dibrisiant ac ailbriso a cholledion, trwy addasu trafodyn gyda'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn am y gwahaniaeth rhwng y ddau.

Prydlesau Gweithredol

Mae rhenti a delir dan brydlesau gweithredol yn cael eu codi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel traul i'r gwasanaethau sy'n cael y budd o eiddo, offer a chyfarpar prydles. Codir y taliadau ar sail llinell-syth dros oes y brydles, hyd yn oed os nad yw hyn yn cyd-fynd â'r patrwm taliadau (e.e. mae cyfnod di-rent ar gychwyn y brydles).

Yr Awdurdod fel Prydleswr

Prydlesau Ariannol

Pan fo'r Awdurdod yn rhoi prydles ariannol dros eiddo neu eitem o offer neu gyfarpar, dilëir yr ased perthnasol o'r Fantolen fel gwarediad. Ar gychwyn y brydles, mae swm cludadwy'r ased yn y Fantolen (p'un a yw'n Eiddo, Offer a Chyfarpar neu Ased sy'n Cael ei Dal i'w Gwerthu) yn cael ei ddileu i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r enilliad neu golled ar warediad. Mae enilliad, sy'n cynrychioli buddsoddiad net yr Awdurdod yn y brydles, yn cael ei gredu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd fel rhan o'r enilliad neu golled ar warediad (h.y. ei ddebydu yn erbyn gwerth cludadwy'r ased adeg ei waredu), yn cydweddu gydag ased prydles (dyledwr tymor hir) yn y Fantolen.

Dyrennir prydlesau rhent rhwng:

- Taliad am gaffael y budd yn yr eiddo – defnyddir i ysgrifennu i lawr y dyledwr prydles (ynghyd ag unrhyw breiwm a dderbyniwyd), ac
- Incwm ariannol (credydir i'r llinell Cyllido ac Incwm Buddsoddiad a Gwariant yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr).

Ni chaniateir yn ôl statud i'r enilliad a gredu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar warediad gynyddu Balans Cronfa'r Cyngor ac mae'n ofynnol iddo gael ei drin fel derbyniad cyfalaf. Pan fo premiwm wedi ei dderbyn, mae hwn yn cael ei bostio allan o Falans Cronfa'r Cyngor i'r Gronfa Derbyniadwyon Cyfalaf Wrth Gefn yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn. Pan fo'r swm sy'n ddyledus yng nghyswllt yr ased prydles i'w setlo trwy dalu rhenti ym mlynedd ariannol y dyfodol, mae hwn yn cael ei bostio allan o Falans Cronfa'r Cyngor i'r Gronfa Derbyniadwyon Cyfalaf Wrth Gefn Gohiriedig yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn. Pan dderbynnir rhenti yn y dyfodol, defnyddir yr elfen derbyniad cyfalaf ar gyfer gwaredu'r ased i ysgrifennu i lawr y dyledwr prydles. Ar y pwynt hwn, mae'r derbyniadwyon cyfalaf gohiriedig yn cael eu trosglwyddo i'r Gronfa Derbyniadwyon Cyfalaf Wrth Gefn.

Nid yw gwerth a ddilëir o warediadau'n cael ei godi ar y dreth gyngor, gan y darperir yn llawn ar gyfer cost asedau sefydlog dan drefniadau ar wahân ar gyfer cyllido cyfalaf. Felly mae'r symiau hyn yn cael eu priodoli i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn.

Prydlesau Gweithredol

Pan fo'r Awdurdod yn rhoi prydles weithredol dros eiddo neu eitem o eiddo neu gyfarpar, cedwir yr ased yn y Fantolen. Mae Incwm Rhent yn cael ei gredu i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Gwneir credydau ar sail llinell-syth dros oes y brydles, hyd yn oed os nad yw hyn yn cyd-fynd â'r patrwm taliadau (e.e. telir premiwm ar gychwyn y brydles). Mae costau uniongyrchol cychwynnol yr eir iddynt wrth negodi a threfnu prydles yn cael eu hychwanegu at swm cludadwy'r ased perthnasol a'u codi fel traul dros oes y brydles ar yr un sail ag incwm rhent.

17. EIDDO, OFFER A CHYFARPAR

Dosberthir asedau sydd â sylwedd ffisegol ac sy'n cael eu dal i'w defnyddio i gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, i'w rhentu i eraill, neu i bwrpasau gweinyddol ac y disgwylir iddynt gael eu defnyddio yn ystod mwy nag un

flwyddyn ariannol fel Eiddo, Offer a Chyfarpar. Nid oes de minimis ar wariant cyfalaf.

Cydnabyddiaeth

Mae gwariant ar gaffael, creu neu wella Eiddo, Offer a Chyfarpar yn cael ei gyfalafu ar sail gronnsus, cyn belled â'i fod yn bosib y bydd y buddiannau economaidd y dyfodol neu botensial gwasanaeth sy'n gysylltiedig â nhw'n llifo i'r Awdurdod ac y gellir mesur cost yr eitem yn ddibynadwy. Mae gwariant sy'n cynnal ond nad yw'n ychwanegu at botensial ased i gyflenwi buddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth yn y dyfodol (h.y. trwsio a chynnal a chadw) yn cael ei godi fel traul fel y mae'n digwydd

Mesur

Caiff asedau eu mesur yn y lle cyntaf ar gost, yn cynnwys:-

- Y pris prynu
- Unrhyw gostau a briodolir i ddod ag ased i'r lleoliad a'r cyflwr sy'n angenrheidiol i bwrpas ei weithredu yn y dull a fwriadwyd gan reolwyr
- Amcangyfrif cychwynnol o gostau datgymalu a symud yr eitem ac adfer y safle y mae'r eitem arno.

Nid yw'r Awdurdod yn cyfalafu costau benthyca a geir tra bo asedau'n cael eu hadeiladu.

Tybir bod cost asedau a gaffaelir heblaw drwy bryniant yn gost gwerth teg, ac eithrio pan nad oes sylwedd masnachol i'r caffaeliad (h.y. ni fydd yn arwain at amrywiad yn llif arian yr Awdurdod). Yn yr achos olaf, pan y caffaelir ased drwy gyfnewid, cost y caffaeliad yw swm cario'r ased a roddir i fyny gan yr Awdurdod.

Mae asedau a roddir yn asedau a drosglwyddwyd i'r Cyngor ar werth dim neu ar lai na'r gwerth teg ac i ddechrau mesurir yr asedau a roddir yn ôl eu gwerth teg. Mae'r gwahaniaeth rhwng gwerth teg ac unrhyw ystyriaeth a delir yn cael ei roddi mewn credyd yn y llinell Treth ac Incwm Grant Amhenodol y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, oni bai bod y rhodd wedi ei rhoi gydag amod. Hyd nes y bydd yr amodau'n cael eu boddhu, bydd yr enilliad yn cael ei ddal yn y Cyfrif Asedau a Roddwyd. Pan fo enillion yn cael eu credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, maent yn cael eu gwyrddroi allan o Falans Cronfa'r Cyngor i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn.

Yna caiff asedau eu cario yn y fantolen gan ddefnyddio'r sail mesuriadau canlynol:

- Isadeiledd ac asedau cymunedol – cost dibrisiant hanesyddol
- Asedau sy'n cael eu hadeiladu – cost hanesyddol
- Pob ased gweithredol arall - gwerth teg, a bennir fel y swm a fyddai'n cael ei dalu am yr ased yn ei ddefnydd presennol (gwerth defnydd presennol - EUV).
- Eiddo buddsoddiad – gwerth y farchnad a heb ei ddibrisio.
- Asedau sy'n cael eu dal i'w gwerthu – gwerth isaf cyn cael eu dosbarthu fel rhai'n cael eu dal i'w gwerthu a gwerth y farchnad, a heb eu dibrisio.
- Asedau Treftadaeth – gwerth y farchnad a heb eu dibrisio.

Pan nad oes tystiolaeth seiliedig ar y farchnad o werth teg oherwydd natur arbenigol ased, defnyddir cost amnewidiol dibrisiedig (DRC) fel amcangyfrif o werth teg.

Pan fo gan asedau nad ydynt yn eiddo oes ddefnyddiol fer neu werth isel (neu'r ddau), defnyddir sail cost hanesyddol dibrisiedig fel procsi ar gyfer gwerth teg.

Mae'r asedau a gynhwysir yn y Fantolen ar werth teg yn cael eu hailbriso yn ddigon aml i sicrhau nad yw eu swm cario'n sylweddol wahanol i'w gwerth teg ar ddiwedd y flwyddyn, ond o leiaf bob pum mlynedd. Mae cynnydd mewn ailbriso'n cydweddu â chredydau i'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn i gydnabod enillion heb eu gwireddu. Yn eithriadol, gellir credydu enillion i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan fônt yn codi o wyrddroad colled a godwyd yn flaenorol i wasanaeth.

Pan ddynodir lleihad mewn gwerth, cyfrifir amdano fel a ganlyn:

- Pan fo balans o enillion ailbrisiant i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, ysgrifennir swm cario'r ased i lawr yn erbyn y balans hwnnw (i fyny at y swm o enillion cronnus)
- Pan nad oes balans yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn neu falans annigonol, ysgrifennir swm cario'r ased i lawr yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Mae'r Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn yn cynnwys enillion ailbrisiant a gydnabuwyd ers 1 Ebrill 2007 yn unig, dyddiad eu gweithredu'n ffurfiol. Mae'r enillion a gafwyd cyn y dyddiad hwnnw wedi eu hymgorffori yn y Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

Amhariad

Mae gwerth asedau'n cael eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn am arwydd o amhariad ar werth. Pan fo arwyddion, ac amcangyfrifir bod gwahaniaethau posib yn berthnasol, yna amcangyfrifir swm adferadwy'r ased a, ble bo hwn yn llai na swm cario'r ased, cydnabyddir colled amhariad ar gyfer y diffyg.

Pan ddynodir colledion amhariad, cyfrifir amdanynt fel a ganlyn:

- Pan fo balans o enillion ailbrisiant i'r ased yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn, ysgrifennir swm cario'r ased i lawr yn erbyn y balans hwnnw (i fyny at y swm o enillion cronnus).
- Pan nad oes balans yn y Gronfa Ailbrisiant Wrth Gefn neu falans annigonol, ysgrifennir swm cario'r ased i lawr yn erbyn llinell(au) y gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

Pan fo colled amhariad yn cael ei gwyrddroi'n dilyn hyn, credydir y gwyrddroad i'r llinell(au) gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, i fyny at swm y golled wreiddiol, wedi ei addasu ar gyfer dibrisiant y byddid wedi ei godi pe na fyddai'r golled wedi ei chydnabod.

Dibrisiant

Darperir ar gyfer dibrisiant yr holl asedau Eiddo, Offer a Chyfarpar trwy ddyraniad systematig o'u symiau dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol. Gwneir eithriad ar gyfer asedau heb oes ddefnyddiol benodadwy gyfyngedig (h.y. tir rhydd-ddaliad a rhai Asedau Cymunedol penodol) ac asedau nad ydynt eto ar gael i'w defnyddio (h.y. asedau sy'n cael eu hadeiladu).

Cyfrifir dibrisiant ar y seiliau canlynol:-

- Anheddau ac adeiladau eraill – dyraniad llinell syth dros oes ddefnyddiol yr eiddo fel yr amcangyfrifir gan y prisiwr: rhwng 1-154 blwyddyn
- Cerbydau, offer, dodrefn a chyfarpar: dros oes ddefnyddiol rhwng 1 i 13 mlynedd
- Asedau Cymunedol: 1-27 blwyddyn
- Isadeiledd: dyraniad llinell syth rhwng 1-33 mlynedd.

Pan fo gan eitem o ased Eiddo, Offer a Chyfarpar gydrannau mawr y mae eu cost yn sylweddol mewn cysylltiad â chost gyfan yr eitem, ac mae ei oes ddefnyddiol amcangyfrifedig yn sylweddol wahanol i oes ddefnyddiol y brif ased, dibrisir y cydrannau ar wahân.

Mae enillion ailbrisant hefyd yn cael eu dibrisio, gyda swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng gwerth presennol dibrisiant a godir ar asedau a'r dibrisiant a fyddai wedi ei godi ar eu cost hanesyddol yn cael ei drosglwyddo bob blwyddyn o'r Gronfa Ailbrisant Wrth Gefn i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

Gwarediadau ac Asedau nad ydynt yn Gyfredol yn Cael eu Dal ar Gyfer Gwerthu

Pan ddaw'n bosib y bydd swm cario ased yn cael ei adennill yn bennaf drwy werthiant yn hytrach na pharhau i'w ddefnyddio, caiff ei ailddosbarthu fel Ased sy'n Cael ei Dal i'w Werthu. Mae'r ased yn cael ei hailbriso yn union cyn ei hailddosbarthu ac yna ei chario ar yr isaf o'r swm hwn a gwerth teg llai costau gwerthu. Pan fo gostyngiad dilynol i werth teg llai costau gwerthu, mae'r golled yn cael ei phostio i'r llinell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Dim ond hyd at swm unrhyw golledion a gydnabuwyd yn flaenorol yn yr Arian dros Ben neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau y cydnabyddir enillion mewn gwerth teg. Ni chodir dibrisiant ar Asedau sy'n Cael eu Dal i'w Werthu.

Os nad yw asedau bellach yn cwrdd â'r meini prawf i'w dosbarthu fel Asedau sy'n Cael eu Dal i'w Werthu, yna cânt eu hailddosbarthu'n ôl i asedau nad ydynt yn gyfredol a'u prisio ar yr isaf o'u swm cario cyn iddynt gael eu dosbarthu fel rhai'n cael eu dal i'w werthu (addasu ar gyfer dibrisiant, amorteiddiad neu ailbrisiadau a fyddai wedi cael eu cydnabod petaent ddim wedi cael eu dosbarthu fel rhai sy'n Cael eu Dal i'w Werthu) a'u swm adferadwy ar ddyddiad y penderfyniad i beidio gwerthu.

Nid yw asedau sydd wedi eu gadael neu eu sgrapio yn cael eu hailddosbarthu fel Asedau sy'n Cael eu Dal i'w Werthu.

Pan ceir gwared ag ased neu pan gaiff ei datgomiynu, dilëir swm cario'r ased yn y Fantolen (p'un a yw'n Eiddo, Offer a Chyfarpar neu Asedau sy'n Cael eu Dal i'w Werthu) i linell Gwariant Gweithredol Arall yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o'r enilliad neu golled ar waredu. Mae symiau a dderbynnir o warediadau (os oes rhai) yn cael eu credydu i'r un llinell yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr hefyd fel rhan o'r enilliad neu golled ar waredu (h.y. wedi ei netio i ffwrdd yn erbyn gwerth cario'r ased adeg cael gwared arno). Mae unrhyw enillion ailbrisant a gronnwyd i'r ased yn y Gronfa Ailbrisant Wrth Gefn yn cael eu trosglwyddo i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf.

Mae symiau uwch na £10,000 a dderbynnir ar gyfer eitem a waredwyd yn cael eu categoreiddio fel Derbyniadwyon Cyfalaf. Mae'n ofynnol ar i'r derbyniadwyon cyfalaf gael eu credydu i'r Gronfa Derbyniadwyon Cyfalaf Wrth Gefn, ac yna dim ond ar

gyfer buddsoddiad cyfalaf newydd y cânt eu defnyddio neu eu gosod o'r neilltu i leihau angen gwaelodol yr Awdurdod i fenthyca (y gofyniad cyllido cyfalaf). Mae derbyniadwyon yn cael eu meddiannu i'r Gronfa Wrth Gefn o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn.

Nid yw gwerth a ddilëir o warediadau'n cael ei godi yn erbyn y Dreth Gyngor, oherwydd darperir yn llawn ar gyfer asedau sefydlog dan drefniadau gwahanol ar gyfer ariannu cyfalaf. Mae symiau'n cael eu meddiannu i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn.

Caiff asedau cyfarpar sydd wedi dibrisio'n llawn eu dileu yn y flwyddyn ariannol ganlynol.

18. **MENTRAU CYLLID PREIFAT (PFI) A CHONTRACTAU TEBYG**

Cytundeb yw contract PFI i dderbyn gwasanaeth, lle mae'r cyfrifoldeb dros sicrhau bod yr Eiddo, Offer a Chyfarpar ar gael sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaeth yn trosglwyddo i'r contractwr PFI. Gan mai'r dybiaeth yw bod y Cyngor yn rheoli'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu dan ei gynllun PFI ac y bydd perchenogaeth yr Eiddo, Offer a Chyfarpar yn trosglwyddo i'r Cyngor ar ddiwedd y contract, heb ddim cost ychwanegol, mae'r Cyngor yn dal yr asedau sefydlog a ddefnyddiwyd dan y contract ar y Fantolen.

Yn cydbwysu cydnabyddiaeth wreiddiol yr Eiddo, Offer a Chyfarpar hyn, mae cydnabyddiaeth ynghylch rhwymedigaeth am symiau dyledus i weithredwr y cynllun i dalu am yr asedau. I'r Cynllun PFI Tair Ysgol, ysgrifennwyd yr rhwymedigaeth i lawr gan daliad cychwynnol ymlaen llaw o dal unedol o £9m.

Caiff Eiddo, Offer a Chyfarpar sy'n cael eu cydnabod ar y Fantolen eu hadbriso a'u dibrisio yn yr un modd ag Eiddo, Offer a Chyfarpar ym meddiant y Cyngor.

Caiff y symiau taladwy i'r gweithredwr PFI bob blwyddyn eu dadansoddi i bum elfen:-

- Gwerth teg y gwasanaethau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn – wedi'i debydu i'r gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- Costau cyllid - codi llog ar y rhwymedigaeth Mantolen sydd dros ben, wedi ei ddebydu i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- Rhent dibynnol – cynnydd yn y swm i'w dalu am yr eiddo sy'n codi yn ystod y contract, wedi'i ddebydu i'r llinell Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.
- Taliad tuag at y rhwymedigaeth – wedi'i gymhwyso i ddibrisio dyled y Fantolen tuag i'r gweithredwr PFI.
- Costau adnewyddu cylchred oes – yn cael eu cydnabod fel Eiddo, Offer a Chyfarpar ar y Fantolen.

Credydau PFI

Mae cefnogaeth llywodraeth a dderbynnir ar gyfer cynlluniau PFI, uwchlaw lefelau gwariant presennol, yn cael eu cario ymlaen fel cronfa wrth gefn glustnodedig i ariannu gwariant contract i'r dyfodol.

19. **DARPARIAETHAU, RHWYMEDIGAETHAU DIBYNNOL AC ASED AU DIBYNNOL**

Darpariaethau

Gwneir darpariaethau pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol i'r Awdurdod, sydd mae'n debyg angen setliad trwy drosglwyddo buddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth, a phan fo modd darparu amcangyfrif dibynadwy o faint y rhwymedigaeth.

Codir darpariaethau fel traul ar y llinell gwasanaeth briodol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn y daw'r awdurdod yn ymwybodol o'r rhwymedigaeth, a chânt eu mesur yn ôl yr amcangyfrif gorau ar ddyddiad y Fantolen o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth, gan gymryd i ystyriaeth y risgiau ac ansicrwydd perthnasol.

Pan fo taliadau'n cael eu cyflwyno yn y diwedd, rhoddir nhw yn erbyn y ddarpariaeth a gludir yn y Fantolen. Mae setliadau amcangyfrifedig yn cael eu hadolygu ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol – pryd y bydd hi'n llai na thebygol y bydd angen trosglwyddo buddiannau economaidd (neu wneud setliad llai na'r disgwyl), gwyrdroir y ddarpariaeth a'i rhoddi mewn credyd yn ôl yn y gwasanaeth perthnasol.

Pan fo disgwyl hawlio cyfran neu'r cyfan o'r taliad i setlo'r ddarpariaeth oddi ar barti arall (ee oddi ar hawliad yswiriant), caiff ei gydnabod fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol os oes sicrwydd go bendant yn unig y bydd ad-daliad ar gael os yw'r awdurdod yn setlo'r rhwymedigaeth.

Rhwymedigaethau Dibynnol

Mae rhwymedigaeth dibynnol yn codi pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi rhwymedigaeth bosib i'r Awdurdod, ond ni cheir cadarnhad iddi hyd oni fydd y digwyddiad nad oes modd ei ragweld wedi digwydd yn y dyfodol a hwnnw heb fod yn gyfan gwbl dan reolaeth yr awdurdod. Mae rhwymedigaethau dibynnol hefyd yn codi mewn amgylchiadau ble byddai darpariaeth yn cael ei gwneud fel arall ond naill ai nid yw'n debygol a bydd angen all-lif o adnoddau neu ni ellir mesur maint y rhwymedigaeth yn ddibynadwy.

Ni chydabyddir rhwymedigaethau dibynnol yn y Fantolen, ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon.

Asedau Dibynnol

Mae ased dibynnol yn codi pan fo digwyddiad wedi cymryd lle sy'n rhoi ased bosib i'r Awdurdod, ond ni fydd modd cael cadarnhad iddo hyd oni fydd y digwyddiad nad oes modd ei ragweld wedi digwydd yn y dyfodol a hwnnw heb fod yn gyfan gwbl dan reolaeth yr awdurdod.

Ni chydabyddir asedau dibynnol yn y Fantolen ond cânt eu datgelu mewn nodyn i'r cyfrifon ble mae'n debygol y bydd mewnllif o fuddiannau economaidd neu botensial gwasanaeth.

20. **CRONFEYDD WRTH GEFN**

Mae'r Awdurdod yn gosod o'r neilltu symiau penodol fel cronfeydd wrth gefn i ddibenion polisi i'r dyfodol neu i ymdrin â materion wrth gefn. Crëir cronfeydd wrth gefn trwy dynnu symiau o Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn. Pan ceir traul sydd i'w gyllido o gronfa wrth gefn, caiff

ei godi ar y gwasanaeth priodol yn y flwyddyn honno yn erbyn yr Arian dros Ben neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Yna trosglwyddir y gronfa wrth gefn yn ôl i Falans Cronfa'r Cyngor yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn fel nad oes effaith arian parod net ar gyllido'r gyllideb refeniw.

Cedwir rhai cronfeydd wrth gefn penodol er mwyn rheoli'r prosesau cyfrifo ar gyfer asedau nad ydynt yn gyfredol, offerynnau ariannol, buddiannau ymddeoliad a buddiannau gweithwyr ac nid ydynt yn cynrychioli adnoddau y gellir eu defnyddio i'r Awdurdod – eglurir y cronfeydd wrth gefn hyn yn y nodiadau perthnasol.

21. **GWARIANT REFENIW A GYLLIDIR GYDA CHYFALAF DAN STATUD**

Mae gwariant yr aethpwyd iddo yn ystod y flwyddyn y gellir ei gyfalafu dan ddarpariaethau statudol ond yn wariant nad yw'n creu ased anghyfredol wedi ei godi fel gwariant i'r gwasanaeth perthnasol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn y flwyddyn. Pan fo'r Awdurdod wedi penderfynu cwrdd â chost y gwariant hwn o adnoddau cyfalaf presennol neu trwy fenthyca, mae trosglwyddiad yn y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn o Falans Cronfa'r Cyngor i'r Cyfrif Addasiad Cyfalaf yna'n gwyrddroi'r symiau a godwyd fel nad oes effaith ar lefel y Dreth Gyngor. Ymysg enghreifftiau o wariant REFCUS mae grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl, grantiau i fusnesau a chynlluniau gwella eiddo preifat.

22. **TAW**

Mae'r TAW sy'n daladwy yn cael ei gynnwys fel traul ond i'r graddau nad oes modd ei hawlio oddi ar Gyllid a Thollau EM yn unig. Mae'r TAW derbyniadwy yn cael ei eithrio o incwm.

23. **FFIGYRAU CYMHAROL**

Ble bo'n briodol, dangosir y ffigyrau cymharol mewn datganiadau ariannol, yn unol â'r Cod.

24. **DATGANIAD LLIF ARIAN**

Mae'r Datganiad Llif Arian a nodiadau ategol wedi'u paratoi gan ddefnyddio'r dull anuniongyrchol.

25. **ASEDAU TREFTADAETH**

Mae ased treftadaeth ddiriaethol yn ased diriaethol sydd â nodweddion hanesyddol, artistig, gwyddonol, technolegol, geoffisegol neu amgylcheddol, sy'n cael ei dal a'i chynnal yn bennaf er mwyn ei chyfraniad at wybodaeth a diwylliant.

Mae ased treftadaeth anniriaethol yn ased anniriaethol sydd ag arwyddocâd diwylliannol, amgylcheddol neu hanesyddol. Mae enghreifftiau o asedau treftadaeth anniriaethol yn cynnwys recordiad o ddiwyddiadau hanesyddol o bwys.

Fel arfer bydd asedau treftadaeth (heblaw am asedau treftadaeth gweithredol) yn cael eu mesur adeg eu prisiad. Gellir prisio yn ôl unrhyw ddull sy'n briodol a pherthnasol. Nid oes gofynion i brisio gael ei gynnal na'i wirio gan briswyr allanol, na chwaith isafswm cyfnod rhwng prisiadau. Fodd bynnag, pan fo asedau treftadaeth yn cael eu mesur ar eu prisiad, bydd y swm sy'n cario'n cael ei adolygu yn ddigon aml i sicrhau fod y prisiad yn parhau'n gyfredol.

Ble nad yw'n ymarferol cael prisiad ar gost sy'n gymesur â'r buddiannau i ddefnyddwyr datganiadau ariannol, bydd yr asedau treftadaeth yn cael eu mesur ar

gost hanesyddol (llai unrhyw golledion dibrisiant, amorteiddiad ac amhariad cronnus).

26. CYFRIF COSTAU'R CYNLLUN YMRWYMIAD LLEIHOU CARBON

Mae gofyn ar i'r Awdurdod gymryd rhan yn y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Ymrwymiad i Leihau Carbon. Mae'r cynllun hwn ar hyn o bryd yn ei ail gam a ddechreuodd ar 1 Ebrill 2014. Mae gofyn i'r Awdurdod brynu ac ildio lwfansau, a wnaed yn y gwerthiant a ragwelwyd yn 2017/18, ar sail allyriadau h.y. y carbon deuocsid a gynhyrchir tra defnyddir ynni. Tra allyrrir carbon deuocsid (h.y. tra defnyddir ynni), mae dyled a gwariant yn cael eu cydnabod. Bydd y ddyled yn cael ei gollwng trwy ildio lwfansau. Caiff y ddyled ei mesur ar yr amcangyfrif gorau o'r gwariant y bydd ei angen i gwrdd â'r rhwymedigaeth, fel arfer ar werth cyfredol y farchnad gogyfer â nifer y lwfansau y mae eu hangen i gwrdd â'r ddyled ar y diwrnod adrodd. Caiff y costau i'r Awdurdod eu cydnabod a'u hadrodd yng nghostau gwasanaethau'r awdurdod a chânt eu dosrannu rhwng y gwasanaethau ar sail eu defnydd o ynni.

27. ISAFSWM DARPARIAETH REFENIW (IDR)

Mae'r Cyngor wedi diwygio ei bolisi IDR yn 2016/17 mewn perthynas â benthyca â chymorth a Chynllun Ariannu Preifat. Ar gyfer benthyca â chymorth cafodd y polisi ei newid i gyfrifo Isafswm Darpariaeth Refeniw yn seiliedig ar 50 mlynedd ar gyfer dyled Cronfa'r Cyngor ar wariant cyfalaf a gafwyd cyn 1 Ebrill 2016, ac yn seiliedig ar fywyd defnyddiol a ddisgwyllir ar gyfer gwariant cyfalaf a gafwyd ar ôl 1 Ebrill 2016. Ar gyfer Cynllun Ariannu Preifat (PFI) cafodd y polisi Isafswm Darpariaeth Refeniw (IDR) ei ddiwygio i gyfrifo IDR yn seiliedig ar fywyd defnyddiol a ddisgwyllir yn 2016/17.

Yn 2017/18 cafodd y polisi IDR ei ddiwygio mewn cysylltiad â phrydlesi cyllid i gyfrifo IDR yn seiliedig ar fywyd ased.

Datganiadau Craidd

Dadansoddiad o'r Gwariant a'r Cyllid

Nod y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid yw dangos i dalwyr treth y Cyngor sut y defnyddiwyd y cyllid a oedd ar gael i'r Cyngor (h.y. grantiau llywodraeth a threth y Cyngor) eleni i ddarparu gwasanaethau o gymharu â'r adnoddau a ddefnyddiwyd neu a enillwyd yn unol ag arferion cyfrifo a dderbynnir yn gyffredinol. Mae'r Dadansoddiad Cyllid a Gwariant hefyd yn dangos sut y dyrennir y gwariant at ddibenion gwneud penderfyniadau rhwng gwasanaethau'r Cyngor. Mae incwm a gwariant a gyfrifir o dan arferion cyfrifo cyffredinol yn cael eu cyflwyno'n llawn yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

2017/18	Fel yr adroddwyd ar gyfer rheoli adnoddau £'000	Addasiadau i'w gwneud ar y swm net sy'n daladwy i Gronfa'r Cyngor £'000	Gwariant net sy'n daladwy i falans Cronfa'r Cyngor £'000	Addasiadau rhwng y sail chyfrifeg a'r sail ariannu (Gweler Nodyn 7) £'000	Gwariant net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr £'000
Addysg	78,870	(671)	78,199	9,245	87,444
Gwasanaethau Cymdeithasol	57,255	(34)	57,221	3,409	60,630
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	18,961	(101)	18,860	9,127	27,987
Gwasanaethau Datblygu Cymunedol	7,208	(214)	6,994	3,196	10,190
Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai	4,543	41	4,584	1,732	6,316
Gwasanaethau Ariannol Corfforaethol	1,140	39	1,179	1,071	2,250
Archwilio a Chaffael	585	(31)	554	73	627
Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau	10,688	(9)	10,679	(9,158)	1,521
Y Gyfraith a Llywodraethu	1,702	(39)	1,663	327	1,990
Technoleg Gwybodaeth	2,080	211	2,291	706	2,997
Adran y Prif Weithredwr	1,534	191	1,725	175	1,900
Theatrau	1,103	(19)	1,084	1,015	2,099
Adnoddau Dynol Corfforaethol	837	(38)	799	111	910
Costau ac Incwm Corfforaethol	3,178	1,732	4,910	(2,745)	2,165
Cost Net Gwasanaeth	189,684	1,058	190,742	18,284	209,026
Incwm a Gwariant Arall	(191,184)	(708)	(191,892)	9,721	(182,171)
(Arian dros Ben) neu Ddiffyg	(1,500)	350	(1,150)	28,005	26,855

Balans agoriadol y Gronfa Gyffredinol ar 31 Mawrth 2017	(24,754)
Llai Diffyg ar Falans y Gronfa Gyffredinol yn y flwyddyn	(1,150)
Llai o Symudiadau Eraill, heb eu cynnwys uchod, yn ymwneud â Chronfeydd Cyfalaf wrth Gefn, Cronfeydd Derbyniadau Cyfalaf wrth Gefn a Grantiau Cyfalaf heb eu Defnyddio (gweler Nodyn 7 am ddadansoddiad).	3,156
Balans terfynol y Gronfa Gyffredinol ar 31 Mawrth 2018	(22,748)

2016/17 Ail Nodwyd	Fel yr adroddwyd ar gyfer rheoli adnoddau £'000	Addasiadau i'w gwneud ar y swm net sy'n daladwy i Gronfa'r Cyngor £'000	Gwariant net sy'n daladwy i falans Cronfa'r Cyngor £'000	Addasiadau rhwng y sail chyfrifeg a'r sail ariannu (Gweler Nodyn 7) £'000	Gwariant net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr £'000
Addysg	79,553	381	79,934	7,332	87,266
Gwasanaethau Cymdeithasol	56,357	(11)	56,346	1,175	57,521
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	18,065	378	18,443	7,114	25,557
Gwasanaethau Datblygu Cymunedol	7,465	344	7,809	2,359	10,168
Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai	4,521	(48)	4,473	705	5,178
Gwasanaethau Ariannol Corfforaethol	1,160	(57)	1,103	750	1,853
Archwilio a Chaffael	607	-	607	17	624
Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau	10,708	(43)	10,665	(9,444)	1,221
Y Gyfraith a Llywodraethu	1,578	(120)	1,458	41	1,499
Technoleg Gwybodaeth	2,164	(46)	2,118	426	2,544
Adran y Prif Weithredwr	1,618	74	1,692	42	1,734
Theatrau	1,139	13	1,152	656	1,808
Adnoddau Dynol Corfforaethol	834	(32)	802	27	829
Costau ac Incwm Corfforaethol	385	5,959	6,344	(3,340)	3,004
Cost Net Gwasanaeth	186,154	6,792	192,946	7,860	200,806
Incwm a Gwariant Arall	(188,497)	(811)	(189,308)	(348)	(189,656)
(Arian dros Ben) neu Ddiffyg	(2,343)	5,981	3,638	7,512	11,150

Balans agoriadol y Gronfa Gyffredinol ar 31 Mawrth 2016	(27,156)
Llai Diffyg ar Falans y Gronfa Gyffredinol yn y flwyddyn	3,638
Llai o Symudiadau Eraill, heb eu cynnwys uchod, yn ymwneud â Chronfeydd Cyfalaf wrth Gefn, Cronfeydd Derbyniadau Cyfalaf wrth Gefn a Grantiau Cyfalaf heb eu Defnyddio (gweler Nodyn 7 am ddadansoddiad).	(1,235)
Balans terfynol y Gronfa Gyffredinol ar 31 Mawrth 2017	(24,753)

Mae'r ffigurau cymharol ar gyfer 2016/17 wedi eu diwygio i adlewyrchu'r newid yn y modd y cyflwynir y cyfrifon (gweler Nodyn 53).

Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

2016/17 Ail Nodwyd		2017/18				
Gwariant Gros £'000	Incwm £'000	Gwariant Net £'000	Nodyn	Gwariant Gros £'000	Incwm £'000	Gwariant Net £'000
108,259	(20,992)	87,267		109,003	(21,559)	87,444
76,822	(19,301)	57,521	Addysg	83,398	(22,768)	60,630
36,131	(10,574)	25,557	Gwasanaethau Cymdeithasol	39,534	(11,547)	27,987
20,060	(9,892)	10,168	Yr Amgylchedd, Ffydd a Chyfleusterau	20,098	(9,908)	10,190
14,499	(9,321)	5,178	Gwasanaethau Datblygu Cymunedol	12,839	(6,523)	6,316
2,614	(761)	1,853	Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai	3,030	(780)	2,250
690	(66)	624	Gwasanaethau Ariannol Corfforaethol Services	651	(24)	627
39,572	(38,350)	1,222	Archwilio a Chaffael	39,191	(37,670)	1,521
2,583	(1,084)	1,499	Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau	3,066	(1,076)	1,990
3,004	(460)	2,544	Y Gyfraith a Llywodraethu	3,147	(150)	2,997
1,949	(215)	1,734	Technoleg Gwybodaeth	2,108	(208)	1,900
7,779	(5,972)	1,807	Adran y Prif Weithredwr	8,816	(6,717)	2,099
878	(49)	829	Theatrau a'r Ganolfan Gynadledda	952	(42)	910
5,622	(2,619)	3,003	Adnoddau Dynol Corfforaethol	6,256	(4,091)	2,165
			Costau ac Incwm Corfforaethol			
320,462	(119,656)	200,806		332,089	(123,063)	209,026
			Cost Gwasanaethau			
17,798		17,798	Gwariant Gweithredol Arall	20,138		20,138
28,114	(15,548)	12,566	Incwm a Gwariant Buddsoddi ac Ariannu	30,700	(14,404)	16,296
	(220,020)	(220,020)	Trethiant Lleol ac Incwm Grant Amhenodol		(218,605)	(218,605)
		11,150	(Arian dros Ben) neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau			26,855
		230	(Arian dros ben) neu ddiffyg ar ailbriso eiddo, peiriannau ac offer			1,277
		(96)	(Arian dros ben) neu ddiffyg ar ailbriso asedau ariannol ar gael i'w gwerthu			(146)
		134				1,131
		22,567	Ail-fesur rhwymedigaeth budd-dal net a ddiffiniwyd			(17,676)
		22,701	Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall			(16,545)
		33,851	Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr			10,310

Mae athrawon a gyflogir gan y Cyngor yn aelodau o Gynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan yr Adran Addysg. Mae'r cynllun yn rhoi buddiannau penodol i athrawon ar eu hymddeoliad, ac mae'r Awdurdod yn cyfrannu tuag at y gost drwy dalu cyfraniadau sy'n seiliedig ar dâl pensiynadwy aelodau. Yn dechnegol, cynllun buddiannau diffiniedig yw'r cynllun. Fodd bynnag, mae'r cynllun heb ei ariannu ac mae'r Adran Addysg yn defnyddio cronfa ddamcaniaethol er mwyn cyfrifo cyfradd cyfraniad cyflogwyr i'w thalu gan awdurdodau lleol. Nid yw'r Awdurdod yn gallu adnabod ei ran o'r sefyllfa ariannol waelodol a pherfformiad y cynllun gyda digon o ddibynadwyedd at ddibenion cyfrifo. At ddiben y Datganiad Cyfrifon, maent felly yn cael eu cyfrifo ar yr un sail â chynllun cyfraniadau diffiniedig. Yn 2017/18, talodd y Cyngor gyfraniad cyflogwr, gan eithrio'r ysgolion sefydledig, o £4.842m o Bensiwn Athrawon a oedd yn cynrychioli 16.48% o dâl pensiynadwy. Roedd y ffigyrau am 2016/17 yn £4.835m a 16.48%. Nid oedd unrhyw gyfraniadau'n daladwy ar ddiwedd y flwyddyn (31 Mawrth 2017 – Dim).

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gostau unrhyw fuddiannau ychwanegol a ddyfernir ar ymddeoliad cynnar tu allan i delerau'r cynllun athrawon. Cyfrifir am y costau hyn ar sail buddiannau diffiniedig.

44. Cynlluniau Pensiwn Buddiannau Diffiniedig

Cyfranogiad mewn Cynlluniau Pensiwn

Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion, mae'r Awdurdod yn gwneud cyfraniadau tuag at gost buddiannau ôl gyflogaeth. Er na fydd y buddiannau hyn yn daladwy hyd nes bo'r gweithwyr yn ymddeol, mae gan yr Awdurdod ymrwymiad i wneud y taliadau sydd angen eu datgelu ar yr adeg mae gweithwyr yn ennill eu hawl i'r dyfodol.

Mae'r Awdurdod yn cymryd rhan mewn dau gynllun ôl gyflogaeth:

- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r Awdurdod yn cyfranogi mewn cynlluniau a weinyddir yn lleol gan Gyngor Gwynedd a Chyngor Sir y Fflint – mae'r rhain yn gynlluniau buddiant diffiniedig cyflog terfynol a ariennir, sy'n golygu fod yr Awdurdod a gweithwyr yn talu cyfraniadau i gronfa, a gyfrifir ar lefel y bwriedir iddi gydbwysu'r rhwymedigaethau pensiwn gydag asedau buddsoddi.
- Trefniadau ar gyfer dyfarnu buddiannau ar ôl ymddeol wrth ymddeol yn gynnar - mae hwn yn drefniant buddiant diffiniedig heb ei gyllido, y cydnabyddir rhwymedigaethau iddo pan fo'r dyfarniadau wedi eu gwneud. Fodd bynnag, ni adeiladwyd unrhyw asedau buddsoddi i gwrdd â'r rhwymedigaethau pensiynau hyn, a rhaid cynhyrchu arian i gwrdd â'r taliadau pensiwn gwirioneddol fel y dônt yn ddyledus.
- Cyfradd cyfraniadau'r cyflogwr ar gyfer cynllun Gwynedd yn 2017/18 oedd 19.1% ynghyd â swm pensiynau penodedig o £1.306m, wedi tynnu disgownt am flaendalu (2016/17 19.1% + swm pensiynau penodedig o £1.306m). Y gyfradd fydd 19.1% a swm pensiynau sefydlog o £1.306m wedi tynnu disgownt am flaendalu yn 2018/19. Y cyfanswm a dalwyd i mewn i gynllun Gwynedd yn 2017/18 oedd £13.567m o gyfraniadau pensiwn safonol (£13.402m yn 2016/17).

Trafodion yn Gysylltiedig â Buddiannau Ôl Gyflogaeth

Cydnabyddir costau buddiannau ymddeol yn y gost gwasanaethau sy'n destun adroddiad pan y cânt eu hennill gan weithwyr, yn hytrach na phan fo'r fath fuddiannau yn cael eu talu yn y pen draw fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r tâl y mae gofyn i ni ei godi yn erbyn y Dreth Gyngor wedi ei seilio ar yr arian sy'n daladwy yn y flwyddyn, felly mae cost gwirioneddol ôl gyflogaeth /buddiannau ymddeol yn cael ei gwyrddroi allan o Gronfa'r Cyngor trwy'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Mae'r trafodion canlynol wedi'u gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans Cronfa'r Cyngor trwy'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn yn ystod y flwyddyn.

Gofynion Datgelu IAS 19 ar gyfer 2017/18

Mae sawl newid wedi ei wneud mewn perthynas â safon gyfrifo ryngwladol Buddiannau Cyflogaeth IAS 19, sy'n golygu bod y datganiad cyfrifon a'r polisi cyfrifo wedi newid. Mae'r newid hwn wedi cyflwyno dosbarthiadau newydd o elfennau cost buddiannau diffiniedig i'w cydnabod yn y datganiadau ariannol (h.y. llog net ar y dyledion buddiannau diffiniedig (ased) ac ail-fesuriadau'r ddyled buddiannau diffiniedig net (ased)), a, lle mae effaith materol, meini prawf diffinio neu gydnabod newydd ar gyfer costau gwasanaeth (e.e. costau gwasanaethau blaenorol) a meini prawf cydnabod newydd ar gyfer buddiannau terfynu cyflogaeth.

Mae'r ailddatganiadau angenrheidiol wedi eu hadlewyrchu yn y nodiadau sy'n dilyn. Trafodion yn ymwneud a buddion Ymdeol a gydnabyddir yn y Cyfrifon:

	Wedi'u Hariannu		Heb eu Hariannu	
	2017/18	2016/17	2017/18	2016/17
	£'000	£'000	£'000	£'000
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr				
Cost net y Gwasanaethau:				
▪ Cost gwasanaeth cyfredol	25,166	15,642	-	-
▪ Cost gwasanaeth y gorffennol	356	294	8	7
▪ Taliadau Llawn	-	-	-	-
Incwm a Gwariant Buddsoddi ac Ariannu				
▪ Llog net	3,948	4,217	529	684
Cyfanswm buddion diffiniedig a godwyd ar ddarparu gwasanaethau	29,470	20,153	537	691
Costau pensiwn eraill a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr				
▪ Adenillion ar asedau (heb gynnwys llog)	(3,992)	(71,782)		
▪ Ailfesuriadau ar rwymedigaethau	(13,478)	92,884	(206)	1,464
Costau pensiwn a godwyd ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	12,000	41,255	331	2,155
Datganiad ynglŷn â'r Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn				
▪ Dileu ffioedd yn unol â'r Cod	29,470	20,153	537	691
Symiau gwirioneddol a godwyd ar y Gronfa Gyffredinol yn ystod y flwyddyn:				
▪ Cyfraniadau cyflogwr	17,029	14,373		
▪ Tynnu'r addasiad rhagdaliad	(2,544)	-	-	-
	14,485	14,373		
▪ Taliadau dewisol			1,382	1,416

Gwnaed rhagdaliad am 3 blynedd o'r cyfandaliad a oedd yn ddyledus gan y cyflogwr ar gyfer Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn 2017/18. Cyfanswm y taliad ar gyfer 2018/19 ac ar gyfer 2019/20 oedd £2.544 miliwn a chynrychiolir hyn yn y cyfrifon fel taliad ymlaen llaw. I osgoi dyblygu'r trosglwyddiad hwn, tynnwyd hyn hefyd o'r asedau yn ffigyrau IAS19.

Mae'r swm a gynhwyswyd yn y Fantolen yn codi o rwymedigaeth yr Awdurdod mewn perthynas â'i gynlluniau buddion wedi'u diffinio fel a ganlyn:

	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol		Buddion yn ôl Disgresiwn	
	2017/18	2016/17	2017/18	2016/17
	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwerth presennol rhwymedigaeth buddion diffiniedig	(658,878)	(640,395)	(19,642)	(20,693)
Gwerth teg yr asedau	513,577	491,447	-	-
Tynnu'r addasiad rhagdaliad Is-gyfanswm	(147,845)	(148,948)	(19,642)	(20,693)
Symudiadau eraill mewn rhwymedigaethau/asedau	-	-	-	-
Rhwymedigaeth net	(147,845)	(148,948)	(19,642)	(20,693)

Asedau a Rhwymedigaethau yng Nghyswllt Buddiannau Ôl Gyflogaeth

Cysoniad o werth presennol rhwymedigaethau'r cynllun (rhwymedigaeth buddiant diffiniedig):

Rhwymedigaethau	Rhwymedigaethau a Ariennir: Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol		Rhwymedigaethau heb eu Hariannu: Buddiannau Disgresiwn	
	31 Mawrth 2018 £'000	31 Mawrth 2017 £'000	31 Mawrth 2018 £'000	31 Mawrth 2017 £'000
Balans agoriadol	640,395	523,986	20,693	19,954
Cost bresennol gwasanaeth	25,166	15,642	-	-
Cost llog	16,820	18,404	529	684
Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun	3,843	3,804	-	-
Ailfesuriadau	(13,478)	92,884	(206)	1,464
Buddiannau a dalwyd	(14,224)	(14,619)	(1,382)	(1,416)
Costau/(credyd) gwasanaethau blaenorol	356	294	8	7
Balans Cau	658,878	640,395	19,642	20,693

Penderfynir ar yr enillion a ddisgwylir ar asedau'r cynllun drwy ystyried yr enillion a ddisgwylir eu cael ar yr asedau sy'n tanlinellu'r polisi buddsoddi cyfredol. Mae'r cynnyrch a ddisgwylir ar y buddsoddiadau llog sefydlog yn seiliedig ar gynnyrch adbrynant gros fel ar ddyddiad y Fantolen.

Asedau	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	
	31 Mawrth 2018 £'000	31 Mawrth 2017 £'000
Balans agoriadol ar 1 Ebrill	491,447	403,335
Ailfesuriadau	3,992	71,782
Llog Asedau	12,872	14,187
Cyfraniadau'r cyflogwr	13,103	12,958
Cyfraniadau gan gyfranogwyr y cynllun	3,843	3,804
Buddiannau a dalwyd	(14,224)	(14,619)
Buddiannau heb eu Hariannu a dalwyd	(1,382)	(1,416)
Cyfraniadau Buddiannau heb eu Hariannu	1,382	1,416
Balans Cau	511,033	491,447

Asedau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Categori Ased	2017-18				2016-17			
	Prisiau a Ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithgar	Prisiau na Ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithgar	Cyfanswm	%	Prisiau a Ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithgar	Prisiau na Ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithgar	Cyfanswm	%
	£'000	£'000	£'000		£'000	£'000	£'000	
Gwarantau Ecwiti								
Prynwyr	15,298		15,298	3.0	16,895	-	16,895	3.4
Gweithgynhyrchu	16,898		16,898	3.3	15,258		15,258	
Ynni a Chyfleustodau	1,613		1,613	0.3	2,745	-	2,745	0.6
Sefydliadau Ariannol	9,111		9,111	1.8	9,450	-	9,450	1.9
Iechyd a Gofal	26,155		26,155	5.1	24,320	-	24,320	4.9
Technoleg Gwybodaeth	19,581		19,581	3.8	19,812	-	19,812	4.0
Arall	1,776		1,776	0.3	1,350		1,350	0.3
Gwarannau Dyled								
Arall		74,874	74,874	14.5		61,555	61,555	
Ecwiti Preifat								
Pob Un		20,029	20,029	3.9	-	22,259	22,259	4.5
Eiddo tiriog								
Eiddo yn y DU	12,033	27,269	39,302	7.6	10,826	26,905	37,731	7.7
Eiddo Tramor		474	474	0.1	-	1,000	1,000	0.2
Cronfeydd Buddsoddi ac Ymddiriedolaethau Uned								
Ecwitiau	104,569	156,987	261,556	50.8	105,318	149,903	255,221	51.8
Bondiau			-		-		-	
Isadeiledd		8,997	8,997	1.7	-	6,607	6,607	1.3
Gwarannau Dyled								
Arall			-	-	-		-	0.0
Arian Parod a Chyferwerth Arian								
Pob Un	19,397		19,397	3.8	18,537	-	18,537	3.8
Cyfanswm	226,431	288,630	515,061	100.0	224,511	268,229	492,740	84.4

Mae manylion ynglŷn â newidiadau rheolau Cynllun Pensiwn y Llywodraeth Leol, gan gynnwys y newid o fudd-daliadau cyflog terfynol i fudd-daliadau gyrfa cyfartalog wedi eu hailbrisio o 1 Ebrill 2017 ymlaen, ar gael ar y ddolen ganlynol:

<https://www.lqpsregs.org/>

Sail ar Gyfer Amcangyfrif Asedau a Rhwymedigaethau

Aseswyd rhwymedigaethau ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull credyd uned rhagamcanedig, amcangyfrif o'r pensiynau a fydd yn daladwy mewn blynyddoedd i ddod gan ddibynnu ar ragdybiaethau ynghylch graddfeydd marwoldeb, lefelau cyflog, ayb. Mae rhwymedigaethau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Buddiannau Disgresiwn wedi eu hasesu gan Hymans Robertson, cwmni annibynnol o actwaryddion, gyda'r rhagamcanion i Gronfa'r Cyngor wedi ei seilio ar y gwerthusiad llawn olaf o'r cynllun ar 31 Mawrth 2018.

Y prif ragdybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwari oedd :

	Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol		Buddiannau Disgresiwn	
	31 Mawrth 2018	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2018	31 Mawrth 2017
Rhagdybiaethau Marwoldeb:				
Hirhoedledd yn 65 i bensiywyr presennol:				
• Dynion	22.0	22.0	22.0	22.0
• Merched	24.2	24.2	24.2	24.2
Hirhoedledd yn 65 i bensiywyr y dyfodol:				
• Dynion	24.0	24.0	24.0	24.0
• Merched	26.4	26.4	26.4	26.4
Graddfa chwyddiant	2.4%	2.4%	2.4%	2.4%
Graddfa cynnydd mewn cyflogau	2.4%	2.4%	2.4%	2.4%
Graddfa cynnydd mewn pensiynau	2.4%	2.4%	2.4%	2.4%
Graddfa ar gyfer disgowntio rhwymedigaethau'r cynllun	2.7%	2.6%	2.7%	2.6%
Defnyddio'r opsiwn i drosi pensiwn blynyddol i lwmp swm ymddeoliad	50%	50%	-	-

45. Rhwymedigaethau Dibynnol

Municipal Mutual Insurance (MMI)

Y farn actiwaraidd yw y gallai'r ardoll gynyddu o'r 25% a dalwyd hyd yn hyn. Er y gallai amlygiad credydwr cynllun olygu 100% yn y pendraw, mae'n debyg y bydd yr ardoll derfynol oddeutu 50%. Yn seiliedig ar ddyledion y cynllun presennol, pe gofynnir am ardoll bellach o 25%, yna byddai angen £675mil ychwanegol. Mae'r swm wedi'i nodi o fewn cronfeydd wrth gefn yswiriant. Nid yw, fodd bynnag, yn cynnwys hawliadau newydd a'r rhai sy'n dod i'r amlwg, nac ar gyfer ardoll derfynol sydd dros 50%.

Hawliadau Yswiriant

Ar rai achlysuron mae digwyddiad wedi bod, neu gallai digwyddiad fod wedi bod lle mae rheswm gennym i gredu y gellid derbyn hawliad yswiriant rywbryd yn y dyfodol. Nid oes modd meintioli gwerth posibl y digwyddiadau hyn oni bai, neu hyd nes, y gwneir hawliad.

46. Asedau Dibynnol

Does dim asedau dibynnol.

47. Trefniadau a Phwyllgorau ar y Cyd

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ymwneud â dau drefniant ar y cyd gydag Awdurdodau eraill gogledd Cymru.

Mae yna un Gydbwyllgor ffurfiol lle mae Cyngor Sir y Fflint yn paratoi cyfrifon ar wahân:

- i) Partneriaeth Trin Gwastraff Gweddillol Gogledd Cymru (gyda Sir y Fflint (Awdurdod arweiniol), Ynys Môn, Sir Ddinbych a Gwynedd). Cyfraniad Conwy a oedd yn ddyledus i'r Bartneriaeth yn 2017/18 oedd £22mil (£83mil 2016/17), ond nid yw wedi'i gynnwys yn y cyfrifon.

Ail Gydbwyllgor ffurfiol, y mae Cyngor Gwynedd yn paratoi set o gyfrifon ar wahân ar ei gyfer, yw GwE, gwasanaeth gwella ar gyfer ysgolion Gogledd Cymru. Cyfraniad Conwy at Gydbwyllgor GwE yn 2017/18 oedd £558mil (£551mil yn 2016/17).

Gallwch weld cyfrifon y Cydbwyllgorau hyn drwy ddilyn y ddolen ganlynol:

www.nwrwtp.org

<https://www.gwynedd.gov.uk>

48. Natur a Maint y Risgiau a Ddaw o Offerynnau Ariannol

Mae gweithgareddau'r Awdurdod yn arwain at amryw o risgiau ariannol, a'r risgiau allweddol yw:

- Risg credyd – y posibilrwydd y bydd partion eraill yn methu â thalu'r symiau sy'n ddyledus i'r Awdurdod;
- Risg Hylifedd – y posibilrwydd na fydd cyllid ar gael gan yr Awdurdod i fodloni ei rhwymedigaethau i wneud taliadau;
- Risg Marchnad – y posibilrwydd y bydd colled ariannol i'r Awdurdod o ganlyniad i newidiadau mewn mesurau, fel newidiadau mewn cyfraddau llog;

Mae rhaglen rheoli risg cyffredinol yr Awdurdod yn canolbwyntio ar natur anrhagweladwy'r marchnadoedd ariannol, ac yn ceisio lleihau'r effeithiau andwyol potensial ar yr adnoddau sydd ar gael i ariannu gwasanaethau. Cynhelir rheolaeth risg gan dîm trysorlys canolog, dan bolisiau a gymeradwywyd gan y Cyngor yn y Strategaeth Rheolaeth Trysorlys Flynyddol. Mae gan y Cyngor egwyddorion ysgrifenedig ar gyfer rheoli risgiau cyffredinol, yn ogystal â pholisiau ysgrifenedig yn ymwneud â meysydd penodol, fel risg graddfa llog, risg credyd a buddsoddi arian dros ben.

Risg Credyd

Mae risg credyd yn deillio o arian a dalwyd i fanciau a sefydliadau ariannol, yn ogystal â thrafodion credyd i gwsmeriaid y Cyngor.

Lleihawyd y risg trwy'r Strategaeth Buddsoddi Blynnyddol, sy'n mynnu nad yw arian yn cael ei fuddsoddi mewn sefydliadau ariannol oni bai eu bod yn ateb naill ai lleiafswm meini prawf credyd a nodwyd, yn unol â *Fitch, Moody's and Standard & Poor's Ratings Services*. Mae'r Strategaeth Buddsoddi Blynnyddol, hefyd yn gosod uchafswm i fuddsoddi gyda sefydliad ariannol ym mhob categori.

Mae'r meini prawf credyd yng nghyswllt asedau ariannol sy'n cael eu dal gan yr awdurdod fel a ganlyn:

Bydd y Cyfarwyddwr Strategol - Cyllid ac Effeithlonrwydd yn cadw rhestr cyd-barti sy'n cydymffurfio a'r meini prawf canlynol ac yn adolygu'r meini prawf a'u cyflwyno i'r Cyngor i'w cymeradwyo yn ôl yr angen. Mae'r meini prawf hyn ar wahân i'r rheini sy'n pennu buddsoddiadau Penodol ac Amhenodol, gan eu bod yn dethol y gwrth bartion hynny a ddewisir gan y Cyngor yn hytrach na diffinio beth yw ei fuddsoddiadau.

1. Swyddfa Rheoli Dyledion y Trysorlys – diderfyn
2. Awdurdodau Lleol (heblaw â threthi wedi'u capio) – terfyn £5m
3. Bob banc DU ac Iwerddon a'u his-gwmnïau sydd â graddau da (Fitch neu gyfatebol). Ar hyn o bryd caiff y rhain eu diffinio fel: Tymor Hir BBB.

Terfyn - £5m

Defnyddir banciau y mae eu graddau wedi gostwng islaw'r rheini yn 3 uchod os yw'r adneuo cyfanwerth yn cael eu sicrhau gan warant llywodraeth, a bod yr adneuo yn dod o fewn telerau'r warant.

4. Cymdeithasau adeiladu

- Cymdeithasau adeiladu gyda gradd (fel y sector bancio) i gyd gyda therfyn benthyca o £3m.
- Yr holl gymdeithasau adeiladu heb radd ond gydag asedau o £1bn neu fwy gyda therfyn benthyca o £3m ac amser terfyn o 9 mis.
- All cymdeithasau adeiladu heb radd ond gyda asedau o £500m neu fwy gyda therfyn benthyca o £2m ac amser terfyn o 6 mis.

Ni ellir asesu pa mor agored yw'r Awdurdod i risg credyd o £5m yng nghyswllt ei fuddsoddiadau mewn banciau a chymdeithasau adeiladu yn gyffredinol gan y bydd y risg bod unrhyw sefydliad yn methu â gwneud taliadau llog neu ad-dalu prifswm yn benodol i bob sefydliad unigol. Dangosodd profiad diweddar mai peth prin iawn yw i'r fath endidau fethu â chwrdd â'u hymrwymadau. Mae risg anadferadwyedd yn berthnasol i holl adneuoyn yr Awdurdod, ond nid oedd tystiolaeth ar 31 Mawrth 2018 fod hyn yn debygol o ddigwydd.

Mae'r crynodeb canlynol yn crynhoi pa mor agored yw'r Awdurdod i risg credyd potensial ar asedau ariannol eraill, wedi ei seilio ar y profiad o ddiffygdalu a methiant i gasglu dros y pum mlynedd ariannol ddiwethaf, wedi ei addasu i adlewyrchu amodau presennol y farchnad.

	Swm ar 31 Mawrth 2018	Profiad Hanesyddol o Ddiffygdalu	Profiad Hanesyddol wedi ei Addasu ar gyfer Amodau'r Farchnad ar 31 Mawrth 2018	Uchafswm Amcangyfrif Datguddiad i Ddiffygdalu & Methiant i Gasglu ar 31 Mawrth 2018	Uchafswm Amcangyfrif Datguddiad ar 31 Mawrth 2018
	£'000	%	%	£'000	£'000
Cwsmeriaid	9,267	0	0	0	0

Nid yw'r Awdurdod yn caniatáu credyd i gwsmeriaid. Gellir dadansoddi'r swm dyledus ond heb amhariad yn ôl oed fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2018 £000	31 Mawrth 2017 £000
Llai na thri mis	6,155	6,552
Tri i chwe mis	245	220
Chwe mis i flwyddyn	728	750
Dros flwyddyn	2,139	2,863
Cyfanswm	9,267	10,385

Mae'r holl daladwyon masnach ac eraill yn ddyledus i'w talu mewn llai na blwyddyn.

Risg Hylifedd

Mae gan yr Awdurdod system rheoli llif arian cynhwysfawr sy'n ceisio sicrhau fod arian parod ar gael fel bo angen. Os oes symudiadau annisgwyl yn digwydd, mae gan y Cyngor fynediad parod at fenthyciadau o'r marchnadoedd arian a'r Bwrdd Benthyciad Gwaith Cyhoeddus (PWLB). Nid oes risg sylweddol y bydd yn methu â chodi arian i gwrdd â'i ymrwymadau dan yr offerynnau ariannol. Yn hytrach, y risg yw y bydd yr Awdurdod yn rhwym o ailgyflenwi cyfran sylweddol o'i fenthyciadau ar amser o raddfeydd llog anffafriol. Mae'r Awdurdod yn gosod cyfyngiadau ar y gyfran o fenthycia graddfa sefydlog yn ystod cyfnodau penodol. Mae'r Cyngor yn rheoli ei bortffolio trwy ail-amserlennu dyledion pan fo'n economaidd gwneud hynny. Mae dadansoddiad aeddfedu'r PWLB a benthyciadau farchnad fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2018 £'000	31 Mawrth 2017 £'000
Llai na blwyddyn	57,338	40,828
1 – 2 flynedd	349	338
2 – 5 mlynedd	1,114	1,080
5 – 10 mlynedd	6,199	5,726
10 – 25 mlynedd	5,560	6,415
Dros 25 mlynedd	100,655	90,656
Cyfanswm	171,215	145,043

Nid yw'r dadansoddiad uchod yn cynnwys benthyciadau Buddsoddi i Arbed.

Risg Marchnad

Risg Cyfradd Llog

Mae'r Awdurdod yn agored i risg pan fo'n wynebu symudiadau yn y cyfraddau llog ar ei fenthyciadau a buddsoddiadau. Mae unrhyw symudiad yn y cyfraddau llog yn cael effaith gymhleth. Er enghraifft, byddai cynnydd yn y cyfraddau llog yn cael yr effaith a ganlyn:

- benthyc ar gyfraddau amrywiol – bydd y llog a godir ar yr Arian dros Ben neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn cynyddu
- benthyc ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg y benthyciad yn syrthio;
- buddsoddiadau ar gyfraddau amrywiol – bydd yr incwm llog sy'n cael ei dalu i'r Arian dros Ben neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn cynyddu
- buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gwerth teg yr asedau yn syrthio.

Nid yw benthyciadau'n cael eu cario ar werth teg, felly ni fyddai enillion a cholledion nominal ar fenthyciadau graddfa sefydlog yn effeithio ar yr Arian dros Ben neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau neu Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall. Fodd bynnag, bydd newidiadau yn y llog sy'n daladwy neu'n dderbyniadwy ar fenthyciadau a buddsoddiadau graddfa amrywiol yn cael eu postio i'r Arian dros Ben neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau ac yn effeithio ar Falans Cronfa'r Cyngor. Bydd symudiadau yng ngwerth teg buddsoddiadau graddfa sefydlog sydd â phris marchnad cyfyngedig yn cael ei adlewyrchu yn yr Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall.

Mae gan yr Awdurdod nifer o strategaethau i reoli risg cyfraddau llog. Gallai'r Cyngor gadw mwyafswm o 30% o'i fenthyciadau mewn benthyciadau graddfa amrywiol. Yn ystod cyfnodau o raddfeydd llog yn syrthio, a phan fo amgylchiadau economaidd yn ei gwneud yn ffafriol, bydd benthyciadau graddfa sefydlog yn cael eu had-dalu'n gynnar er mwyn gosod terfyn ar golledion.

Nid oes gan y Cyngor ar hyn o bryd unrhyw fenthyciad tymor hir, ac eithrio mewn perthynas â chynlluniau Cymhelliant Twf Busnes Lleol (LGBI), ac mae wedi ad-dalu benthyciadau yn defnyddio buddsoddiadau er mwyn lleihau ei amlygiad a chostau llog. Mae'r risg o golled yn cael ei lliniaru gan y ffaith fod cyfran o'r grant llywodraeth sy'n daladwy ar gostau cyllido fel rheol yn symud gyda'r graddfeydd llog cyffredinol neu gost benthyciadau'r Awdurdod ac yn darparu iawndal am gyfran o unrhyw gostau uwch.

Mae gan dîm rheoli'r trysorlys strategaeth weithredol ar gyfer asesu pa mor agored yw'r awdurdod i raddfeydd llog, sy'n bwydo i mewn i osod y gyllideb flynyddol ac a ddefnyddir i ddiweddarau'r gyllideb yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn caniatáu cynnwys unrhyw newidiadau andwyol. Bydd y dadansoddiad hefyd yn cynghori p'un a yw benthyciadau newydd a gymerir yn sefydlog neu'n amrywiol. Yn ôl y strategaeth asesu hun, ar 31 Mawrth 2018, petai graddfeydd llog wedi bod 1% yn uwch a'r holl newidynnau eraill yn cael eu dal yn gyson, byddai'r effaith ariannol fel y gwelir yn y tabl canlynol:

	£'000
Cynnydd ar y llog a geir ar fuddsoddiadau cyfradd amrywiol	(122)
Effaith ar arian dros ben neu ddiffyg ariannol wrth ddarparu gwasanaethau	(122)
Lleihad mewn Gwerth Teg am asedau buddsoddiad cyfradd penodol	-
Effaith ar Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall	-
Lleihad mewn Gwerth Teg atebolrwydd benthyciadau cyfradd penodol (dim effaith ar yr arian dros ben neu ddiffyg ariannol wrth ddarparu gwasanaethau neu Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall)	(35,108)

Byddai effaith gostyngiad o 1% mewn graddfeydd llog fel uchod ond gyda'r symudiadau wedi'u gwyrddroi.

Risg Pris

Nid yw'r Cyngor yn buddsoddi mewn cyfranddaliadau ecwiti neu fondiau y gellir eu marchnata felly nid oes risg y bydd buddsoddiadau yn colli gwerth oherwydd cwymp ym mhrisiau'r farchnad stoc.

Risg Cyfnewidfa Dramor

Mae gan yr Awdurdod asedau ariannol minimal ond dim rhwymedigaeth mewn arian tramor, ac felly, dim ond perygl minimal o golli arian oherwydd newidiadau mewn cyfraddau newid arian tramor.

49. Cronfeydd Ymddiriedolaeth

1. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn gweinyddu 24 o Gronfeydd Ymddiriedolaeth Addysg. Nid asedau'r Cyngor yw'r cronfeydd hyn ac felly, nid ydynt wedi eu cynnwys yn y Fantolen.

Mae'r Cronfeydd Ymddiriedolaeth Addysg yn gweithredu ar gyfer amrywiaeth o achosion o gronfeydd gwobrau ysgol i gynnal a chadw manau chwarae i blant. Mae pob un yn cynnwys swm gweddol fechan o arian a geir yn bennaf gan unigolion ac yn cael ei fuddsoddi er mwyn darparu incwm blynyddol.

Roedd balansau'r Gronfa ar 31 Mawrth 2018 yn £114,623 a'r incwm am y flwyddyn oedd £4,529. (Roedd balansau'r Gronfa ar 31 Mawrth 2017 yn £118,989 a'r incwm am y flwyddyn 2016/17 oedd £4,941).

2. Ar ben hynny, mae'r Cyngor yn gyfrifol am Gronfa'r Degwm. Mae'r cynllun hwn yn darparu incwm sydd i'w ddefnyddio i bwrpasau elusennol, addysgol, adloniadol a chymdeithasol yn ôl doethineb y Cyngor. Nid ased y Cyngor yw'r Gronfa ac felly ni chafodd ei chynnwys gyda'r Fantolen. Mae copi o gyfrif incwm a gwariant y Gronfa, a'i mantolen, i'w gweld ar dudalen 111.
3. Sefydlwyd Cronfa Ymddiriedolaeth newydd er lles disgyblion ysgol Llanrwst ar gyfer addysg ategol. Gellir cael manylion am gyfrif incwm a gwariant a thaflen falans Ymddiriedolaeth Addysg Llanrwst ar dudalen 115.
4. Mae nifer fechan o Gronfeydd Ymddiriedolaeth eraill sydd wedi eu derbyn. Balansau'r Gronfa ar 31 Mawrth 2018 oedd cyfanswm o £242,638 (Balansau'r Gronfa ar 31 Mawrth 2017 oedd £231,878).

50. Ymrwymiad i'r Dyfodol

Nid oes gan yr Awdurdod ymrwymïadau i'r dyfodol ar gyfer buddsoddiadau neu gontractau a gynlluniwyd.

51. Treth y Cyngor

Mae incwm Treth y Cyngor yn deillio o daliadau a godir yn ôl gwerth eiddo preswyl, sydd wedi eu dosbarthu'n deg o fandiau prasio, ar sail amcangyfrif o werth yr eiddo ar Ebrill 1af 2003, i'r pwrpas penodol hwn. Cyfrifi'r taliadau trwy gymryd swm yr incwm sydd ei angen ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru am y flwyddyn sydd i ddod, a rhannu'r swm â Sylfaen Treth y Cyngor. Sylfaen Treth y Cyngor yw cyfanswm yr eiddo ym mhob band, wedi ei gywiro trwy gyfran i newid y rhif yn ffigur gyfwerth â Band D, ac wedi ei gywiro ymhellach i gymryd gostyngiad i ystyriaeth.

Bwriwyd cyfrif o Sylfaen Treth y Cyngor am 2017/18 fel a ganlyn:

Band	Swm Cyfwerth y Cartrefi ar ôl y Gostyngiadau	Addasiad Band D	Cyfwerth â Band D
A*	10	5/9	5.56
A	4,161	6/9	2,773.83
B	6,916	7/9	5,378.72
C	13,110	8/9	11,653.56
D	10,341	1	10,340.50
E	8,173	11/9	9,989.22
F	4,524	13/9	6,535.03
G	1,745	15/9	2,907.50
H	389	18/9	777.00
I	129	21/9	301.00
			50,661.92
Treth y Cyngor ar ôl darparu ar gyfer colledion wrth ei gasglu			49,901.99

Mae'r swm a godwyd gan Dreth y Cyngor fel a ganlyn:

	2017/18	2016/17
	£'000	£'000
Treth y Cyngor a godwyd	70,898	67,590

52. Trethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR)

Mae'r Dreth Annomestig Genedlaethol yn cael ei phennu gan y Llywodraeth Cymru, ond yn cael ei chasglu'n lleol cyn ei thalu i mewn i gronfa ganolog a weinyddir gan Llywodraeth Cymru. Wedyn gwneir penderfyniad, ar sail poblogaeth, ynglŷn â faint i'w ailddosbarthu i awdurdodau lleol.

Ar gyfer 2017/18, y dreth a osodwyd gan y Llywodraeth oedd 0.499 ceiniog am bob £1 o werth trethiannol yr eiddo annomestig (2016/17: 0.486 ceiniog). Ar 31 Mawrth 2018 roedd 5,532 o eiddo ar y rhestr brisio leol yng Nghonwy, gyda gwerth trethiannol o £85,924,299 (2016/17: £78,727,161). Mae'r incwm net sy'n dod i'r Cyngor o'r Treth Annomestig Cenedlaethol fel a ganlyn:

	2017/18	2016/17
	£'000	£'000
Trethi Annomestig Cenedlaethol a godwyd	30,880	28,085
Llai: cost y Lwfans Casglu	(284)	(273)
Llai: y swm a dalwyd i'r Gronfa Genedlaethol	(30,596)	(27,812)
	-	-
Derbyniadau oddi wrth y Gronfa Genedlaethol	38,530	35,644
Incwm net o Drethi Annomestig Cenedlaethol	38,530	35,644

53. Addasiadau'r Cyfnod Blaenorol

Yn ystod 2017/18 daethpwyd i'r casgliad fod angen ailddatgan ffigyrau cymharol 2016/17 mewn perthynas â dau newid cyfrifyddu:

- a) Ni ddylid bellach trin Theatrau (Venue Cymru a Theatr Colwyn) fel Gweithrediadau Masnachol ac dylid eu trin yn hytrach fel gwasanaeth yn unol â Chost Net Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (y Datganiad Cynhwysfawr); a
- b) Dylai'r Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor, yn unol â newid yn y modd y dehonglir y ddeddfwriaeth, osod incwm Treth y Cyngor o fewn Trethiant Lleol ac Incwm Grantiau Amhenodol yn y Datganiad Cynhwysfawr yn hytrach na chael eu cynnwys fel gwariant o fewn Cost Net Gwasanaethau.

Yn sgil y newidiadau hyn, diwygiwyd ffigyrau cymharol 2016/17 ar gyfer y Datganiad Cynhwysfawr a'r Dadansoddiad Gwariant a Chyllid, ynghyd â'r nodiadau ar y datganiadau hyn (nodiadau 7, 8, 10 ac 11). Rhoddir manylion y diwygiadau ar y tudalennau a ganlyn.

[Nodyn: dim ond y llinellau hynny a ddiwygiwyd a ddangosir yma ac mae'r cyfansymiau yn aros fel y maent yn y datganiadau/ nodiadau llawn]

Dadansoddiad o'r Gwariant a'r Cyllid

2016/17 Fel yr Adroddwyd yn Wreiddiol	Fel yr adroddwyd ar gyfer rheoli adnoddau £'000	Addasiadau i'w gwneud ar y swm net sy'n daladwy i Gronfa'r Cyngor £'000	Gwariant net sy'n daladwy i falans Cronfa'r Cyngor £'000	Addasiadau rhwng y sail chyfrifeg a'r sail ariannu £'000	Gwariant net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr £'000
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	17,970	378	18,348	7,115	25,463
Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau	10,708	(43)	10,665	(221)	10,444
Cost Net Gwasanaeth	184,920	6,779	191,699	16,428	208,127
Incwm a Gwariant Arall	(187,263)	(798)	(188,061)	(8,916)	(196,977)
(Arian dros Ben) neu Ddiffyg	(2,343)	5,981	3,638	7,512	11,150

Ailddatganiad 2016/17	Fel yr adroddwyd ar gyfer rheoli adnoddau £'000	Addasiadau i'w gwneud ar y swm net sy'n daladwy i Gronfa'r Cyngor £'000	Gwariant net sy'n daladwy i falans Cronfa'r Cyngor £'000	Addasiadau rhwng y sail chyfrifeg a'r sail ariannu £'000	Gwariant net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr £'000
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	18,065	378	18,443	7,114	25,557
Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau	10,708	(43)	10,665	(9,444)	1,221
Theatrau	1,139	13	1,152	656	1,808
Cost Net Gwasanaeth	186,154	6,792	192,946	7,860	200,806
Incwm a Gwariant Arall	(188,497)	(811)	(189,308)	(348)	(189,656)
(Arian dros Ben) neu Ddiffyg	(2,343)	5,981	3,638	7,512	11,150

Swm yr Ailddatganiad	Fel yr adroddwyd ar gyfer rheoli adnoddau £'000	Addasiadau i'w gwneud ar y swm net sy'n daladwy i Gronfa'r Cyngor £'000	Gwariant net sy'n daladwy i falans Cronfa'r Cyngor £'000	Addasiadau rhwng y sail chyfrifeg a'r sail ariannu £'000	Gwariant net yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr £'000
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	95	0	95	(1)	94
Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau	0	0	0	(9,223)	(9,223)
Theatrau	1,139	13	1,152	656	1,808
Cost Net Gwasanaeth	1,234	13	1,247	(8,568)	(7,321)
Incwm a Gwariant Arall	(1,234)	(13)	(1,247)	8,568	7,321
(Arian dros Ben) neu Ddiffyg	0	0	0	0	0

Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

2016/17 Fel yr Adroddwyd yn Wreiddiol	Gwariant Gros	Incwm	Gwariant Net
	£'000	£'000	£'000
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	36,153	(10,690)	25,463
Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau	48,794	(38,350)	10,444
Cost Gwasanaethau	321,927	(113,800)	208,127
Incwm a Gwariant Buddsoddi ac Ariannu Trethiant Lleol ac Incwm Grant Amhenodol	35,872	(21,405) (229,242)	14,467 (229,242)
(Arian dros Ben) neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau			11,150
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr			33,851

Ailddatganiad 2016/17	Gwariant Gros	Incwm	Gwariant Net
	£'000	£'000	£'000
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	36,131	(10,574)	25,557
Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau	39,572	(38,350)	1,222
Theatrau	7,779	(5,972)	1,807
Cost Gwasanaethau	320,462	(119,656)	200,806
Incwm a Gwariant Buddsoddi ac Ariannu Trethiant Lleol ac Incwm Grant Amhenodol	28,114	(15,548) (220,020)	12,566 (220,020)
(Arian dros Ben) neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau			11,150
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr			33,851

Swm yr Ailddatganiad	Gwariant Gros	Incwm	Gwariant Net
	£'000	£'000	£'000
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	(22)	116	94
Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau	(9,222)	0	(9,222)
Theatrau	7,779	(5,972)	1,807
Cost Gwasanaethau	(1,465)	(5,856)	(7,321)
Incwm a Gwariant Buddsoddi ac Ariannu Trethiant Lleol ac Incwm Grant Amhenodol	(7,758)	5,857 9,222	(1,901) 9,222
(Arian dros Ben) neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau			0
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr			0

Nodyn i'r Dadansoddiad Gwariant a Chyllido (Nodyn 7)

2016/17 Fel yr Adroddwyd yn Wreiddiol				
Addasiadau o Gronfa'r Cyngor i gyrraedd y symiau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf £'000	Taliad Net am yr Addasiadau i Bensiynau £'000	Gwahaniaethau Eraill £'000	Cyfanswm yr addasiadau £'000
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	6,759	411	(55)	7,115
Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau	0	69	(290)	(221)
Cost Net y Gwasanaeth	15,857	1,481	(910)	16,428
Incwm a Gwariant Arall	(15,814)	4,989	1,909	(8,916)
(Arian Dros Ben) neu Ddiffyg	43	6,470	999	7,512

Ailddatganiad 2016/17				
Addasiadau o Gronfa'r Cyngor i gyrraedd y symiau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf £'000	Taliad Net am yr Addasiadau i Bensiynau £'000	Gwahaniaethau Eraill £'000	Cyfanswm yr addasiadau £'000
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	6,759	410	(55)	7,114
Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau	0	69	(9,513)	(9,444)
Theatrau	568	80	8	656
Cost Net y Gwasanaeth	16,425	1,560	(10,125)	7,860
Incwm a Gwariant Arall	(16,382)	4,911	11,123	(348)
(Arian Dros Ben) neu Ddiffyg	43	6,471	998	7,512

Swm yr Ailddatganiad				
Addasiadau o Gronfa'r Cyngor i gyrraedd y symiau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	Addasiadau at Ddibenion Cyfalaf £'000	Taliad Net am yr Addasiadau i Bensiynau £'000	Gwahaniaethau Eraill £'000	Cyfanswm yr addasiadau £'000
Yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau	0	(1)	0	(1)
Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau	0	0	(9,223)	(9,223)
Theatrau	568	80	8	656
Cost Net y Gwasanaeth	568	79	(9,215)	(8,568)
Incwm a Gwariant Arall	(568)	(78)	9,214	8,568
(Arian Dros Ben) neu Ddiffyg	0	1	(1)	0

Gwariant ac Incwm wedi'i Ddadansoddi yn ôl Natur (Nodyn 8)

	2016/17 Fel yr Adroddwyd yn Wreiddiol £'000	Ailddatganiad 2016/17 £'000	Swm yr Ailddatganiad £'000
Gwariant			
Costau gwasanaethau eraill	179,901	170,679	(9,222)
Cyfanswm Gwariant	366,329	357,107	(9,222)
Incwm			
Incwm o Dreth Cyngor a Threthi Annomestig	(103,233)	(94,011)	9,222
Cyfanswm Incwm	(355,179)	(345,957)	9,222
(Arian Dros Ben) neu Ddiffyg	11,150	11,150	0

Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi (Nodyn 10)

	2016/17 Fel yr Adroddwyd yn Wreiddiol £000	Ailddatganiad 2016/17 £000	Swm yr Ailddatganiad £000
Gweithrediadau Masnachu	1,780	(121)	(1,901)
Cyfanswm	14,467	12,566	(1,901)

Incwm Treth a Grantiau Amhenodol (Nodyn 11)

	2016/17 Fel yr Adroddwyd yn Wreiddiol £000	Ailddatganiad 2016/17 £000	Swm yr Ailddatganiad £000
Incwm y Dreth Gyngor	(67,590)	(58,367)	9,223
Grantiau'r llywodraeth heb eu clustnodi	(113,776)	(113,777)	(1)
Cyfanswm	(229,242)	(220,020)	9,222

CRONFA'R DEGWM (HEB EI HARCHWILIO)

DATGANIAD CYFRIFON 2017/18

Rhaqair Eglurhaol

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am Gronfa'r Degwm yn rhinwedd adran 50 Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 a Gorchymyn (Dynodi a Manylu) Cronfeydd Degwm 1996(b)).

Mae'r Cyngor trwy ei brosesau pwyllgora yn gyfrifol am ddsbarthu incwm y gronfa hon i'r dibenion elusennol hynny a nodwyd yn y cynllun. Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun ar gael ar wefan y Cyngor www.conwy.gov.uk

Y Cyngor yw ymddiriedolwr corfforaethol nawdd Cronfa'r Degwm yn ardal Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'n dal rhywfaint o nawdd a wahanwyd o gronfa Clwyd adeg ad-drefnu 1996. Mae ganddo hefyd gyfran o gronfa Gwynedd. Mae'r rhan fwyaf o'r cronfeydd yn cael eu dal gan Wunedd, sy'n gyfrifol am wneud buddsoddiadau ar ran y gronfa er mwyn gwneud y mwyaf o'r incwm sydd ar gael i'w dosbarthu.

Mae Gwynedd ar hyn o bryd yn gweithredu fel awdurdod arweiniol ar gyfer Cronfa'r Degwm ac mae'n paratoi cyfrifon i'w cyflwyno i'r Comisiwn Elusennau ar ran tri Awdurdod, sef Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy. Bydd cronfa Gwynedd yn cael ei dadgyfuno yn 2018/19 ac o ganlyniad i hynny, bydd pob stoc a ddelir gan y gronfa yn cael ei drosglwyddo i arian parod. Pan fydd y gronfa'n cael ei dadgyfuno, bydd Conwy yn gyfrifol am fuddsoddi ar ran y gronfa ac adrodd i'r Comisiwn Elusennau.

Polisiau Cyfrifo

Y polisiau Cyfrifo a ddilynir yw'r rheiny sydd wedi eu hamlinellu ar dudalennau 18 i 36, sy'n berthnasol i'r eitemau yng Nghyfrifon Cronfa'r Degwm. Hefyd mae'r cyfrifon yn dilyn Datganiad Ymarferiad Cymeradwyedig y Comisiwn Elusennau.

Y brif egwyddor gyfrifo sy'n berthnasol i'r cyfrifon hyn yw'r egwyddor groniadau, sy'n galw am gynnwys dyledwyr a chredydwyr yn y cyfrifon.

Nid yw'r datganiadau hyn yn cael eu harchwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru.

CYFRIF INCWM A GWARIANT

	Nodiadau	2017/18	2016/17
		£	£
ADNODDAU SY'N CODI			
Llog Buddsoddi	1	1,887	2,107
Ad-daliad Grant		-	3,048
		1,887	5,155
DEFNYDD O ADNODDAU			
Dyraniadau	2	(5,350)	(5,800)
		(5,350)	(5,800)
Newid mewn Adnoddau cyn Enillion neu Colledion Buddsoddi		(3,463)	(645)
Enillion a Cholledion Eraill a Wireddwyd			
Ailbriso Tir	3	-	-
Enillion (Colledion) a Wireddwyd ar Warediadau Buddsoddi		-	-
Enillion (Colledion) na Wireddwyd ar Werthoedd Buddsoddi		-	-
		-	-
Adnoddau a Gadwyd (Diffyg) ar gyfer y Dyfodol		(3,463)	(645)
Adnoddau a Ddygwyd Ymlaen		4,768	5,413
Adnoddau a Gariwyd Ymlaen		1,305	4,768
Symudiad yn y Flwyddyn		(3,463)	(645)

MANTOLEN AR 31 MAWRTH

	Nodiadau	2018	2017
		£	£
Asedau Sefydlog			
Tir	1	56,102	65,007
		56,102	65,007
Asedau Cyfredol			
Dyledwyr (Cyngor Gwynedd)	3	2,083	2,053
Dyledwyr (Arall)	3	1,682	1,903
Arian Parod (Conwy)	2	58,847	62,310
Arian Parod (Yn nwylo Cyngor Gwynedd)	2	321,220	321,090
		383,832	387,356
Atebolrwydd Cyfredol			
Credydwyr	3	(2,302)	(2,277)
Asedau Net		437,633	450,086
		437,633	450,086
Balans y Gronfa		437,633	450,086

NODIADAU CYFRIFON CRONFA'R DEGWM

Cyfrif Incwm a Gwariant

Nodyn 1

Prif ffynhonnell incwm yw incwm buddsoddiad o asedau a weinyddwyd gan Gyngor Gwynedd ar ran y gronfa, roedd hyn yn dod i gyfanswm o £1,682 (£1,903 yn 2016/17). Mae incwm y prif gronfa yn cael ei ddosrannu ar sail canran, ac mae gan Gonwy hawl i gael 17.810244%. Mae Conwy yn cadw arian ar ran y gronfa ac yn talu llog ar falans y gronfa a ddaeth i £205 (£204 yn 2016/17). Y gyfradd llog a ddefnyddiwyd wrth gyfrifo yw cyfartaledd cyfradd LIBOR 7 diwrnod ar gyfer y misoedd rhwng Ebrill a Mawrth. (Mae ffigyrau'r flwyddyn flaenorol yn y paragraff hwn wedi cael eu haddasu i wneud rhai cywiriadau).

Mae incwm o fuddsoddiadau wedi lleihau'n sylweddol o gymharu â'r blynyddoedd diwethaf oherwydd newid yn y buddsoddiadau a wneir gan Gyngor Gwynedd. Mae'r holl stoc wedi ei werthu ac mae'r arian parod yn sgil hynny yn cael ei ddefnyddio i wahanu'r gronfa.

Nodyn 2

Dan ddarpariaethau Cronfa'r Degwm, mae Conwy yn dyrannu grantiau i amrywiol sefydliadau. Y swm oedd ar gael i'w ddyrannu yn 2017/18 oedd amcangyfrifo o £5,868 (£7,713 yn 2016/17) a chafodd £5,350 eu dyrannu (£5,800 yn 2016/17). Mae'r balans oedd ar gael i'w ddyrannu yn 2017/18 wedi'i gario ymlaen i'w ddyrannu yn 2018/19.

Nodyn 3

Ail-brisiwyd y tir a ddelir gan y gronfa cyn y dadgyfuno posibl. Gwerth y tir yn 1996 oedd £26,250 a gwerth y tir yn 2018 oedd £315,000. Cyfran Conwy o'r gwerth newydd yw £56,102 (17.810244%).

Mantolen

Nodyn 1

Cyfran Conwy o'r tir sy'n cael ei ddal gan y brif gronfa yw £56,102 (£65,007 yn 2016/17). Ail-brisiwyd y tir yn 2014/15 yn barod am ddatgrynhoi'r gronfa a chafod ei ail-brisio eto yn 2017/18.

Nodyn 2

Nid yw'r gronfa bellach yn dal buddsoddiadau gan fod y rhain wedi eu trosi i arian yn sgil dadgyfuno'r gronfa yn y dyfodol agos.

Mae'r brif gronfa bellach yn cael ei dal fel adneuon arian parod sydd â llog yn cronni. Yn 2017/18 roedd y swm yn £1,803,570 (£1,802,836 yn 2016/17). Cyfran Conwy o'r gronfa yw 17.810244% o'r cyfanswm. Roedd y swm arian parod a oedd gan Gonwy yn 2017/18 yn dod i £58,847 (£62,310 yn 2016/17). O'r swm hwn mae £57,542 (£57,542 yn 2016/17) yn cael ei ddal fel arian parod na ellir ei dosbarthu ac felly mae'n cael ei fuddsoddi i gynhyrchu incwm ar gyfer ei ddosbarthu.

Nodyn 3

Swm y dyledwr ar y fantolen yw cyfran Conwy o'r swm a ddelir gan Gyngor Gwynedd a chyfran Conwy o ddyledwyr eraill i'r brif gronfa. Mae swm y credydwyr a ddangosir ar y fantolen yn cynnwys cyfran Conwy o gredydwyr i'r brif gronfa.

YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG LLANRWST

Datganiad Cyfrifon 2017/18

Rhagair esboniadol

Yn 2017/18, y Cyngor oedd Ymddiriedolwr Ceidwad y gronfa hon.

Polisiau Cyfrifo

Ceir manylion am y polisiau cyfrifo ar dudalennau 18 i 36, sy'n berthnasol i eitemau yn y Cyfrifon. Mae'r Cyfrifon hefyd yn dilyn Datganiad a Argymhellwyd gan y Comisiwn Elusennau.

Y prif egwyddor sy'n berthnasol i'r cyfrifon hyn yw'r egwyddor croniad sy'n nodi bod rhaid cynnwys debydwyr a chredydwy'r yn y cyfrifon.

Nid yw'r datganiadau hyn yn cael eu harchwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru.

**CYFRIF INCWM A GWARIANT AR GYFER Y FLWYDDYN A
DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2018**

	2017/18 £		2016/17 £	
ADNODDAU'N CODI				
Rhoddion	-		-	
Llog ar Fuddsoddiadau	2,921		2,827	
Llai Gwariant	(10,000)		(7,000)	
		(7,079)		(4,173)
Adnoddau a ddygwyd ymlaen	862,922		867,095	
Adnoddau a gariwyd ymlaen	855,843		862,922	
Symudiad yn y flwyddyn		(7,079)		(4,173)

TAFLEN FALANS AR 31 MAWRTH

	2018 £	2017 £
Asedau cyfredol		
Buddsoddiadau	855,843	862,922
Rhwymedigaeth Cyfredol	-	-
Balans y Gronfa	855,843	862,922

Nodyn 1

Mae'r Gronfa Arian yn cael ei buddsoddi gan Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac yn ennill llog, y gyfradd a ddefnyddir yw cyfartaledd cyfradd LIBOR 7 diwrnod am y misoedd perthnasol.

GEIRFA

ADDASIAD BLWYDDYN FLAENOROL

Addasiadau perthnasol sy'n ymwneud â'r flwyddyn flaenorol sy'n deillio o newidiadau mewn polisiau cyfrifo neu gywiriad camgymeriadau sylfaenol. Nid yw hyn yn cynnwys cywiriadau cylchol normal neu addasiadau o amcangyfrifon cyfrifo a wnaed mewn blwyddyn flaenorol.

ADNODDAU HYLIFOL

Buddsoddiadau ased cyfredol sy'n rhwydd i'w gwaredu gan y Cyngor heb aflonyddu ar ei fusnes ac sydd naill ai:

- Yn drosglwyddadwy'n hawdd i symiau hysbys o arian parod ar neu'n agos at y swm a gludir; neu
- Yn cael eu masnachu mewn marchnad weithredol

AMHARIAD

Lleihad mewn gwerth ased sefydlog dan ei swm a gludir yn y Fantolen.

AMORTEIDDIAD

Dileu rhwymedigaeth yn raddol, fel benthyciad, drwy daliadau rheolaidd dros gyfnod penodol o amser. Rhaid i'r fath daliadau fod yn ddigon i gynnwys y prifswm a'r llog.

ARCHWILIO CYFRIFON

Archwiliad annibynnol o faterion ariannol y Cyngor.

ARIAN

Yn cynnwys arian parod mewn llaw ac mewn adneuon ar gais.

ARIANNU CYFALAF

Arian a godir i dalu am wariant cyfalaf. Mae nifer o ffyrdd o gyllido gwariant cyfalaf yn cynnwys benthycia, prydlesu, cyllido refeniw uniongyrchol, derbynion cyfalaf defnyddiadwy, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf, refeniw cronfeydd wrth gefn a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

ASED

Eitem sydd â gwerth i'r Cyngor mewn termau ariannol. Mae eitemau'n cael eu categorio fel rhai cyfredol neu sefydlog:

- Bydd ased cyfredol yn cael ei ddefnyddio neu'n peidio â bod â gwerth perthnasol o fewn y flwyddyn ariannol nesaf (e.e. arian parod a stoc);
- Mae ased sefydlog yn rhoi buddiannau i'r Cyngor ac i'r gwasanaethau mae'n darparu ar eu cyfer am gyfnod o fwy na blwyddyn a gall fod yn ddiriaethol e.e. canolfan gymuned, neu anniriaethol, e.e., trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol.

ASED WRTH GEFN

Mae ased wrth gefn yn ased posib sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol y bydd eu bodolaeth yn cael ei chadarnhau dim ond trwy ddigwyddiad o un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y Cyngor.

ASEDAU ANNIRIAETHOL

Gellir diffinio eitem anniriaethol (nid un ffisegol) fel ased pan fo'r mynediad at fuddiannau economaidd i'r dyfodol y mae'n ei gynrychioli'n cael ei reoli gan yr endid adrodd. Mae Asedau Anniriaethol y Cyngor hwn yn cynnwys trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol.

ASEDAU CYMUNEDOL

Asedau mae'r Cyngor yn bwriadu eu dal am byth, nad oes iddynt oes ddefnyddiol benodadwy ac a all fod â chyfyngiadau ar eu gwaredu. Enghreifftiau o asedau cymunedol yw parciau ac adeiladau hanesyddol.

ASEDAU GWEITHREDOL

Asedau sefydlog sy'n cael eu dal a'u meddiannu, defnyddio neu eu treulio gan y Cyngor wrth iddo ddilyn ei strategaeth ac wrth gyflenwi'n uniongyrchol y gwasanaethau hynny y mae ganddo gyfrifoldeb drostynt naill ai'n statudol neu â disgresiwn.

ASEDAU NAD YDYNT YN WEITHREDOL

Asedau sefydlog a ddelir gan y Cyngor ond nad ydynt yn cael eu meddiannu, defnyddio neu eu treulio'n uniongyrchol wrth gyflenwi gwasanaethau. Enghreifftiau yw eiddo buddsoddiad, asedau yn cael eu hadeiladu neu asedau dros ben i anghenion tra'n disgwyl eu gwerthu neu ailddatblygu.

ASEDAU SEILWAITH

Asedau sefydlog sy'n perthyn i'r Cyngor na ellir eu trosglwyddo na'u gwerthu, y mae eu gwerth yn adferadwy yn unig drwy ddefnydd parhaus a grëwyd gan yr ased. Enghreifftiau yw priffyrdd, llwybrau a phontydd.

ASEDAU TREFTADAETH

Mae Ased Treftadaeth yn ased sydd â rhinweddau hanesyddol, artistig, gwyddonol, technolegol, geoffisegol neu amgylcheddol sy'n cael ei dal a'i chynnal oherwydd ei chyfraniad at wybodaeth a diwylliant yn bennaf.

BENTHYCA DROS DRO

Arian a fenthycir am gyfnod o lai na blwyddyn.

BENTHYCIAD MEDDAL

Benthyciad a wnaed yn ddi-log neu ar raddfa llai na graddfa'r farchnad, fel arfer am resymau polisi. Yn aml gwneir y fath fenthyciadau i unigolion neu sefydliadau y mae'r Cyngor yn eu hystyried fel rhai sy'n dod â budd i'r boblogaeth leol.

BUDD-DALIADAU TAI

System o gymorth ariannol i unigolion tuag at gostau tai penodol a weinyddir gan awdurdodau, gyda chymhorthdal gan lywodraeth ganolog.

BUDDIANNAU Â DISGRESIWN (PENSIYNAU)

Buddiannau ymddeoliad, nad oes gan y cyflogwr unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol, gytundebol neu adeiladol i'w dyfarnu, ac sy'n cael eu dyfarnu'n ôl pwerau disgresiwn y Cyngor fel y Rheoliadau Llywodraeth Leol (Taliadau Disgresiwn) 1996.

BUDDIANNAU GWEITHWYR

Bob ffurf o ystyriaeth a roddir gan y cyngor fel cyfnewid am wasanaeth a roddir gan ei weithwyr.

BUDDIANNAU TERFYNU A PHECYNNAU YMADAEL

Buddiannau terfynu yw'r symiau sy'n daladwy o ganlyniad i benderfyniad gan yr Awdurdod i ddod â chyflogaeth swyddog i ben cyn y dyddiad ymddeol cyffredin neu benderfyniad swyddog i dderbyn diswyddo gwirfoddol. Mae costau'r Buddiannau Terfynu yn cael eu hystyried yn Becynnau Ymadael.

BUDDIANNAU YMDDEOLIAD

Bob ffurf o gydnabyddiaeth a roddir gan gyflogwr yn lle gwasanaethau a gyflenwyd gan weithwyr sy'n daladwy ar ôl terfyn y gyflogaeth.

BUDDSODDIADAU (CRONFA BENSIWN)

Bydd buddsoddiadau'r gronfa bensiwn yn cael eu cyfrifo yn natganiadau'r gronfa honno. Fodd bynnag, mae'n ofynnol hefyd ar awdurdodau i ddatgelu, fel rhan o ofynion datgelu sy'n ymwneud â buddiannau ymddeoliad, siâr i'w briodoli o asedau'r cynllun pensiwn sy'n gysylltiedig â'u rhwymedigaethau gwaelodol.

BUSNES HYFYW

Y cysyniad fod y Datganiad Cyfrifon yn cael ei baratoi ar y dybiaeth y bydd y Cyngor yn parhau mewn bodolaeth weithredol am y dyfodol rhagweladwy.

BWRDD BENTHYCIADAU GWEITHIAU CYHOEDDUS (PWLB)

Asiantaeth Llywodraeth Ganolog sy'n rhoi benthyciadau am flwyddyn a mwy i awdurdodau ar raddfeydd llog sydd ond ychydig yn uwch na'r rheiny y gall y llywodraeth fenthycia ei hun.

BWRDD YMGYNGHOROL ADRODD ARIANNOL (FRAB)

Y corff annibynnol sy'n cynghori'r Llywodraeth ar faterion cyfrifo.

CIPFA

Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifo

COST AMNEWID DIBRISIEDIG (DRC)

Dull o brisio sy'n rhoi amcan cydnabyddedig i werth marchnad eiddo arbenigol. Mae'n amcangyfrif o werth y farchnad i ddefnydd presennol y tir, ynghyd â chostau amnewid gros

presennol i'r adeilad llai lwfans ar gyfer dirywiad ffisegol yr ased oherwydd ei stad ffisegol gyfatebol bresennol.

COST GWASANAETH CYFREDOL (PENSIYNAU)

Y cynnydd mewn gwerth cyfredol o rwymedigaethau cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, y disgwylir iddo ddeillio o wasanaeth gweithiwr yn y cyfnod presennol.

COST GWASANAETH YN Y GORFFENOL (PENSIYNAU)

Ar gyfer cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, y cynnydd yng ngwerth cyfredol rhwymedigaethau'r Cynllun sy'n gysylltiedig â gwasanaeth gweithiwr mewn cyfnodau blaenorol sy'n deillio yn y cyfnod presennol o ganlyniad i gyflwyno neu wella buddiannau ymddeoliad.

COSTAU HEB EU DOSBARTHU

Dyma orbenion nad yw unrhyw ddefnyddiwr yn cael budd ohonynt yn awr, ac fel y cyfryw nid ydynt yn cael eu dosrannu i Wasanaethau.

CONTRACT TYMOR HIR

Contract a ffurfir ar gyfer dylunio, cynhyrchu neu adeiladu ased sylweddol unigol neu ddarpariaeth gwasanaeth (neu gyfuniad o asedau neu wasanaethau sydd gyda'i gilydd yn ffurfio prosiect unigol), ble bo'r amser a gymerir i gwblhau'n sylweddol y contract o'r fath fel ei fod yn disgyn i mewn i fwy nag un cyfnod cyfrifo.

COST LLOG (PENSIYNAU)

Ar gyfer cynllun buddiannau diffiniedig, y cynnydd disgwyliedig yn ystod y cyfnod o werth cyfredol rhwymedigaethau'r Cynllun oherwydd bod y buddiannau yn un cyfnod yn nes at setliad.

CRAIDD CORFFORAETHOL A DEMOCRATAIDD

Mae'r Craidd Corfforaethol a Democrataidd yn cynnwys yr holl weithgareddau penodol y mae awdurdodau lleol yn ymgymryd â nhw, oherwydd eu bod yn awdurdodau etholedig, amlbwrpas. Felly mae cost y gweithgareddau hyn yn uwch na phe byddai cyfres o gyrff annibynnol, un pwrpas, enwebedig yn rheoli'r un gwasanaethau. Felly, nid oes sail resymol dros ddyrannu'r costau hyn i wasanaethau.

CREDYDWR

Swm sy'n ddyledus gan y Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd, neu wasanaethau a gyflenwyd yn ystod y cyfnod cyfrifo, ond na thalwyd amdanynt cyn diwedd y cyfnod cyfrifo hwnnw.

CRONFEYDD WRTH GEFN

Croniad dros ben, diffyg a meddiannau dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae cronfeydd wrth gefn o natur refeniw ar gael a gellir eu gwario neu eu clustnodi ar ddisgresiwn y Cyngor. Ni ellir defnyddio peth cyfalaf cronfeydd wrth gefn fel y cyfrif ailddatganiad asedau sefydlog i gwrdd â gwariant cyfredol.

CRONFEYDD YMDDIRIEDOLAETH

Cronfeydd a weinyddir gan y Cyngor i bwrpasau fel gwobrwyon, elusennau, prosiectau penodol ac ar ran plant dan oed.

CRONIADAU

Symiau a gynhwysir yn y cyfrifon terfynol i gydnabod incwm refeniw a chyfalaf incwm a'r gwariant a enillwyd neu yr aethpwyd iddo yn y flwyddyn ariannol, ond nad oedd taliad gwirioneddol wedi ei dderbyn neu ei wneud ar ei gyfer ar 31 Mawrth.

CYDNABYDDIAETH ARIANNOL

Mae'r holl symiau a delir i neu sy'n dderbyniadwy gan weithiwr a symiau sy'n ddyledus trwy lwfansau treuliau (cyn belled ag y mae'r symiau hynny'n daladwy yn nhreth incwm y DU) a gwerth ariannol unrhyw fuddiannau eraill a dderbyniwyd heblaw mewn arian parod. Mae cyfraniadau pensiwn sy'n daladwy gan y cyflogwr yn cael eu heithrio.

CYFNOD CYFRIFO

Y cyfnod o amser a gynhwysir yn y cyfrifon, fel arfer cyfnod o ddeuddeng mis yn cychwyn ar 1 Ebrill. Diwedd y cyfnod cyfrifo yw dyddiad y Fantolen.

CYFRIF REFENIW TAI (CRT)

Cyfrif ar wahân i Gronfa'r Cyngor, sy'n cynnwys yr incwm a gwariant sy'n deillio o'r ddarpariaeth llety tai gan y Cyngor.

CYFRIF INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Cyfrif referniw'r Cyngor sy'n adrodd am gost net am y flwyddyn o'r swyddogaethau mae'n gyfrifol amdanynt ac yn dangos sut y cyllidwyd y gost honno o braeseptau, grantiau ac incwm arall.

CYFWERTH ARIAN

Buddsoddiadau tymor byr, hylifol iawn sy'n hawdd i'w trosi i symiau hysbys o arian parod ac sy'n destun i risg fechan o newid mewn gwerth.

CYLLIDEB

Rhagolygon o wariant referniw a chyfalaf net dros y cyfnod cyfrifo.

CYNLLUN PENSIWN BUDDIANNAU DIFFINIEDIG

Cynlluniau pensiwn ble bo buddiannau a dderbynnir gan y cyfranogwyr yn annibynnol ar y cyfraniadau a dalwyd, ac nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â buddsoddiadau'r cynllun.

CYSONDEB

Y cysyniad fod triniaeth gyfrifo o eitemau tebyg o fewn cyfnod cyfrifo ac o un cyfnod i'r nesaf yr un fath.

DARPARIAETH

Swm a osodir o'r neilltu ar gyfer rhwymedigaethau neu golledion i'r dyfodol sy'n sicr neu'n debygol iawn o ddigwydd ond bod y symiau neu'r dyddiadau pryd y byddant yn digwydd yn ansicr.

DERBYNION CYFALAF

Yr elw o waredu tir neu asedau sefydlog eraill. Gellir defnyddio cyfrannau o dderbynion cyfalaf i ariannu gwariant cyfalaf newydd, o fewn y rheolau a osodir i lawr gan y llywodraeth ond ni ellir eu defnyddio i gyllido referniw gwariant.

DIBRISIANT

Mesur o'r gost o dreulio, defnyddio neu fel arall leihau oes economaidd ddefnyddiol asedau sefydlog y Cyngor yn ystod y cyfnod cyfrifo, p'un a yw hynny o ddefnydd, treuliad amser neu anarferiant trwy newidiadau technegol neu rai eraill.

DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN

Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol neu anffafriol, sy'n digwydd rhwng dyddiad y Fantolen a'r dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon.

DULL UNED RHAGAMCANEDIG

Dull prasio buddiannau cronus ble mae'r rhwymedigaethau cynllun pensiwn yn gwneud lwfans am gyflogau rhagamcanedig. Y buddiannau cronus yw'r buddiannau gwasanaeth hyd at bwynt penodol mewn amser, p'un a ydynt yn hawliau a roddwyd ai peidio.

DYCHWELIAD DISGWYLIEDIG AR ASED AU PENSIWN

Ar gyfer cynllun buddiannau diffiniedig a ariennir, a'r raddfa dychweliad ar gyfartaledd, yn cynnwys incwm a newidiadau mewn Gwerth Teg ond yn net o dreuliau cynllun, a ddisgwylir dros weddill oes y rhwymedigaeth gysylltiedig ar yr asedau gwirioneddol a ddelir gan y cynllun.

DYLED NET

Benthyciadau'r Cyngor llai arian parod ac adnoddau hylifol.

DYLEDWR

Swm sy'n ddyledus i'r Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd, neu wasanaethau a gyflenwyd yn ystod y cyfnod cyfrifo, ond na thalwyd amdanynt cyn diwedd y cyfnod cyfrifo hwnnw.

EITEMAU ANGHYFFREDIN

Eitemau perthnasol, gyda graddfa uchel o annormalrwydd, sy'n deillio o ddigwyddiadau neu drafodion sy'n disgyn tu allan i weithgareddau cyffredin y Cyngor ac na ddisgwylir iddynt ailddigwydd. Nid ydynt yn cynnwys eitemau eithriadol, na chwaith yn cynnwys eitemau cyfnod blaenorol dim ond oherwydd eu bod yn gysylltiedig â chyfnod blaenorol.

EITEMAU EITHRIADOL

Eitemau perthnasol sy'n deillio o ddigwyddiadau neu drafodion sy'n dod oddi mewn i weithgareddau cyffredin y Cyngor ac sydd angen eu datgelu ar wahân oherwydd eu maint neu ddigwyddiad i roi cynrychiolaeth deg o'r cyfrifon.

ENILLION A CHOLLEDION ACTIWARAIDD

I gynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, y newidiadau mewn arian dros ben neu ddiffyg actiwaraidd sy'n codi oherwydd:

- Nad yw digwyddiadau wedi cyd-fynd â'r tybiaethau actiwaraidd a wnaethpwyd i'r prisiant diwethaf (enillion a cholledion profiad); neu
- Fod y tybiaethau actiwaraidd wedi newid.

GRADDDFA LLOG EFFEITHIOL

Dyma raddfa llog sydd ei hangen i ddisgowntio'r maes amcangyfrifedig o lif arian prifswm a llog drwy oes ddisgwyliedig offerynnau ariannol i gyfateb i'r swm ar yr adnabyddiaeth gychwynnol.

GRANT CEFNOGI REFENIW

Grant a delir gan Lywodraeth Gymru i awdurdodau, yn cyfrannu tuag at gost gyffredinol eu gwasanaethau.

GRANTIAU LLYWODRAETH

Grantiau a wneir gan y llywodraeth tuag at naill ai wariant refeniw neu gyfalaf gan ddisgwyl cydymffurfriad yn y gorffennol neu i'r dyfodol gyda rhai amodau penodol sy'n ymwneud â gweithgareddau'r Cyngor. Gall y grantiau hyn fod yn benodol i gynllun neilltuol neu gall gefnogi gwariant refeniw'r Cyngor yn gyffredinol.

GWAITH YN MYND YN EI FLAEN (WIP)

Cost gwaith a berfformir ar brosiect heb ei orffen ar ddyddiad y Fantolen.

GWARIANT CYFALAF

Gwariant ar gaffael ased sefydlog, a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau tu draw i'r cyfnod cyfrifo cyfredol, neu wariant sy'n ychwanegu at, ac nid cynnal yn unig, werth ased sefydlog presennol.

GWARIANT REFENIW A ARIENNIR O GYFALAF O DAN STATUD (REFCUS)

Gwariant y gellir ei ohirio'n gywir (h.y. ei drin fel cyfalaf o ran natur) ond nad yw'n arwain at, neu'n parhau i gydweddu ag, ased diriaethol. Enghreifftiau o daliadau gohiriedig yw grantiau o natur cyfalaf i sefydliadau gwirfoddol.

GWEITHGAREDDAU GWEITHREDOL

Gweithgareddau'r Cyngor nad ydynt yn weithgareddau buddsoddi neu gyllido.

GWERTH DEFNYDD PRESENNOL (EUW)

Y swm amcangyfrifedig y dylid cyfnewid eiddo amdano ar ddyddiad prisio rhwng prynwr parod a gwerthwr parod mewn trafodyn hyd braich, ar ôl marchnata priodol pryd yr oedd y partion yn gweithredu'n wybodus, darbodus a heb orfodaeth, gan gymryd fod y prynwr yn cael meddiant gwag ar bob rhan o'r eiddo sydd ei angen gan y busnes ac yn anwybyddu defnyddiau amgen posib ac unrhyw nodweddion eraill o'r eiddo a fyddai'n achosi i'w werth marchnad wahaniaethu o'r hyn oedd ei angen i gymryd lle'r potensial gwasanaeth dros ben ar y gost leiaf.

GWERTH GWEDDILLIOL

Gwerth net ased y gellir ei wireddu ar ddiwedd ei oes ddefnyddiol.

GWERTH LLYFR NET

Y swm y mae asedau sefydlog yn cael eu gosod arnynt yn y Fantolen, h.y. eu costau hanesyddol neu werth cyfredol llai'r symiau cronus ar gyfer dibrisiant.

GWERTH TEG

Gwerth teg ased yw'r pris y gellid ei gyfnewid amdano mewn trafodion hyd braich, llai, ble bo'n berthnasol, unrhyw grantiau derbyniadwy tuag at brynu neu ddefnyddio'r ased.

GWERTH TREHADWY

Rhent tybiedig blynyddol hereditament, a ddefnyddir i bwrpasau TAC.

INCWM

Symiau mae'r Cyngor yn eu derbyn neu mae'n disgwyl eu derbyn o unrhyw ffynhonnell, yn cynnwys ffioedd, gwerthiannau a grantiau.

ISAFSWM DARPARIAETH REFENIW (IDR)

Yr isafswm sydd raid ei godi ar y cyfrif refeniw bob blwyddyn er mwyn darparu ar gyfer ad-daliad benthyciadau a symiau eraill a fenthycir gan y Cyngor.

LASAAC

Pwyllgor Ymgynghorol Cyfrifon Awdurdodau Lleol (Yr Alban).

LLIF ARIAN

Llif i mewn ac allan o arian parod a chyfwerth arian.

MATEROLIAETH

Y cysyniad y dylai'r Datganiad Cyfrifon gynnwys yr holl symiau y gellid disgwyl iddynt, pe gadewid hwy allan, neu eu cam-gynrychioli, arwain at lurguniad o'r datganiadau ariannol ac yn y pen draw gamarwain defnyddiwr y cyfrifon.

MENTER CYLLID PREIFAT (PFI)

Yn nodweddiadol mae trefniadau PFI yn cynnwys endid sector breifat yn adeiladu neu wella eiddo a ddefnyddir i ddarparu gwasanaeth cyhoeddus, ac yn gweithredu a chynnal yr eiddo hwnnw am gyfnod penodol o amser ar ran y corff sector gyhoeddus. Yn ei le, mae'r corff sector gyhoeddus yn talu am ddefnydd yr asedau a gwasanaethau cysylltiedig dros gyfnod y trefniant trwy daliad unedol.

MYNEGAI PRISIAU DEFNYDDIWR (CPI)

Mesur o chwyddiant y gellir ei gymharu'n rhyngwladol sy'n defnyddio methodolegau a strwythurau sy'n dilyn Deddfwriaeth a Chanllawiau Rhyngwladol.

MYNEGAI PRISIAU MANWERTHU (RPI)

Datblygwyd yn wreiddiol fel mynegai gwneud iawn i ddiogelu gweithwyr, yn gysylltiedig â'r Rhyfel Byd Cyntaf. Ar ôl niferoedd datblygiadau sylweddol, daeth i gael ei ddefnyddio fel y prif fesur domestig o chwyddiant.

OES ECONOMAIDD DDEFNYDDIOL (UEL)

Y cyfnod dros yr hwn y bydd y Cyngor yn cael buddiannau o ddefnydd ased sefydlog.

OFFERYNNAU ARIANNOL

Unrhyw gontract sy'n arwain at ased ariannol i un endid a rhwymedigaeth ariannol neu offeryn ecwiti un arall. Mae'r term yn cynnwys asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol, o dderbyniadwyon masnach syml (anfonebau sydd angen eu talu) a thaladwyon masnach (anfonebau sy'n ddyledus) i ddeilliadau cymhleth a deilliadau sefydlog.

PARTIÖN CYSYLLTIEDIG

Mae diffiniad manwl o Bartion Cysylltiedig yn FRS 8. I bwrpasau'r Cyngor, tybir bod Partion Cysylltiedig yn cynnwys aelodau'r Cyngor, y Prif Weithredwr ac aelodau agos o'u teulu a'u haelwyd.

PARTNERIAETHAU CYHOEDDUS PREIFAT (PPP)

Menter ar y cyd pan fo partner sector breifat yn cytuno i ddarparu gwasanaethau i neu ar ran sefydliad sector gyhoeddus. Mae Menter Gyllid Preifat yn ffurf o PPP.

POLISIAU CYFRIFO

Yr egwyddorion, seiliau, confensiynau, rheolau ac arferion a ddefnyddir gan y Cyngor wrth baratoi a chyflwyno ei ddatganiadau ariannol.

PRAESEPT

Yr ardoll a wneir gan awdurdodau praesept ar awdurdodau bilio, sy'n ei gwneud yn ofynnol ar i'r olaf gasglu incwm y Dreth Gyngor ar eu rhan.

PRYDLES

Cytundeb ble bo'r prydleswr yn rhoi hawl i'r deilydd prydles ddefnyddio ased am gyfnod o amser, ar amod taliad neu gyfres o daliadau.

RHAGLEN GYFALAF

Y cynlluniau cyfalaf mae'r Cyngor yn bwriadu eu cynnal dros gyfnod penodol o amser.

REFENIW GWARIANT

Treuliau dydd i ddydd o ddarparu gwasanaethau.

RHESTRAU STOC

Eitemau o ddeunyddiau crai a deunyddiau mae'r Cyngor wedi eu caffael ac sy'n cael eu dal gan ddisgwyl defnydd i'r dyfodol. Enghreifftiau yw deunyddiau defnyddiadwy, deunyddiau crai a gwaith sy'n mynd yn ei flaen.

RHWYMEDIGAETH

Rhwymedigaeth yw pan fo gan y Cyngor ddyled i'w thalu i unigolyn neu sefydliad arall.

- Mae rhwymedigaeth gyfredol yn swm a fydd yn dod yn daladwy neu y gellid ei galw i mewn yn ystod y cyfnod cyfrifo nesaf, e.e. credydwyr neu arian parod wedi'u gordynnu.

- Mae rhwymedigaeth ohiriedig yn swm sydd drwy drefniant yn daladwy tu draw i'r flwyddyn nesaf ar ryw bwynt yn y dyfodol neu i'w dalu i ffwrdd trwy swm blynyddol dros gyfnod o amser.

RHWYMEDIGAETH ADEILADOL

Rhwymedigaeth sy'n deillio o weithredoedd yr Awdurdod pan:

- drwy batrwm sefydlog o arferion yn y gorffennol, polisïau a gyhoeddwyd, neu ddatganiad cyfredol digon penodol, mae'r Awdurdod wedi rhoi arwydd i bartion eraill y bydd yn derbyn cyfrifoldebau penodol; ac
- ganlyniad, mae'r Awdurdod wedi creu disgwyliad dilys ar ran partion eraill y bydd yn cyflawni'r cyfrifoldebau hynny.

RHWYMEDIGAETH WRTH GEFN

Mae rhwymedigaeth wrth gefn naill ai'n:

- Rhwymedigaeth bosib sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol y bydd eu bodolaeth yn cael ei chadarnhau dim ond trwy ddigwyddiad o un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y Cyngor; neu'n
- Rhwymedigaeth bresennol sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol ble nad yw'n debygol y bydd angen trosglwyddiad o fuddiannau economaidd, neu na ellir mesur swm y rhwymedigaeth gyda dibynadwyedd digonol.

RHWYMEDIGAETHAU'R CYNLLUN PENSIWN

Rhwymedigaethau cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig ar gyfer treuliau sy'n ddyledus ar ôl y dyddiad prisiant. Mae rhwymedigaethau'r cynllun a fesurir yn ystod y dull uned a ragamcanir yn adlewyrchu'r buddiannau mae'r cyflogwr wedi ymrwymo i'w darparu i'r Gwasanaeth hyd at y dyddiad prisiant.

SAFONAU ADRODD ARIANNOL RHYNGWLADOL (IFRS)

Mae'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol yn swit o safonau cyfrifo a ddefnyddir ar draws y byd. Yng Nghyllideb 2007, cyhoeddodd y canghellor-ar-y-pryd y byddai Sector Gyhoeddus y DU yn mabwysiadu'r IFRS, gan fod hwn yn cael ei ystyried fel arfer gorau ac y byddai'n caniatáu gwneud cymariaethau rhyngwladol. O ganlyniad mae CIPFA/LASAAC yn cynhyrchu Cod Ymarfer ar Gadw Cyfrifon Llywodraeth Leol ym Mhrydain wedi ei seilio ar IFRS, a oruchwyliar gan y Bwrdd Ymgynghori Adrodd Ariannol (FRAB).

SAFONAU CYFRIFO RHYNGWLADOL Y SECTOR GYHOEDDUS (IPSAS)

Y safonau cyfrifo sydd wedi'u datblygu'n arbennig ar gyfer y sector gyhoeddus gan Fwrdd Safonau Cyfrifo Rhyngwladol y Sector Gyhoeddus (IPSASB).

SOLACE

Cymdeithas Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol

TREFNIADAU ASIANTAETHAU

Trefniant rhwng dau sefydliad ble y bydd un yn gweithredu fel asiant, yn casglu arian ar ran y parti arall, y telir yr arian iddo wedi hynny. Enghraifft yw casgliadau NNDR, ble mae'r Cyngor yn gweithredu fel asiant bilio i lywodraeth ganol, gan gasglu arian gan drethdalwyr ar ran y llywodraeth ganolog ac yna ei dalu iddynt.

TREFNIANT CONSESIWN GWASANAETH

Mae trefniant consesiwn gwasanaeth yn gyffredinol yn cynnwys y grantwr (fel rheol corff sector gyhoeddus) yn rhoi i'r gweithredydd (fel rheol corff sector breifat), am gyfnod y consesiwn, yr hawl i ddarparu gwasanaethau sy'n rhoi mynediad cyhoeddus at gyfleusterau economaidd a chymdeithasol.

TRETHI ANNOMESTIG CENEDLAETHOL (TAC)

Mae graddfeydd trethi annomestig cenedlaethol yn ardoll ar fusnesau, wedi'i seilio ar raddfa genedlaethol yn y bunt a osodir gan y llywodraeth a'i luosi gan werth trethadwy asesedig yr eiddo dan sylw. Caiff ei gasglu gan y Cyngor ar ran llywodraeth ganolog ac yna ei ailddosbarthu'n ôl i gefnogi cost gwasanaethau.

TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Mae'r Datganiad o Ymarfer a Argymhellir yn gwneud datgeliad o unrhyw drafodion perthnasol rhwng y Cyngor a Phartion Cysylltiedig yn ofynnol er mwyn sicrhau fod rhanddeiliaid yn ymwybodol pryd mae'r trafodion hyn yn digwydd a goblygiadau hynny.

Y FANTOLEN

Datganiad o'r asedau, rhwymedigaethau a balansau eraill cofnodedig ar ddiwedd y cyfnod cyfrifo.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
2017/2018**

1 Pwrpas y Datganiad Llywodraethu Blynyddol


- 1.1 Moderneiddio gwasanaethau i gefnogi anghenion ein cymunedau, a mynd i'r afael â gostyngiad sylweddol yn ein hadnoddau, mae'n her i bob awdurdod llywodraeth leol. Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hynny mae'n rhaid i'r Awdurdod sicrhau bod trefniadau llywodraethu corfforaethol (y modd rydym yn cyfarwyddo ac yn rheoli ein busnes ac yn ymwneud â chymunedau) yn cefnogi'r gwaith o reoli risgiau a darparu gwasanaethau yn effeithiol. Mae a wnelo llywodraethu corfforaethol â'r ffordd y bydd aelodau etholedig a swyddogion yn ymdrin â materion yr Awdurdod, ac â sut y byddwn yn ymgysylltu â'r gymuned, rhanddeiliaid a phartneriaid.
- 1.2 Mae fframwaith llywodraethu, wedi'i gefnogi gan God Llywodraethu Corfforaethol Lleol, wedi'i sefydlu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (yr Awdurdod), ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiad cyfrifon blynyddol. Mae hyn yn cyd-fynd ag arferion priodol. Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd sy'n sail i weithrediadau'r Awdurdod, ac a ddefnyddir gan yr awdurdod i roi cyfrif amdano'i hyn i'r gymuned, i ymgysylltu â'r gymuned, ac i weithio gyda'r gymuned. Mae'n galluogi'r Awdurdod i fonitro cyflawniad ei flaenoriaethau strategol ac i ystyried a yw'r blaenoriaethau hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau cost-effeithiol priodol a gwelliannau parhaus.
- 1.3 Dyluniwyd y fframwaith llywodraethu i reoli risg i lefel rhesymol yn hytrach na dileu pob risg. Felly, mae'n darparu sicrwydd rhesymol yn hytrach na sicrwydd absoliwt o effeithiolrwydd.
- 1.4 Mae'r datganiad hwn hefyd yn hunanasesiad gan yr Awdurdod o gydymffurfiaeth â'n Cod Llywodraethu Corfforaethol ac a ydym wedi diwallu gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. Dylid darllen y datganiad hwn gyda'r trefniadau atebolrwydd rheoli perfformiad fel y nodwyd yn yr adroddiad blynyddol a gyhoeddir ar 31 Hydref bob blwyddyn¹.

2 Cwmpas Cyfrifoldeb

- 2.1 Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei gynnal yn unol â'r gyfraith a'r safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu, ei gyfrif a'i ddefnyddio'n briodol mewn modd economaidd, effeithlon ac effeithiol. Dan Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod i sicrhau gwelliannau parhaus yn y modd y caiff swyddogaethau eu harfer, gan roi sylw i faterion economaidd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Mae gan yr Awdurdod ddyletswydd dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i weithredu'n unol â'r egwyddor cynaliadwyedd ac i sicrhau bod hyn yn sail i'r broses o wneud penderfyniadau. Datblygu Cynaliadwy yw'r broses o wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r Awdurdod weithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau fod anghenion presennol yn cael eu diwallu heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.
- 2.2 Wrth gyflawni ein cyfrifoldebau cyffredinol, mae'r Awdurdod yn gyfrifol am sefydlu trefniadau priodol ar gyfer rheoli ei faterion, ac am sicrhau y ceir system reoli fewnol gadarn sy'n hwyluso cyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol, ac sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg.
- 2.3 Er mwyn dangos llywodraethu da mae'n rhaid i'r Awdurdod ddangos ei fod yn cydymffurfio â (ac yn cefnogi'r) egwyddorion craidd a geir yn y Fframwaith ar gyfer Cyflawni Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol (2007) ac Adendwm 2012, a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a Chymdeithas Prif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol (SOLACE). Cyhoeddodd y Fframwaith Rhyngwladol ar gyfer Cyflawni Llywodraethu Da yn y Sector Cyhoeddus (2014) gyfres newydd o Egwyddorion Cyflawni Llywodraethu Da mewn

¹ www.conwy.gov.uk/atebolrwydd

Llywodraeth Leol. Cyhoeddwyd nodiadau canllaw i Awdurdodau Cymreig yn 2016. Paratowyd y datganiad hwn yn unol â'r egwyddorion diwygiedig.



3 Y Fframwaith Llywodraethu

3.1 Mae'r Fframwaith Cenedlaethol yn diffinio llywodraethu fel a ganlyn:

Mae Llywodraethu yn cynnwys y trefniadau a roddwyd ar waith i sicrhau bod y canlyniadau a fwriedir ar gyfer budd-ddeiliaid yn cael eu diffinio a'u cyflawni.

I ddarparu llywodraethu da yn y sector cyhoeddus, mae'n rhaid i'r cyrff llywodraethu a'r unigolion sy'n gweithio i'r sector cyhoeddus gyflawni amcanion eu sefydliad wrth weithredu er lles y cyhoedd bob amser.

- 3.2 'Mae a wnelo llywodraethu â'r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn sicrhau eu bod yn gwneud y pethau cywir yn y ffordd gywir ar gyfer y bobl gywir, mewn modd amserol, cynhwysol, agored ac atebol. Mae'n cynnwys y systemau a'r prosesau, a'r diwylliannau a'r gwerthoedd, sy'n cyfarwyddo ac yn rheoli cyrff cyhoeddus ac a ddefnyddir gan yr awdurdod i roi cyfrif amdano'i hyn i'r gymuned, i ymgysylltu â'r gymuned a, pan fo'n briodol, i arwain eu cymunedau (Adroddiad Llywodraethu Da wrth Benderfynu ar Newidiadau Sylweddol Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer Conwy 2017).
- 3.3 Mae'r datganiad hwn yn disgrifio elfennau allweddol Fframwaith Llywodraethu'r Awdurdod a'n hunanasesiad o'r graddau yr ydym yn cydymffurfio â Chod Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor. Mae'r sicrwydd llywodraethu sydd yn y datganiad hwn yn cael ei strwythuro o amgylch pob un o Egwyddorion Llywodraethu Da CIPFA fel y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff 2.3.
- 3.4 Mae pob un o'r egwyddorion hyn yn rhan bwysig o drefniadau Cod Llywodraethu Corfforaethol yr Awdurdod. Drwy ddefnyddio'r egwyddorion hyn gallwn ddangos ein bod yn darparu gwasanaethau i'n trigolion a'n cymunedau mewn ffordd sy'n dangos atebolrwydd, tryloywder, effeithiolrwydd, gonestrwydd a chynwysoldeb.
- 3.5 Mae'r diagram ar y dudalen nesaf yn amlinellu'r Fframwaith Llywodraethu

FFRAMWAITH LLYWODRAETHU CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY

Mae'n cynnwys y systemau a'r prosesau, a'r diwylliannau a'r gwerthoedd, sy'n cyfarwyddo ac yn rheoli cyrff cyhoeddus ac a ddefnyddir gan yr awdurdod i roi cyfrif amdano'i hyn i'r gymuned, i ymgysylltu â'r gymuned a, pan fo'n briodol, i arwain eu cymunedau.

Ymddwyn gydag
Uniondeb

Bod yn Agored ac
Ymgysylltu

Canlyniadau Cynaliadwy
wedi eu Canolbwyntio ar
Ddinasyddion

Ymyriadau i
gyflawni'r
canlyniadau

Datblygu Gallu ac
Arweinyddiaeth

Rheoli Cyllid a
Risgiau

Atebolrwydd a
Thryloywder

Dogfennau Allweddol: Adolygiad Blynyddol / Cynhyrchu

Dogfennau Allweddol: Adolygiad Ad-hoc / Cynhyrchu

Prosesau / Monitro Rheoleiddio

[Y Cynllun Corfforaethol](#)
[Adroddiad Blynyddol](#)
[Datganiad Llywodraethu Blynyddol](#)
[Adroddiadau Cyllid](#)

Polisi Diogelwch Gwybodaeth
Corfforaethol

[Cynllun Rheoli Asedau](#)

Cofrestr Risg Gorfforaethol

Dirprwyo gan y'i'r Cyfarwyddwyr

Cynlluniau Gwasanaeth -

Protocol Archwilio Mewnol / Allanol

Strategaeth TGCh Digidol Conwy

Fframwaith Wybodaeth

[Strategaeth Ariannol Tymor Canolig](#)

[Cynllun Lwfansau Aelodau](#)

Cod Darbodus a'r Trysorlys

[Datganiad Cyfrifon](#)

Polisi Atal-Twyll a Llygredigaeth
Fframwaith Cynllunio Busnes

[Cod Ymddygiad](#)

[Strategaeth Ymgysylltu â'r Gymuned](#)

[Strategaeth Gyfathrebu](#)

[Y Cyfansoddiad](#)

[Canllawiau Cwynion](#)

[Siarter Cwsmeriaid](#)

Strategaeth Gaffael Gorfforaethol a CPR

[Cynllun Cydraddoldeb Strategol](#)

Rheoliadau Ariannol

Polisiau lechyd a Diogelwch

[Strategaeth Adnoddau Dynol](#)

Fframwaith Llywodraethu Gwybodaeth

Perthnasoedd Aelodau/ Swyddogion

Rheolau Gweithdrefn Cyflogaeth

Swyddogion

Fframwaith Llywodraethu Mewn

Partneriaeth

Fframwaith Rheoli Perfformiad

Protocol Ymgysylltu â'r Cyhoedd

[Cofnod o Benderfyniadau](#)

Cynlluniau Parhad Gwasanaeth

Polisi Rhannu Pryderon

Polisi a Gweithdrefnau Rheoli Risg

[Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu](#)

Datganiadau Atebolrwydd Cyllideb

Grŵp Gwella ac Archwilio

Proses lechyd a Diogelwch

Corfforaethol

Y Fewnwyd Gorfforaethol

Cynllun Hyfforddi Corfforaethol

[Gwybodaeth am Dreth y Cyngor](#)

Proses Adborth Cwsmeriaid

Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau

[Diogelu Data](#)

Fforymau Rhanddeiliad

[Rhyddid Gwybodaeth](#)

Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig

Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth

Ariannol

[Adroddiadau'r Gyfarwyddiaeth](#)

Archwilio Mewnol

Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth

Gwella Conwy

Swydd-ddisgrifiadau

Proses Gwerthuso Swyddi

Y Gyfraith a Llywodraethu

Datblygu a Chyflwyno Aelodau

Swyddog Monitro

Forwm Rheolwyr

Adolygiadau Datblygu Perfformiad

[Y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus](#)

[Rhaflen Gwaith i'r Dyfodol Gyfun](#)

[Cyfarfodydd y Cyngor](#)

Y Grŵp Adolygu Adroddiadau

[Pwyllgorau Craffu](#)

[Pwyllgor Safonau](#)

Cyflwyniad Staff

Arolygon Staff

Y Cyngor Staff

Tîm Arwain Strategol

Yr Uwch Dîm Rheoli

Cynllun Dirprwyo

Y we a chyfryngau cymdeithasol

[Polisi Diogelu](#)

Bwletin Conwy

Egwyddor A. Ymddwyn ag uniondeb, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol, a pharchu rheol y gyfraith

Mae endidau sector cyhoeddus yn atebol nid yn unig i faint y maent yn ei wario, ond hefyd ar gyfer sut y maent yn defnyddio'r adnoddau sydd o dan eu stiwardiaeth. Mae hyn yn cynnwys atebolrwydd am ddeilliannau, cadarnhaol a negyddol, ac ar gyfer y canlyniadau a gyflawnwyd ganddynt. Mae endidau sector cyhoeddus yn atebol i gyrff deddfwriaethol ar gyfer ymarfer awdurdod cyfreithlon mewn cymdeithas. Mae hyn yn ei gwneud hi'n hanfodol y gall pob endid yn ei gyfanrwydd ddangos pa mor briodol yw ei holl weithredoedd a bod ganddo fecanweithiau ar waith i annog a gorfodi cadw at werthoedd moesegol ac i barchu rheol y gyfraith.

A1 Trefniadau Presennol

A) Mae elfennau Moesegol y Fframwaith Llywodraethu yn cynnwys:

- **Cod ymddygiad** ar gyfer aelodau sy'n cael ei gyfleu trwy'r cyflwyniad aelodau ac mae'n rhaid i bob aelod lofnodi i gydnabod eu bod yn cydymffurfio.
- **Cyflwyniad staff** sy'n trafod gwerthoedd ymddygiadol Conwy, fframwaith cymhwysedd, disgwyliadau o gwmpas y rôl fel gweithiwr sector cyhoeddus, y llyfryn parch, polisi disgyblu a rheoliadau ariannol
- Cod ymddygiad cynllunio,
- Protocol sy'n rheoli'r berthynas rhwng aelodau/swyddogion
- Polisi rhannu pryderon, sydd wedi'i hyrwyddo yn eang o fewn yr Awdurdod (wedi'i ddiweddarau fis Ebrill 2017)
- Cofrestrau o gysylltiadau personol a chysylltiadau busnes
- Proses i ddatgan unrhyw gysylltiad mewn cyfarfodydd pwyllgor, sy'n cael ei gofnodi yn y cofnodion
- Polisi cytunedig a threfnau corfforaethol cysylltiedig ar gyfer sicrhau y gellir cwyno am wasanaethau ac ymchwilio i gwynion mewn modd priodol, a sicrhau y gellir rhoi unrhyw wers a ddysgwyd ar waith

Mae'r rhain yn cydymffurfio ac yn cyd-fynd â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

B) Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu yw'r '**Swyddog Monitro**' penodedig yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai, 1989, ac yn sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau, gweithdrefnau, cyfreithiau a rheoliadau sefydledig. Rhoddir swydd-ddisgrifiadau i bob swyddog statudol sy'n nodi eu cyfrifoldebau deddfwriaethol a rheoliadol yn glir ac mae cefnogaeth benodol gan y pwyllgor i gydymffurfio â gofynion deddfwriaethol. Ar ôl cynnal ymgynghoriad priodol, bydd y Swyddog Monitro'n rhoi adroddiad i'r Cyngor ynglŷn ag unrhyw gynig, penderfyniad neu hepgoriad a allai fod yn anghyfreithlon neu a fu'n destun Ymchwiliad gan yr Ombudsmon gan arwain at ddyfarniad o gamweinyddu. Mae gan yr Awdurdod gyfres o **werthoedd corfforaethol** a adolygwyd ac a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2017 ar y cyd â'r Cynllun Corfforaethol 2017 – 22 newydd ac sydd i'w gweld ym mhob rhan o'r Awdurdod. Mae'r gwerthoedd diwygiedig yn cynnwys yr un egwyddorion o ran ymddygiad disgwylidig â'r gwerthoedd a gyhoeddwyd yn flaenorol, ond eu bod yn symlach ac yn haws i'w cyfathrebu.

C) Mae gan yr Awdurdod **Strategaeth Gwrth-dwyll a Llygredd** sy'n nodi cyfrifoldebau aelodau etholedig a staff wrth hyrwyddo diwylliant o onestrwydd a chywirdeb. Mae hefyd yn nodi'r mesurau ar gyfer atal, canfod ac archwilio honiadau o dwyll a llygredigaeth, rhannu gwybodaeth ag asiantaethau eraill, a defnyddio asiantaethau Disgyblu pan fo'n briodol. Mae'r rhain yn cynnwys gweithdrefnau a luniwyd i fynd i'r afael â gwyngalchu arian. Bydd y Strategaeth yn cael ei diweddarau yn 2018/19.

D) Mae **Archwilio Mewnol** yn weithgaredd sicrwydd ac ymgynghori gwrthrychol annibynnol a gynllunnir i ychwanegu gwerth a gwella gweithrediadau'r Awdurdod. Mae'n helpu'r Awdurdod i gyflawni ei amcanion trwy osod dull gweithredu cyfundrefnol, disgyblaethol i werthuso a gwella effeithlonrwydd prosesau rheoli risg, rheoli a llywodraethu. Mae'r Adain Archwilio Mewnol yn

gweithredu'n unol â'r safonau a nodir yn y 'Code of Practice for Internal Audit in Local Government in the United Kingdom, 2006' a luniwyd gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yn ystod 2014/15. Mae'r Cylch Gorchwyl yn diffinio pwrpas, awdurdod a chyfrifoldeb y gweithgarwch archwilio mewnol. Mae'r rhain wedi'u hymgorffori yn y Siarter Archwilio Mewnol er mwyn bodloni gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2013. Cymeradwywyd cylch gorchwyl diwygiedig gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ym mis Chwefror 2016, a gwnaed mân ddiwygiadau i adlewyrchu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ym mis Hydref 2016. Cymeradwywyd y mân ddiwygiadau gan y Swyddog Monitro. Mae'r PSIAS yn gofyn am asesiad allanol annibynnol bob pum mlynedd. Fis Tachwedd 2016 cynhaliodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam asesiad allanol o Wasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae yna 334 o linellau arfer orau yn PSIAS. Daeth yr asesiad i'r casgliad bod yr Awdurdod yn cydymffurfio'n llawn â 313 safon, ac yn cydymffurfio'n rhannol ag 17, gan fethu cydymffurfio â 4. Y farn gyffredinol oedd fod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cydymffurfio'n gyffredinol â'r PSIAS a'r Cod Moeseg ym mhob maes arwyddocaol a'i fod yn gweithredu'n annibynnol ac yn wrthrychol. Ni ystyrir fod unrhyw un o'r meysydd o ddiffyg cydymffurfio yn fethiant sylweddol. Datblygodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol gynllun gweithredu i wneud gwelliannau a rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am y cynnydd ar ei weithredu ym mis Gorffennaf 2017. Mae pob cam gweithredu wedi eu rhoi ar waith ar wahân i fapio sicrwydd, sydd wrthi'n cael ei roi ar waith.

- E) Mae gan yr Awdurdod **Bwyllgor Safonau** i hyrwyddo a gorfodi safonau uchel o ymarfer ac ymddygiad gan aelodau etholedig. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys tri aelod etholedig, un cynghorydd cymuned a 5 aelod annibynnol. Mae swyddogaeth y Pwyllgor yn cynnwys:
- i. helpu, cynghori a monitro cydymffurfiaeth â Chod Ymddygiad yr aelodau etholedig;
 - ii. trefnu i hyfforddi aelodau etholedig ynglŷn â materion sy'n ymwneud â'r Cod;
 - iii. rhoi hawl i aelodau etholedig gael eu heithrio o ofynion sy'n ymwneud â chysylltiadau fel y nodwyd yn y Cod;
 - iv. Ymdrin â chwynion sy'n ymwneud â thorri'r Cod Ymddygiad a gyflwynwyd gan Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus;
 - v. Ystyried materion eraill sy'n briodol ac yn angenrheidiol i gynnal safonau ymddygiad uchel yr Awdurdod a'i aelodau etholedig, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro;
 - vi. Ystyried a rhoi indemniad i aelodau mewn perthynas â chost cynrychiolaeth mewn gwrandawiadau'n ymwneud â'r Cod Ymddygiad;
 - vii. Adolygu cofrestr rhoddion a lletygarwch yr aelodau;
 - viii. Ystyried adroddiad yr Ombwdsmon yn flynyddol.

- F) Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i rym ar 1 Ebrill 2016. Dan arweiniad y Prif Weithredwr, sefydlodd yr Awdurdod weithgor i adolygu goblygiadau'r Ddeddf ac i ddatblygu cynllun gweithredu i sicrhau bod nodau lles, dulliau gweithio a sylfeini'r Ddeddf yn cael eu hymgorffori yng ngwaith a diwylliant yr Awdurdod. Cyflwynir adroddiadau cynnydd i'r Uwch Dîm Rheoli, y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau a'r Cabinet bob 6 mis.

A2 Adolygu Effeithiolrwydd

- A) Swyddogaeth Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu yw sicrhau cydymffurfiaeth â'r fframwaith moesegol. Mae casgliadau'r adolygiad PSIAS allanol yn nodi fod safon dda o archwilio annibynnol yn digwydd. Yn ogystal â hyn, mae Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd amgylchedd rheoli mewnol yr Awdurdod yn nodi manylion unrhyw wendid ac yn rhoi gwybod am unrhyw fater sy'n berthnasol wrth lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r holl adroddiadau Archwilio Mewnol a'r rhai a gyflwynwyd gan ein rheoleiddwyr allanol yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, sy'n monitro'r cynnydd o ran gweithredu'r holl gamau gwella.
- B) Ym mis Mai 2017, cynhaliwyd Etholiadau'r Cyngor Sir a ffurfiwyd gweinyddiaeth newydd ar gyfer y Cyngor. Ffurfiodd yr Arweinydd newydd a benodwyd Gabinet ond ni wnaeth benodi Dirprwy Arweinydd. Cynhaliwyd Rhaglen Gyflwyno Aelodau gynhwysfawr ym mis Mai a

Mehefin 2017 lle rhoddwyd esboniad o gyfrifoldebau cynghorwyr a threfnau llywodraethu'r awdurdod. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys y Cod Ymddygiad Aelodau, gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a gwerthoedd moesegol y sefydliad.

Cyfathrebwyd y Gwerthoedd Corfforaethol diweddaraf i'r holl staff drwy'r cyflwyniad Aelodau a staff, y briff tîm, cyfarfodydd tîm a'r rhyngwyd; ac mae posteri wedi cael eu darparu ar draws yr awdurdod cyfan ac maent wedi eu harddangos ym mhob adeilad. Mae hyn yn dystiolaeth o'r pwyslais a roddir ar ymgorffori'r gwerthoedd corfforaethol ar draws y sefydliad. Cynhaliwyd arolwg staff yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2018. Gofynnodd yr arolwg staff nifer o gwestiynau ynghylch gwerthoedd, ymddygiad a moeseg. Cyhoeddwyd canlyniadau arolwg 2018 ym mis Mehefin 2018 a chafwyd cyfradd ymateb o 65.1%, a oedd yn ostyngiad bychan ar y gyfradd ymateb o 68.7% yn 2015. Cyhoeddir y canlyniadau ar y fewnwyd <http://intranet.corp.conwy.gov.uk/cy/Main/Research-and-Information-Unit/assets/documents/CCBC-staff-survey-2018-initial-report.pdf> ac ar y cyfan yn datgelu fod staff yn fodlon gyda'u man gwaith, mae ganddynt ffydd yn yr arweinydd, yn rheoli newid, ac mae cyfathrebu wedi gwella, serch fod angen gwneud rhagor i hyrwyddo'r Cynllun Corfforaethol newydd. Mae straen yn parhau i fod yn faes pryder allweddol i staff. Bydd Cynllun Gweithredu Corfforaethol yn cael ei ddatblygu nwan a bydd angen i bob gwasanaeth ddatblygu cynllun gweithredu gwasanaeth.

- C) Caiff adroddiad yr Ombwdsmon ar gwynion camweinyddu ei gyflwyno i Bwyllgor Craffu'r Awdurdod yn flynyddol. Yn 2016/17 cadarnhawyd 1 cwyn. Amlinellir esboniad isod.

Blwyddyn	Nifer y cwynion a atgyfeiriwyd at yr Ombwdsmon	Nifer yn cael eu hymchwilio	Nifer a gadarnhawyd
2010/11	28	0	0
2011/12	26	0	0
2012/13	28	0	0
2013/14	29	0	0
2014/15	26	0	0
2015/16	24	3	0
2016/17	27	1	1
2017/18	36	3	1

- D) Ym mis Gorffennaf 2016, cyfeiriodd y Tîm Arwain Strategol gwyn yn erbyn y Cyng Stuart Anderson i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a gyfeiriodd yr achos, yn dilyn ymchwiliad i Banel Dyfarnu Cymru ar 31 Gorffennaf 2017. Galwyd tribiwnlys achos ar 9 a 10 Ionawr 2018 yn Llys y Goron yr Wyddgrug mewn perthynas â'r ymatebydd, y Cyng Stuart Anderson (Cynghorydd Bwrdeistref Sirol Conwy o fis Mai 1999 hyd mis Mai 2017). Roedd y gwrandawriad yn agored i'r cyhoedd. Penderfyniad y Tribiwnlys Achos oedd fod *“achosion niferus a difrifol wedi bod o dorri'r cod ymddygiad a bod angen cymryd camau gweithredu. Gan nad oedd y Cynghorydd Anderson bellach yn Gynghorydd, nid oedd ei wahardd o'i swydd yn gam ymarferol. Casgliad y Tribiwnlys oedd fod cosb o anghymhwysu yn briodol, hyd yn oed pe bai atal dros dro wedi bod yn ddewis a oedd ar gael.”*

Cafodd y cyn-Gynghorydd Stuart Anderson ei anghymwysu rhag bod neu ddod yn Gynghorydd am gyfnod o 18 mis.

Mae'r adroddiad llawn ar gael ar-lein ar wefan Panel Dyfarnu Cymru: http://pdc.llyw.cymru/decision/refs1-decisions/ref-apr17-mar18/iFormer_Councilor_S_Anderson/?skip=1&lang=cy

A3 Casgliad yr Hunanasesiad

Er bod yna amgylchiadau heriol wedi eu nodi yn 2017/18, mae hefyd yn dystiolaeth dda fod mecanweithiau cynhwysfawr ar waith i annog a gorfodi ymlyniad i werthoedd moesegol a pharch tuag

at reol gyfreithiol. Mae'r polisiâu a'r prosesau a roddwyd ar waith yn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, drwy osod disgwyliadau clir o ran ymddygiad a gwerthoedd, sy'n atal ymddygiad annerbyniol, annog ymgysylltu â'r gymuned ac yn cefnogi atebolrwydd am weithredoedd sefydliad cyhoeddus.

A4 Argymhellion ar gyfer Gwella

A1 Y wybodaeth ddiweddaraf ar y strategaeth gwrth-dwyll a llygredigaeth

A2 Cwblhau'r ymarferiad mapio sicrwydd archwilio mewnol

Egwyddor B. Sicrhau ein bod yn bod yn agored ac yn ymgysylltu'n gynhwysfawr â rhanddeiliaid

Gan fod endidau sector cyhoeddus yn cael eu sefydlu a'u cynnal er lles y cyhoedd, dylai eu cyrff llywodraethu sicrhau eu bod yn agored yn eu gweithgareddau. Dylid defnyddio sianeli cyfathrebu ac ymgynghori clir sefydledig i ymgysylltu'n effeithiol â phob rhanddeiliad, fel dinasyddion unigol a defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid sefydliadol.

B1 Trefniadau Presennol

Democratiaeth

- A) Mae pob **cyfarfod o'r Cabinet a'r Cyngor** yn cael ei gynnal yn gyhoeddus (ac eithrio eitemau eithriedig) a'r holl bapurau yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod. Mae'r holl adroddiadau i bwyllgorau yn dod gydag adroddiad cyflwyno sy'n rhoi crynodeb o'r adroddiad, yr argymhellion i'w cymeradwyo a'r rhesymeg drostynt, er mwyn dangos cydymffurfiaeth ddeddfwriaethol a'r rhesymeg a'r dystiolaeth dros wneud penderfyniadau. Yn unol â **Chynllun Cydraddoldeb Strategol** yr Awdurdod, mae'n rhaid asesu effaith pob penderfyniad allweddol ar nodweddion a ddiogelir. Mae pob adroddiad a gyflwynir i'r Cyngor, Cabinet ac i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn cael eu hadolygu gan y **Grŵp Adolygu Adroddiadau** i sicrhau eu bod o safon ddigon uchel ac i ystyried rhaglenni gwaith i'r dyfodol y swyddogaethau craffu i lunio barn o ddatblygu patrymau gwaith a nodi unrhyw fater o ran capasiti a allai godi. Hefyd, mae'r Grŵp yn sicrhau synergedd rhwng cynlluniau gwaith y Cyngor, y Cabinet, y swyddogaeth Graffu a'r swyddogaeth Reoli Strategol. Cyhoeddir adroddiad blynyddol ar y swyddogaeth Graffu bob blwyddyn hefyd. Mae gan yr Awdurdod weithdrefn ar gyfer gwneud penderfyniadau a chaiff y drafodaeth ar bob penderfyniad ei gofnodi'n glir, gan gynnwys unrhyw gyngor proffesiynol a roddwyd wrth wneud y penderfyniad.
- B) Dechreuodd yr Awdurdod **weddarlledu** cyfarfodydd cyhoeddus allweddol ym mis Mawrth 2014 ac mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaidd yn monitro'r nifer sydd wedi gwyllo. Daeth cyllid Llywodraeth Cymru a'r contract gweddarlledu i ben ym mis Medi 2016 ond prynodd yr Awdurdod oriau ychwanegol (ar sail 'talw wrth ddarlledu') i weddarlledu nifer cyfyngedig o gyfarfodydd y Cyngor ond yn bennaf er mwyn diwallu ei ymrwymiad (fel awdurdod cynnal) i weddarlledu cyfarfodydd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru. Ar ddiwedd 2017, nododd yr Awdurdod gyllid i'w ganiatáu i ail-drafod y contract gweddarlledu. Mae'r Awdurdod bellach wedi llofnodi contract 5 mlynedd i barhau i weddarlledu hyd at 60 awr y flwyddyn, ac aildechreuwyd gweddarlledu ym mis Ionawr 2018.
- C) Mae fersiwn gyfun o'r **Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Gyfun** ar gyfer y Cabinet, a'r pedwar Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gael yn gyhoeddus. Mae amserlenni clir ar gyfer cyflwyno, cyhoeddi a dosbarthu adroddiadau.

Cyfranogiad Cymunedol

- D) Bu **Ymgysylltu â'r Gymuned** yn hanfodol wrth ddatblygu'r holl gynlluniau strategol a'r penderfyniadau allweddol. Sicrhau fod pobl yng Nghonwy yn cael gwybodaeth, yn cael eu cynnwys ac yn cael llais, yw un o'r wyth canlyniad dinasyddion yng Nghynllun Corfforaethol 2017-2022. Ym mis Ionawr 2014, cymeradwyodd y Cyngor y **Protocol Ymgysylltu â'r Cyhoedd Trosolwg a Chraffu**. Mae hyn yn cynnwys, ymhlith pethau eraill, gweddarlledu, defnydd o 'dystion arbenigol', a chaniatáu i aelodau o'r cyhoedd siarad yn y pwyllgor craffu, mewn modd tebyg i'r trefniadau sydd eisoes ar waith ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio. Mae'r Awdurdod wedi datblygu datrysiad meddalwedd dwyieithog i gyflwyno e-ddeisebau, ac mae'n bwriadu ei lansio erbyn dechrau blwyddyn ariannol 2018/19. Cymeradwywyd y **Strategaeth Ymgysylltu â'r Gymuned** ddiweddaraf a chanllaw staff ym mis Ebrill 2018. Yn ystod haf 2016, lanswyd y Sgwrs y Sir cyntaf, ar ran pob corff cyhoeddus sy'n gwasanaethu Sir Conwy. Mae canfyddiadau'r ymarfer ymgysylltu a dadansoddiad o'r prif themâu i hysbysu'r Asesiad Lles a Datganiad Lles a Chynllun Corfforaethol pob sefydliad cyhoeddus. Cafodd Sgwrs y Sir hefyd ei defnyddio i ddatblygu Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych (a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2018), a bydd yn cael ei defnyddio ar gyfer gofynion ymgysylltu eraill ac i gefnogi datblygiad ymgysylltu ar gyfer

Cynlluniau Lle, fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015. Mae **Panel Dinasyddion Rhanbarthol Gogledd Cymru** ar waith, ac yn cael ei gydyngu gan Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy. Mae'r Panel Dinasyddion yn gynllun gan y bartneriaeth rhwng Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan weithio gyda'r trydydd sector a'r sector annibynnol ar draws gogledd Cymru. Nod y Panel Dinasyddion yw adeiladu gallu a dealltwriaeth unigolion sy'n barod i weithredu fel cynrychiolwyr ar gyfer eu cymunedau ac ardaloedd, a phrif swyddogaeth y Panel Dinasyddion yw ymgysylltu â phobl sy'n cael eu tangynrychioli ar draws y rhanbarth i sicrhau bod eu lleisiau, syniadau a'u barn yn cael eu clywed mewn perthynas â gwella a datblygu darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol. Ym mis Mawrth 2018, adolygwyd **Strategaeth Gyfathrebu** r Awdurdod a'r nod yw darparu arweiniad corfforaethol o ran brandio a chyfathrebu corfforaethol ac ymgysylltu â thrigolion, staff a rhanddeiliaid allweddol eraill. Cafodd ei gymeradwyo ym mis Mehefin 2018.

- E) Cefnogir ymagwedd yr Awdurdod tuag at ymgysylltu â'r gymuned gan **Siarter Cwsmeriaid** hefyd. Bydd hyn yn cael ei adolygu, ac yn cael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2019. Bydd yn canolbwyntio ar ddinasyddion yn hytrach na chwsmeriaid. Mae gan yr Awdurdod hefyd nifer o **fforymau** i ymestyn ymgysylltu gyda'r gymuned. Mae yna Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned. Adolygwyd hyn yn ddiweddar, a bydd y lleoliad yn cylchdroi rhwng lleoliad arfordirol a gwledig er mwyn gwella mynediad a phresenoldeb. Byddwn yn parhau i adolygu ein hymgysylltiad â Chynghorau Tref a Chymuned a mynd ati'n ymarferol i chwilio am ddulliau o gysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned wrth i ni ystyried cyflwyno'r fforymau ardal. Sefydlwyd grŵp tasg a gorffen ardal gweithredol ym mis Ionawr 2018 i archwilio hyn. Yn ogystal, mae yna Fforwm Fusnes, Rhwydwaith Ymgysylltu, Pwyllgor Partneriaeth Trydydd Sector, Partneriaeth Pobl, Cyngor Ieuenctid, Fforwm Gadael Gofal a Fforwm 'Lleisiau Uchel' ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal. Nid yw hon yn rhestr holl-gynhwysfawr. Cynhelir cronfa ddata ymgysylltu â'r gymuned i ddarparu rhestr o fforymau sy'n cael eu darparu gan yr awdurdod a gan gymunedau, fel y gellir rhannu gwybodaeth a'i thargedu tuag at rhanddeiliaid allweddol o ddiddordeb ee grwpiau gwirfoddol, grwpiau cydraddoldeb, grwpiau nam ar y synhwyrac ac ati. Mae hwn yn adnodd defnyddiol i nodi pwy i ymgysylltu â nhw yn ôl maes testun. Yn unol â Deddf Cynllunio (Cymru), mae'r Awdurdod yn cefnogi cymunedau i ddatblygu Cynlluniau Lleoedd. Roedd yr Awdurdod yn rhan o gynllun prawf i ddatblygu Cynlluniau Lleoedd ac yn ddiweddar mae wedi datblygu **Cynllun Lleoedd** drafft ar gyfer Abergele.
- F) Mae gan yr Awdurdod **Weithdrefn Cwynion Corfforaethol**, ac mae gan bob gwasanaeth swyddog cyswllt ar gyfer cwynion. Mae'r mathau o gwynion a dderbynnir bellach yn cael eu dadansoddi'n fanylach fel y gall gwasanaethau ddysgu o'r adborth a dderbyniwyd. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei hadrodd i'r aelodau etholedig ac yn cael ei defnyddir gan y gwasanaethau fel adborth gan y gymuned am y pethau sydd angen eu gwella. Caiff **Adroddiad Cwynion a Chanmoliaeth** ei gyhoeddi bob blwyddyn a'i werthuso er mwyn canfod gwersi y gellir eu dysgu yn sgil pryderon preswylwyr.
- G) Mae **amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu** i gefnogi'r gymuned i ymgysylltu â'r Awdurdod ac i'r gwrthwyneb. Mae presenoldeb yr Awdurdod ar y cyfryngau cymdeithasol yn cynyddu, ond mae hyn yn cael ei adolygu er mwyn symleiddio nifer y tudalennau ac ati. Mae gan yr awdurdod nifer cynyddol o wasanaethau y gellir ymgeisio amdanynt neu eu hadrodd ar-lein yn ogystal â 3 ap Conwy sy'n cefnogi gwasanaethau amgylcheddol, twristiaeth a materion cyffredinol yr awdurdod. Ym mis Mawrth 2017 lanswyd system rheoli cynnwys gwefan newydd sy'n galluogi gwell rhyngweithio drwy'r wefan ac yn galluogi pobl i ddefnyddio'r wefan yn ddiraffterth ar lechi electronig a ffonau clyfar.
- H) Cyhoeddir gwerthoedd a blaenoriaethau allweddol yr Awdurdod yng **Nghynllun Corfforaethol 2017-2022** ac anogir cymunedau i roi eu barn ar bob penderfyniad a strategaeth allweddol a'u gwahodd i gyfrannu tuag at ddatblygu ac adolygu'r Cynllun Corfforaethol yn flynyddol. Fel y dywedwyd eisoes, yn ystod haf 2016 cynhaliwyd ymarfer ymgysylltu cynhwysfawr o'r enw 'Sgwrs y Sir' i dderbyn barn cymunedau am flaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol 5 mlynedd newydd (2017 – 2022). Cynhaliwyd yr ymarfer hwn ar-lein a thrwy fynd i grwpiau cymunedol a gweithio gyda staff ac Aelodau Etholedig. Cyflwynwyd Cynllun Corfforaethol drafft (a oedd yn cynnwys Datganiad Lles yn unol â'r gofyniad cyfreithiol) i'r Cyngor fis Mawrth 2017 a chafodd ei gyhoeddi at ddibenion ymgynghoriad cyhoeddus fis Mai 2017. Cyhoeddwyd fersiwn derfynol a

gymeradwywyd ym mis Hydref 2017 ar ôl cyfnod o ymgysylltu â'r Aelodau Etholedig newydd. Cyhoeddir data perfformiad ar y we ac mae bellach yn cynnwys infograffeg ac animeiddiadau er mwyn cyfleu'r data mewn modd mwy gweledol. Cyhoeddir **Adroddiad Blynyddol** o berfformiad yr Awdurdod ac mae ar gael ym mhrif dderbynfeydd y Cyngor ac ar y wefan. Cyhoeddir hysbysiad ar y wefan. Mae gan yr Awdurdod fwletin sy'n cael ei bostio i bob aelwyd ddwywaith y flwyddyn. Yn 2018/19 bydd un cyhoeddiad bwletin yn cael ei argraffu a'i ddsobarthu. Pob blwyddyn cynhyrchir **Taflen Treth y Cyngor** ddigidol yn nodi sut mae'r Awdurdod yn rheoli ei gyllideb. Mae gan yr Awdurdod weithdrefnau ar waith i gydymffurfio â gofynion deddfwriaethol y **Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth** ac mae tîm prosiect wedi ei sefydlu i gydlynu'r newidiadau angenrheidiol sydd angen eu rhoi ar waith i gydymffurfio â **Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol** a ddaeth i rym ar 25 Mai 2018.

Trefniadau mewnol

- I) Mae gan yr Awdurdod **Fforwm Reolwyr, Cydbwyllgor Ymgynghorol a Chyngor Staff** er mwyn sicrhau cyfathrebu rheolaidd gyda staff ac Undebau Llafur. Yn 2017/18, cynhaliodd y Cyngor Staff ymarferiad 'oedi ac adolygu' a chafodd ei ail-lansio ym mis Mawrth 2018. Cyhoeddwyd briff tîm misol a chyhoeddwyd newyddlen staff bob chwarter blwyddyn. Maent wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar, eu cyfuno ac wedi eu hailfformatio i wella mynediad at wybodaeth. Ar gyfer gweithgareddau penodol, cynhelir gweithdai i'r staff er mwyn iddynt ymwneud â datblygu polisi a phenderfyniadau allweddol ar raddfa ehangach. Er enghraifft, pob blwyddyn gwahoddir staff ac aelodau etholedig i gynorthwyo i ddatblygu gwelliannau trwy Gynllun Gwella Conwy, fodd bynnag ni ddigwyddodd Gwella Conwy yn 2017/18, yn sgil capasiti staff. Cynhaliwyd digwyddiadau tîm gwasanaethau er mwyn cael cyfraniadau staff i arbedion effeithlonrwydd a sefydlwyd gweithgor cyllideb ar gyfer y staff i adolygu opsiynau effeithlonrwydd amgen a chynnig meini prawf ar gyfer blaenoriaethu cynlluniau effeithlonrwydd.

Gwaith ar y Cyd

- J) Mae'r Awdurdod yn cynnal perthnasau gyda rhanddeiliaid sefydliadol ac yn cymryd rhan mewn nifer o drefniadau cydweithio er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y gymuned. Cymeradwyodd yr Awdurdod **ddatganiad ynglŷn â chydweithio** (Tachwedd 2010) er mwyn sicrhau llywodraethu da a gwerth am arian, a sicrhau bod blaenoriaethau a gwerthoedd yr Awdurdod yn cael eu hyrwyddo a'u diogelu wrth **weithio mewn partneriaeth**. Mae'r Awdurdod yn gweithio gydag arweinwyr sefydliadau rhanddeiliaid eraill trwy **Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus** Conwy a Sir Ddinbych a sefydlwyd fis Ebrill 2016. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi datblygu Asesiad Lles i werthuso barn, tueddiadau demograffig ac anghenion cymunedau yn y dyfodol a bydd Cynllun Lles mewn partneriaeth yn cael ei gyhoeddi erbyn 2018. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a ffurfio Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus statudol yn annog mwy o gydweithio ac yn gofyn am ddatblygu dull ar y cyd i lywodraethu ac ar gyfer trefniadau craffu. Ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Partneriaethau Sir Ddinbych a Phwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau Conwy yn craffu ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae gwerthusiad dewisiadau ar y posibilrwydd o gael pwyllgor craffu ar y cyd yn cael ei gyflwyno i Aelodau ei ystyried yn ystod haf 2018/19. Mae yna hefyd **Fwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol** sy'n ceisio helpu ei aelodau gynyddu'r lefel gwasanaeth y gellir ei gyflawni o'r adnoddau sydd ar gael. Mae'r Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol yn gweithio gyda'i gilydd i hyrwyddo manteision hunan-gymorth, perchnogaeth gymunedol o gyfleusterau a darparu gwasanaethau gan gyrrff cymunedol a gwirfoddol i bobl leol. Mae'r bwrdd hefyd yn rhannu profiadau ac arfer da wrth wneud arbedion a darparu gwasanaethau mewn ffordd wahanol.
- K) Mae Uwch Reolwyr ac Aelodau'n cynrychioli'r Awdurdod mewn amryw o Fyrddau gwaith ar y cyd. Rhai o'r cydweithwyr allweddol yw, **Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, y Bartneriaeth Gofal Cymdeithasol Ranbarthol, y Prosiect Gwastraff Gweddillol Rhanbarthol, y cynllun gwastraff bwyd isranbarthol, Gwasanaeth Rhanbarthol i Gynllunio Rhag Argyfwng Cynghorau Gogledd Cymru a'r sefydlu Gwasanaeth Effeithlonrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE)**. Mae grŵp ffioedd rhanbarthol ar gyfer pennu ffioedd yn y sector Cartrefi Preswyl a Nyrsio ac mae contract gofal cartref rhanbarthol i sicrhau mwy o effeithlonrwydd o ran caffael pecynnau gofal ar gyfer plant ac oedolion. Rhestrir trosolwg o'r cynlluniau gwaith ar y cyd

hyn yn Atodiad A. Mae'r Awdurdod hefyd yn darparu gwasanaethau ar ran Awdurdodau Lleol eraill e.e. gwasanaethau cyfreithiol, cymorth ymchwil a gwasanaethau cyfieithu Cymraeg a Saesneg.

- L) Mae'r holl gynlluniau cydweithio wedi'u rhestru yn Adroddiad Blynyddol a gyhoeddir bob blwyddyn. Mae gan yr Awdurdod gronfa ddata gynhwysfawr a chategorïau clir ar gyfer y gwahanol fathau a lefelau o waith partneriaeth ar draws yr holl feysydd gwasanaeth, a chofnodir y buddion ar gyfer pob prosiect a wneir ar y cyd. Mae gan yr Awdurdod Ganllawiau Gweithredu ar y Cyd y mae'n rhaid cyfeirio atynt wrth gyflwyno newid sylweddol i'r gwasanaeth. Mae'r canllawiau hyn yn cysylltu'n uniongyrchol i Fframwaith Rheoli Prosiectau'r Awdurdod ac yn sicrhau fod newidiadau yn cael eu gwneud i'r monitro a graddau'r craffu gan aelodau mewn trefniadau cydweithio i gryfhau llywodraethu. Cyflwynwyd trosolwg o berfformiad gweithwyr ar y cyd allweddol i'r Uwch Dîm Rheoli, sy'n adolygu a chanfod pa waith ar y cyd y dylid ei osod ar raglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu mwyaf perthnasol.

B.2 Adolygu Effeithiolrwydd

- A) Mae gan yr Awdurdod dulliau clir o gyfathrebu a phrosesau ymgysylltu er mwyn ymgysylltu'n effeithiol gyda dinasyddion yn ogystal â rhanddeiliaid sefydliadol. Rhaid i benderfyniadau allweddol adlewyrchu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chael eu cefnogi gan Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb. Yn 2017/18 bu ymgais allweddol drwy'r adolygiadau perfformiad gwasanaeth i wella cysondeb a cydymffurfedd gyda'r gofyniad Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb. Mae hwn yn parhau i fod yn Risg Corfforaethol i sicrhau y caiff cydymffurfedd ei fonitro. Mae'n bwysig bod yna adolygiad o bryd i'w gilydd o drefniadau a thechnegau ymgysylltu i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn briodol ac mae'r adolygiad o Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu 2017/18 yn sicrhau ein bod yn gweithredu arferion gorau ac yn adlewyrchu cyfeiriad llywodraeth leol yn y dyfodol a'r angen i gefnogi newid ymddygiad cymunedol a gwydnwch cynyddol.
- B) Mae **ffrwd waith Gwasanaethau Dinasyddion** yn rhan o'r Rhaglen Foderneiddio i wella'r gwaith o gydlyn trefniadau cyfredol ac i weithredu'r holl argymhellion sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid a wnaed gan ein rheoleiddwyr. Mae Gwasanaeth yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau a'r Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau wedi derbyn achrediad Safon Rhagoriaeth Cwsmeriaid am y seithfed flwyddyn yn olynol.
- C) Mae'r Awdurdod yn edrych i mewn i dechnoleg er mwyn cynyddu ymgysylltiad a chyfathrebu. Mae symud arwyddocaol wedi bod i gyflwyno rhagor o wasanaethau ar-lein a gwella ein ymagwedd tuag at gyfryngau cymdeithasol. Mae'r awdurdod hefyd yn defnyddio fideos fel cyfrwng i rannu gwybodaeth ac yn datblygu canllaw steil i sicrhau bod cynlluniau strategol allweddol yn cael eu cyhoeddi mewn fformat mwy hygyrch. Yn ystod 2018/19, nod yr awdurdod yw gwella hygyrchedd a thryloywder i ddinasyddion sy'n fyddar, neu sydd â nam gweld neu glywed.
- D) Cyhoeddir Adroddiad Cwynion a Chanmoliaethau pob blwyddyn sy'n crynhoi nifer y cwynion a chanmoliaethau a dderbyniwyd ac yn dadansoddi'r gwersi a ellir eu dysgu yn sgil y math yma o adborth.

B3 Casgliad yr Hunanasesiad

Mae gan yr Awdurdod brosesau da er mwyn ymgysylltu â phobl leol, os ydynt yn dymuno cymryd rhan, ac rydym yn gweithio i sicrhau fod ein llais a'r modd y cyflwynir gwybodaeth yn fwy hygyrch, er mwyn annog rhagor i gymryd rhan yn yr ymgysylltu â gynigir. Mae'r Cynllun Corfforaethol newydd yn cyflwyno her arwyddocaol yn ein dull ymgysylltu er mwyn annog rhagor o berchnogaeth gymunedol a chael ei harwain fwy gan y gymuned. Rydym hefyd yn ymwybodol, gan fod pob sefydliad cyhoeddus yn ceisio cryfhau eu hymgysylltu, fod perygl o orlwytho'r gymuned ac ailadrodd cwestiynau. Rydym felly eisiau rhannu'r adborth a dderbynnir ac ystyried a oes gwybodaeth berthnasol wedi'i chasglu, cyn gofyn yr un cwestiwn ddwywaith i gymunedau, mewn cyd-destun gwahanol yn unig. Mae hefyd angen i ni wneud rhagor i werthuso a yw ein dull presennol yn gweithio a ble y gallwn ni wneud gwelliannau. Mae cynyddu lefel ac amrywiaeth ymgysylltu â'r gymuned mewn prosesau ymgysylltu yn her allweddol. Mae'r polisïau a'r prosesau rydym wedi eu rhoi ar waith yn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r

Dyfodol (Cymru) 2015, drwy annog ymgysylltu â'r gymuned fel y gallwn ni ddysgu o 'brofiad bywyd' pobl ac atal materion a nodwyd rhag codi eto. Mae gwella ymgysylltu â'r gymuned yn fodd allweddol o weithio ar y cyd, i wrando a newid lle mae cyfleoedd am well integreiddiad ac i fynd i'r afael a materion a nodwyd er mwyn eu hatal yn y tymor hirach.

B4 Argymhellion ar gyfer Gwella

A3 Cwblhau'r adolygiad o'r Siarter Cwsmeriaid.

A4 Cyflwyno cynllun gweithredu er mwyn gwella mynediad ar gyfer pobl sy'n Fyddar, neu sydd â nam ar eu golwg neu eu clyw.

Egwyddor C. Diffinio canlyniadau o ran buddion economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol cynaliadwy

Mae'r natur tymor hir ac effaith llawer o gyfrifoldebau'r sector cyhoeddus yn golygu y dylai ddiffinio a chynllunio canlyniadau ac y dylai'r rhain fod yn gynaliadwy. Dylai'r corff llywodraethu sicrhau bod ei benderfyniadau yn ymestyn pwrpas yr endid ymhellach, cyfrannu at fuddion a'r canlyniadau a fwriadwyd, a pharhau o fewn terfynau'r awdurdod a'i adnoddau. Mae mewnbwn oddi wrth bob grŵp o randdeiliaid, gan gynnwys dinasyddion, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid sefydliadol yn hanfodol i lwyddiant y broses hon ac i gydbwysu galwadau sy'n cystadlu wrth bennu blaenoriaethau ar gyfer yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael.

C1 Trefniadau Presennol

- A) Mae Cynllun Corfforaethol 2017-2022 yn seiliedig ar 8 canlyniad sy'n canolbwyntio ar y dinesydd sy'n adlewyrchu dyheadau economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol sy'n diffinio'r egwyddor cynaliadwyedd. Mae'r 8 canlyniad wedi eu halinio i 7 canlyniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ffurfiwyd Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus ym mis Ebrill 2016 a chwblhawyd 'Asesiad Lles' i adolygu barn y gymuned a gwybodaeth ddemograffig sy'n cefnogi'r 7 nod lles. Hysbysodd yr asesiad ddatblygiad Cynllun Corfforaethol 2017-2022 a datblygiad Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a gymeradwywyd ym mis Ebrill 2018. Daeth y Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf i ben ym mis Mawrth 2018. Bydd cronfa waddol ar gael am un flwyddyn a bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei oruchwylio.
- B) Mae'r Awdurdod yn aelod o nifer o **Bartneriaethau Strategol** eraill. Mae **Grŵp Gweithredu Lleol Conwy** yn gweithio i weithredu Strategaeth Datblygu Lleol 2014 – 2020. Daeth **Partneriaeth Economaidd Conwy** i ben ac mae Bwrdd Twf Conwy newydd wrthi'n cael ei sefydlu i adlewyrchu gwaith Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Cyhoeddwyd Strategaeth Twf Economaidd Conwy ym mis Awst 2017. Mae'r strategaeth hon yn cadw golwg ar gyfres o strategaethau economaidd, gan gynnwys y Strategaeth Adfywio Economaidd Sirol, Cyrchfan Conwy, Strategaeth Ddigiwyddiadau a Chynllun Gweithredu Mentrau Cymdeithasol.
- C) Mae **Partneriaeth Pobl** Conwy yn canolbwyntio ar les ac mae blaenoriaethau'r bartneriaeth yn unol â'r 8 canlyniad dinasyddion. Mae yna hefyd **Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol** (rhanbarthol ac isranbarthol gyda Sir Ddinbych) a hefyd **Byrddau Diogelu Lleol** rhanbarthol ac isranbarthol (gyda Sir Ddinbych). Mae'r Bartneriaeth Strategol Tai yn cefnogi gweithrediad Strategaeth Tai Conwy a'r nod yw sicrhau cymeradwyaeth iddo yn haf 2018.
- D) Mae trefniadau llywodraethu ac effeithiolrwydd y partneriaethau hyn yn cael eu hadolygu drwy adroddiadau cynnydd blynyddol a gyflwynir i'r pwyllgor craffu perthnasol yn ôl y maes gwasanaeth maent yn ei gefnogi.
- E) Mae'r Awdurdod yn cyhoeddi **Gweledigaeth** a **Chynllun Corfforaethol** pum mlynedd sy'n canolbwyntio ar brif flaenoriaethau'r Awdurdod ar gyfer gwella. Datblygwyd Cynllun Corfforaethol 2017-2022 newydd drwy ymgysylltu â'r gymuned, a chafodd y fersiwn ddrafft ei

chymeradwyo ym mis Mawrth 2017. Cymeradwywyd fersiwn derfynol ym mis Hydref 2017 gan y weinyddiaeth newydd a etholwyd. Bydd y Cynllun Corfforaethol yn destun adolygiad ac ymgynghoriad bob blwyddyn ac gofynnir am farn rhanddeiliaid gan gynnwys y cyhoedd, busnesau, Cynghorau Tref, Cynghorwyr Sir, staff, grwpiau gwirfoddol, grwpiau cymunedol a Chyngor Ieuenctid Conwy.

- F) Cafodd gwahoddiadau i rannu barn i ffurfio proses ymgysylltu ar gyfer y Cynllun Corfforaethol a Chynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eu cwblhau ar y cyd. Hysbysebwyd cyfleodd i fynegi barn mewn erthygl ym Mwletin Conwy, ar gyfryngau cymdeithasol, mewn hysbyseb ar dudalen flaen gwefan yr Awdurdod, a thrwy ddatganiad i'r wasg a dderbyniodd sylw da yn y papur newydd lleol. Gallai rhanddeiliaid gyflwyno eu barn ar-lein, trwy e-bost, llythyr neu dros y ffôn neu drwy drafod gyda staff. Cynhaliwyd gweithdai i staff ac aelodau etholedig a chafwyd trafodaethau gyda nifer o fforymau cymunedol. Cynhaliwyd gweithdai a thrafodaeth hefyd gyda Chynghorau Tref a Chymuned, ac anfonwyd negeseuon e-bost at aelodau'r fforwm busnes a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy (CGGC). Dadansoddwyd yr adborth o ymgynghoriadau eraill yr oedd yr Awdurdod wedi'u cynnal yn ystod 2016/17 hefyd.
- G) Mae'r Cynllun Corfforaethol yn darparu fframwaith sy'n helpu siapia cynlluniau cyllideb, ac y gall yr Awdurdod asesu yn ei erbyn a rhoi cyfrif i'r gymuned ar lefel y cynnydd a wnaed yn erbyn targedau a osodwyd, a'u hysbysu am y meysydd i'w gwella ymhellach. Caiff y **Strategaeth Ariannol Tymor Canolig** hefyd ei hadolygu bob blwyddyn, yn unol â blaenoriaethau corfforaethol, a chafodd ei dderbyn gan y Cyngor ym mis Mawrth 2018. Mae gan yr Awdurdod **Fframwaith Cynllunio Busnes** sy'n amlinellu'r broses a'r meini prawf ar gyfer achosion busnes ar gyfer refeniw a buddsoddiad cyfalaf, a sut bydd y gwariant yn cael ei fonitro.
- K) Mae pob maes gwasanaeth yn cynhyrchu cynllun gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau sy'n adlewyrchu sut mae'r gwasanaeth yn cyfrannu at y blaenoriaethau corfforaethol. Mae'r cynlluniau gwasanaeth yn cynnwys mesurau i ddangos sut y bydd camau gweithredu yn gwneud gwahaniaeth a chaiff cofrestrau risg gwasanaeth a logiau materion eu cynhyrchu i asesu unrhyw rwystr i weithredu. Caiff y cynlluniau gwasanaeth eu hadolygu bob blwyddyn a chaiff Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth (APG) eu cynnal bob chwe mis. Mae adroddiad perfformiad corfforaethol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau a'r Cabinet ar ôl pob rownd o APG yn manylu ar y camau gweithredu a mesur cynnydd. Cefnogir hyn gan adroddiad ar y prif negeseuon o'r APG ac o fis Mehefin 2018 ymlaen, bydd hefyd yn cael ei gyflwyno naill ochr i adroddiad asedau integredig, yn rhoi manylion am reolaeth o asedau ariannol, ystâd ac AD yr awdurdod.

C2 Adolygu Effeithiolrwydd

Mae'r Awdurdod wedi cael cynlluniau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau tymor hir mewn lle am nifer o flynyddoedd, ac mae'r diwylliant o gynllunio yn seiliedig ar ganlyniadau yn rhan annatod o gynlluniau partneriaeth, y Cynllun Corfforaethol ac ar bob lefel yn y sefydliad, gan gynnwys cynlluniau gwasanaeth. Mae'r holl gynlluniau strategol allweddol wedi'u halinio â'r canlyniad dinesydd perthnasol a rhaid i'r holl adroddiadau a gyflwynir i'w cymeradwyo'n ddemocrataidd ddangos sut maent yn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac at ba un o ganlyniadau'r Cynllun Corfforaethol y maent yn cyfrannu.

Rydym ni'n adolygu cynlluniau strategol yn rheolaidd, a chafodd y canlynol hefyd eu cymeradwyo gan y Cabinet / Cyngor yn 2017/18:

- Strategaeth y Gymraeg
- Strategaeth Resymoli Adeiladu Addysg Amgen
- Strategaeth TGCh a Digidol
- Strategaeth Twf Economaidd Conwy
- Strategaeth Gaffael Gorfforaethol Conwy
- Adolygiad o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Cynllun Corfforaethol 2017-2022

- Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych 2018 - 2023

C3 Casgliad yr Hunanasesiad

Mae trefniadau llywodraethu cadarn ar waith ar gyfer blaenoriaethau strategol yr Awdurdod ac mae'r rhain wedi'u seilio ar ganlyniadau am nifer o flynyddoedd. Mae pob cynllun strategol yn cael eu cynhyrchu ar ôl gweithredu prosesau ymgysylltu â'r gymuned ac yn cael eu cefnogi gyda materion rheoli adnoddau. Ceir cysylltiadau cryf rhwng cynllunio strategol ac ariannol. Mae penderfyniadau allweddol yn adlewyrchu'r effaith ar nifer o ffactorau, gan gynnwys cynaliadwyedd, ac mae'r Awdurdod wedi dechrau ymgorffori Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o fewn diwylliant y sefydliad drwy sicrhau bod yn ddeddf wedi cael ei hystyried ym mhob cynllun allweddol a phob penderfyniad allweddol a gyflwynir i ddemocratiaeth.

C4 Argymhellion ar gyfer Gwella

Nid oes unrhyw argymhelliad ar gyfer gwella.

Egwyddor D. Penderfynu ar yr ymyriadau angenrheidiol i optimeiddio cyflawniad y canlyniadau a fwriadwyd

Mae'r sector cyhoeddus yn cyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd trwy ddarparu cymysgedd o ymyriadau cyfreithiol, rheoleiddiol, ac ymarferol. Mae penderfynu ar y cymysgedd iawn o ymyriadau yn ddewis strategol hanfodol bwysig y mae'n rhaid i gyrff llywodraethu o endidau sector cyhoeddus wneud er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni y canlyniadau a fwriadwyd ganddynt. Mae'n rhaid i endidau sector cyhoeddus gael mecanweithiau gwneud penderfyniadau cadarn yn eu lle i sicrhau bod eu canlyniadau yn gyraeddadwy mewn ffordd sy'n darparu'r cyfnewidiad gorau rhwng yr adnoddau gwahanol a ddefnyddir ac effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd. Mae angen adolygu'r penderfyniadau a wneir yn barhaus i sicrhau bod cyflawni canlyniadau yn cael ei optimeiddio.

D1 Trefniadau Presennol

- A) Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy **Gyfansoddiad** wedi ei gymeradwyo sy'n nodi sut mae'r Cyngor yn gweithredu, sut mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, a beth yw'r trefnau a ddilynir i sicrhau bod y rhain yn effeithlon, yn eglur ac yn atebol i bobl leol. Mae rhai o'r prosesau hyn yn ofynnol yn ôl y gyfraith, tra bo eraill yn ddewisol i'r Cyngor. Mae'r **Cyfansoddiad**, sydd i'w weld ar wefan yr Awdurdod², yn nodi:
- sut mae'r Awdurdod yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau;
 - y gweithdrefnau sy'n sicrhau bod y drefn o wneud penderfyniadau'n dryloyw ac yn atebol i bobl leol a rhanddeiliaid eraill;
 - swyddogaethau allweddol yr holl aelodau ac uwch swyddogion, gan gynnwys cyfrifoldebau arweiniol at ddibenion llywodraethu corfforaethol yr Arweinydd, y Prif Weithredwr ac uwch swyddogion penodedig eraill;
 - cynllun dirprwyo pwerau er mwyn gwneud penderfyniadau;
 - cyfrifoldebau am adolygu a chytuno ar drefniadau llywodraethu corfforaethol yr Awdurdod;
 - trefniadau ar gyfer sicrhau y caiff ei adolygu a'i ddiweddarau'n barhaus;
 - codau a phrotocolau cysylltiedig.

Caiff y Cyfansoddiad ei ddiweddarau lle bo angen yn unol â newidiadau i ddeddfwriaeth.

- B) Aelodau Etholedig sy'n **cymeradwyo polisiau a gwneud penderfyniadau**, mewn cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd, ac eithrio pan fo materion eithriedig yn cael eu trafod o dan Ddeddf Llywodraeth Leol Atodlen 12A 1972. Caiff cymeradwyaeth ei rhoi gan:
- Y Cyngor, sy'n cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Mae'n cymeradwyo polisiau cyffredinol ac yn pennu'r gyllideb bob blwyddyn. Mae'r Cyngor yn cytuno ar ffurf Pwyllgorau'r Awdurdod (yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 lle bo hynny'n briodol), yn penodi Arweinydd y Cyngor (sydd yn ei dro yn penodi Cabinet y Cyngor) ac yn cynnal holl swyddogaethau eraill a bennwyd iddo o dan y Cyfansoddiad (sy'n cynnwys unrhyw swyddogaeth statudol sy'n gyfrifoldeb y Cyngor);
 - Y Cabinet, sy'n cyfarfod o leiaf unwaith y mis, sy'n cymeradwyo pob penderfyniad nad ydynt yn cael eu penderfynu dan bwyntiau (i) (iii) neu (iv) y paragraff hwn (B), a
 - Y pwyllgorau rheoleiddio (y Pwyllgor Cynllunio, y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a'r Pwyllgor Trwyddedu a Rheoli);
 - Cynllun dirprwyo'r Cyngor i bwyllgorau a swyddogion fel y nodir yn y Cyfansoddiad.

Caiff swyddogaethau a chyfrifoldebau pob Aelod o'r Cabinet eu cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod. Mae'r Cabinet hefyd yn cyfarfod yn anffurfiol (**Cyfarfod Anffurfiol o'r Cabinet**) i dderbyn adroddiadau briffio ac i drafod materion sy'n dod i'r amlwg ond ni wneir unrhyw benderfyniad yng Nghyfarfodydd Anffurfiol y Cabinet. Mae pedwar **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu: Cyllid ac Adnoddau** (wedi'i gadeirio gan arweinydd y blaidd wleidyddol fwyaf heb ei chynrychioli ar y pwyllgor gwaith), **Economi a Lle, Addysg a Sgiliau a Gofal Cymdeithasol ac Iechyd** (sy'n

² <http://modgovcym.conwy.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CIId=487&MIId=3185&Ver=4&Info=1>

cyfarfod o leiaf unwaith bob 6 wythnos). Dechreuodd y Pwyllgorau Craffu hyn ym mis Mai 2017 gan gymryd lle'r Prif Bwyllgor Trosolwg a Chraffu a'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu Partneriaethau, Cymunedau a Chwsmeriaid. Eu swyddogaeth yw adolygu, craffu a dal i gyfrif perfformiad y Cabinet, pwyllgorau gwneud penderfyniadau a swyddogion. Mae gan y Pwyllgorau Craffu broses "Galw i Mewn" ar gyfer penderfyniadau sydd wedi'u gwneud ond nad ydynt wedi'u gweithredu ac mae'r drefn honno wedi'i hymgorffori yn y Cyfansoddiad er mwyn ystyried a yw'r penderfyniadau hynny'n briodol. Cafodd 2 benderfyniad eu galw i mewn yn 2017/18. Derbyniwyd un argymhelliad diwygiedig, a gwrthodwyd un argymhelliad diwygiedig gan y Cabinet. Yn ogystal, mae gan yr Awdurdod dri phwyllgor rheoleiddio: **Y Pwyllgor Cynllunio, y Pwyllgor Trwyddedu a Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu**. Mae'r **Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu** yn annibynnol ar swyddogaethau gweithredol a chraffu a'i bwrpas yw darparu sicrwydd annibynnol o ddigonoldeb y fframwaith rheoli mewnol gan gynnwys llywodraethu a rheoli risg, er mwyn darparu craffu annibynnol ar berfformiad ariannol ac anariannol yr Awdurdod a chadw trosolwg ar y broses adrodd ariannol. Cyhoeddwyd hysbysiad am ddau Aelod Lleyg ym Mwletin mis Rhagfyr 2016 a chafodd ei hysbysebu ym mis Ebrill 2017. Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru), penodwyd dau aelod lleyg gan yr Awdurdod i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ym mis Gorffennaf 2017 dros gyfnod y weinyddiaeth. Mae yna hefyd **Bwyllgor Safonau** (sy'n cynnwys aelodau lleyg), sy'n ceisio hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad gan Aelodau Etholedig. Mae'r pwyllgorau hyn yn cwrdd yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn ac mae pob dyddiad cyfarfod yn cael eu cyhoeddi ar amserlen flynyddol o gyfarfodydd sydd ar gael ar wefan yr Awdurdod.

Yn ogystal, mae gan yr Awdurdod **Bwyllgor Gwasanaethau Democratiaidd**. Swyddogaethau'r pwyllgor yw sicrhau bod cefnogaeth ddigonol ar gyfer cyfarfodydd y Cyngor a'i Bwyllgorau; i hyrwyddo swyddogaeth Trosolwg a Chraffu; darparu cymorth a chynngor i Gynghorwyr unigol wrth ymgymryd â'u dyletswyddau fel aelodau a darparu datblygiad a hyfforddiant i'r Aelodau. Gall y Pwyllgor gynhyrchu adroddiadau a gwneud argymhellion i'r Cyngor mewn perthynas â'r ddarpariaeth honno. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod 4 gwaith y flwyddyn.

- C) Mae'r **Grŵp Adolygu Adroddiadau** (GAA) yn cynnwys y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Strategol, Pennaeth y Gyfraith a Llywodraethu, a'r Arweinydd. Maent yn cyfarfod ddwywaith y mis i adolygu'r adroddiadau a drefnwyd i fynd i'r Cabinet, ac ystyried cynlluniau gwaith i'r dyfodol y swyddogaethau Craffu i lunio barn o ddatblygu patrymau gwaith a nodi unrhyw fater o ran capasiti a allai godi. Hefyd, mae'r Grŵp yn sicrhau synergedd rhwng cynlluniau gwaith y Cyngor, y Cabinet, y swyddogaeth Graffu a'r swyddogaeth Reoli Strategol. Oni bai eu bod yn eithriedig, caiff yr holl adroddiadau a ystyrir gan y Cyngor, y Cabinet a'r Pwyllgorau, a chofnodion o'r penderfyniadau a gymerir, eu darparu ar wefan yr Awdurdod.
- D) Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Strategol yn atebol am sicrhau bod blaenoriaethau'r Cyngor yn cael eu cyflawni, a bod perfformiad yn erbyn targedau allweddol yn cael ei fonitro'n rheolaidd trwy'r fframwaith rheoli perfformiad ac yn cael ei adrodd i'r Aelodau. Mae gan y Prif Swyddog Gweithredol amserlen o gyfarfodydd rheolaidd gyda'r Arweinydd a chynhelir cyfarfodydd rheolaidd rhwng uwch reolwyr a'r Cabinet drwy gyfarfodydd Anffurfiol y Cabinet. Cynhelir cyfarfodydd Aelodau / Swyddogion rheolaidd mewn perthynas â materion penodol a diweddariadau ar gynnydd yn gyffredinol. Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Strategol, ynghyd â'r Pennaeth Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau, Pennaeth Adnoddau Dynol Corfforaethol a'r Swyddog Monitro yn cyfarfod ddwywaith y mis fel y **Tîm Arweinyddiaeth Strategol** (TAS). Mae uwch reolwyr yr Awdurdod yn cyfarfod bob mis fel yr **Uwch Dîm Rheoli** (UDRh), sy'n cynnwys y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Strategol, pob Pennaeth Gwasanaeth a swyddogion perthnasol sy'n adrodd o bob rhan o'r Awdurdod. Mae **Fforwm Rheolwyr** yn cyfarfod bob chwarter blwyddyn i rannu negeseuon a cheisio cysondeb a thrafod datblygiadau rhwng Cyfarwyddwyr a rheolwyr yn y sefydliad.
- E) Mae trefniadau cytunedig yn galluogi'r Awdurdod i fodloni gofynion statudol o ran **diogelu plant a diogelu oedolion diamddiffyn**. Adolygwyd, diweddarwyd a chymeradwywyd y polisi Diogelu ym mis Ebrill 2017. Fis Medi 2016 cyhoeddwyd adroddiad archwilio mewnol ar Ddiogelu Corfforaethol a ddaeth i'r casgliad fod sicrwydd cyfyngedig. Arweiniodd archwiliad dilynol ar Ddiogelu Corfforaethol a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd at Sicrwydd Cyfyngedig yn sgil oedi wrth ddisodli aelodau allweddol yr Uned Ddiogelu a darparu hyfforddiant diogelu gorffodol

Rhoddodd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ystyriaeth i adroddiad drafft ym mis Hydref 2017 a chafodd ei gydnabod yn faes pryder sylweddol. O ganlyniad, mae'r Prif Weithredwr bellach yn cadeirio'r Panel Diogelu Corfforaethol gan ddangos arweinyddiaeth gorfforaethol a sicrhau sylw strategol digonol ar draws yr Awdurdod.

- F) Yn dilyn ymadawiad y Rheolwr Diogelu ym mis Mehefin 2017, mae'r gwasanaeth wedi cael ei ailstrwythuro a phenodwyd Rheolwr Gwasanaeth Diogelu a dechreuodd yn y swydd ym mis Ionawr 2018. Mae'r Swyddog ar hyn o bryd yn gweithio i gyflwyno argymhellion yn deillio o'r archwiliad dilynol gyda chymorth aelodau o'r Panel Diogelu Corfforaethol a'r Arweinwyr Diogelu Dynodedig. Mae ail archwiliad dilynol wedi ei gynllunio ar gyfer dechrau 2018/19 ac mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cynllunio adolygiad lefel uchel o drefniadau Diogelu Corfforaethol gan adeiladu ar astudiaeth a gynhaliwyd yn flaenorol.
- G) Mae trefnau recriwtio hefyd yn gymorth i sicrhau bod gwiriadau'n cael eu cynnal ynglŷn â gweithwyr yr Awdurdod sy'n gweithio gyda phlant neu oedolion diamddiffyn er mwyn sicrhau eu bod yn addas i wneud hynny. Fis Rhagfyr 2016 sefydlodd yr Awdurdod **Grŵp Effeithiolrwydd a Safonau Ysgolion** i adolygu perfformiad ysgolion. Mae'r grŵp, a gadeirir gan y Prif Swyddog Addysg, yn cynnwys aelodau etholedig, Cyfarwyddwr Strategol Gofal Cymdeithasol ac Addysg a chynrychiolydd o GwE. Mae'n cyfarfod gyda thimau uwch reoli ysgolion cynradd ac uwchradd yn eu tro i adolygu a chefnogi gwelliannau i ysgolion. Bydd ysgolion uwchradd yn cael eu hadolygu'n flynyddol a bydd ysgolion cynradd yn cael eu hadolygu bob tair blynedd. Mae'r drefn yn unol â chategorïau'r ysgolion.
- H) Yn unol â'i gyfrifoldebau statudol, mae'r Awdurdod wedi sefydlu **Polisi Iechyd a Diogelwch** a gweithdrefnau cysylltiedig. Mae Grŵp Arweinyddiaeth Iechyd a Diogelwch sy'n darparu trosolwg lefel uchel o'n cydymffurfiaeth â rheolau, rheoliadau ac egwyddorion Iechyd a Diogelwch er mwyn helpu i wella iechyd, diogelwch a lles. Cynhyrchir a chyflwynir adroddiad blynyddol ar Iechyd a Diogelwch i'r Uwch Dîm Rheoli, Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Hyrwyddo Iechyd a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau.

D2 Adolygu Effeithiolrwydd

- A) Mae gan yr Awdurdod gyfrifoldeb dros gynnal, o leiaf yn flynyddol, adolygiad o effeithiolrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y system rheolaeth fewnol. Yn rhan o hyn, bydd y Cyfansoddiad yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan y Swyddog Monitro. Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai yw'r Uwch Swyddog Cyfrifol mewn perthynas â Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio.
- B) Mae'r Awdurdod yn cael ei herio ar yr hunanasesiad ar effeithiolrwydd rheoli risg trwy gyfarfodydd dwywaith y flwyddyn gyda Swyddfa Archwilio Cymru. O 2018 ymlaen bydd rhain yn symud i fod yn gyfarfodydd blynyddol. Gofynnir am sicrwydd hefyd gan Benaethiaid Gwasanaeth ynglŷn â rheoli risg ac ynglŷn â'r amgylcheddau rheoli y maent yn gyfrifol amdanynt.
- C) Mae adroddiadau rheolaidd ar ddangosyddion perfformiad allweddol. Mae meysydd sy'n tangyflawni yn cynnig tystiolaeth ynghylch y camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â/ rheoli'r dirywiad. Mae gan yr Awdurdod gylchoedd cynllunio ac ariannol clir wedi'u halinio a chyhoeddir rhaglen gwaith i'r dyfodol o'r holl gyfarfodydd pwyllgor a dyddiadau ar gyfer ystyried a chymeradwyo penderfyniadau. Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig yn integreiddio ac yn cydbwysu blaenoriaethau allweddol gyda fforddiadwyedd a phwysau ariannol eraill. Rhoddir tystiolaeth o bob penderfyniad allweddol a gyflwynir i'w gymeradwyo'n ddemocrataidd i ddangos sut maent yn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, canlyniadau blaenoriaeth corfforaethol a pha lefel o ymgysylltu sydd wedi digwydd a pha lefel o risg sy'n gysylltiedig â'r penderfyniad. Mae'r blaenoriaethau corfforaethol yn cael eu cefnogi gan ddangosyddion perfformiad perthnasol ac mae gan bob gwasanaeth gynllun a mesurau gwasanaeth sy'n cael eu hadolygu gan yr Aelodau bob chwe mis.

D3 Casgliad yr Hunanasesiad

Mae'r Awdurdod yn fodlon bod swyddogaethau a dyletswyddau wedi'u diffinio'n glir er mwyn galluogi aelodau a swyddogion i gydweithio er mwyn cyflawni'r un diben, ac i benderfynu ar yr ymyriadau sydd eu hangen i ddiwallu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a chyflawni'r canlyniadau corfforaethol.

D4 Argymhellion ar gyfer Gwella

R5 Parhau i weithredu'r argymhellion yn sgil yr archwiliad mewnol o ddiogelu corfforaethol.

Egwyddor E. Datblygu gallu yr endid, gan gynnwys gallu ei arweinyddiaeth a'r unigolion oddi mewn iddo

Mae endidau sector cyhoeddus angen strwythurau ac arweinyddiaeth briodol, yn ogystal â phobl â'r sgiliau, cymwysterau a'r meddylfryd priodol i weithredu'n effeithlon ac yn effeithiol a chyflawni'r canlyniadau a fwriedir ar eu cyfer o fewn y cyfnodau a bennir. Mae'n rhaid i'r corff llywodraethu sicrhau bod ganddo'r gallu i gyflawni ei fandad ei hun ac i wneud yn siŵr bod polisïau ar waith i sicrhau bod gan reolaeth endid y gallu gweithredol ar gyfer yr endid yn ei gyfanrwydd. Oherwydd bydd unigolion a'r amgylchedd lle mae endid yn gweithredu yn newid dros amser, bydd angen parhaus i ddatblygu gallu'r endid yn ogystal â sgiliau a phrofiad arweinyddiaeth staff unigol.

E1 Trefniadau Presennol

- A) Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy **Strategaeth Datblygu'r Aelodau 2017-2022**. Mae'r strategaeth yn anelu at ddarparu aelodau etholedig gyda mynediad at lefelau priodol o wybodaeth, sgiliau a chyfleoedd datblygu sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu rolau. Trefnwyd **rhaglen gyflwyno i'r Aelodau** ar ôl etholiadau mis Mai er mwyn sicrhau bod yr holl Aelodau newydd a etholwyd yn ymwybodol o'u swyddogaeth a'u cyfrifoldebau, ac o ddull gweithredu'r Awdurdod. Mae rhaglen barhaus o Ddatblygu Aelodau ar waith sy'n cael ei hadolygu'n flynyddol gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Roedd 17/18 yn canolbwyntio ar ddarparu'r rhaglen gyflwyno, a oedd wedi'i hanelu at Aelodau newydd eu hethol ac hefyd i gynnig hyfforddiant gloywi gwerthfawr i Aelodau oedd wedi eu hail-ethol. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant gorfodol ar gyfer y Cod Ymddygiad, Cynllunio, Trwyddedu, Archwilio, Rhianta Corfforaethol a Diogelu, yn ogystal â darparu gwybodaeth bwysig ar swyddogaethau a chyfrifoldebau gwasanaethau. Darparwyd hyfforddiant i'r Aelodau hynny sy'n cyflawni swyddogaeth Graffu er mwyn darparu'r sgiliau cywir iddynt i herio'n effeithiol. Ar gyfer yr Aelodau Gweithredol, mae rhaglen o anghenion hyfforddiant eraill, e.e. sgiliau arweinyddiaeth, hyfforddiant cyfryngau, ac ati i'w helpu mewn swyddogaethau mwy strategol. Mae Fforwm Datblygu Aelodau a Gwybodaeth misol yn parhau, ac mae'n gyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am newidiadau sydd ar y gweill.
- B) Cymeradwywyd y **Strategaeth Adnoddau Dynol (AD)** Corfforaethol gan y Cabinet ym mis Rhagfyr 2013 a threfnwyd iddo gael ei adolygu. Mae'n ofynnol i'r awdurdod i wella ei berfformiad yn barhaus yn erbyn cefndir o ddarpariaeth sylweddol is yn y gyllideb. Er mwyn gwneud hyn yn llwyddiannus, fel busnes sy'n ddwys o ran pobl, mae angen i ni roi sylw arbennig i'n staff a'n harferion busnes a gwaith.
- C) Mae'r Strategaeth AD yn amlinellu ymagwedd yr awdurdod at ddarparu adnoddau, arweinyddiaeth, rheolaeth, datblygiad, perfformiad, diwylliant a gwobrwyo gweithwyr. Mae hefyd yn helpu i ddarparu eglurder i reolwyr ac unigolion am yr hyn a ddisgwyllir ganddynt. Nid yw hon, fodd bynnag, yn strategaeth ar gyfer ein gweithwyr proffesiynol Adnoddau Dynol, mae'n strategaeth sy'n eiddo ar y cyd i'r Cyngor, gan y Cynghorwyr Sir i weithwyr sy'n darparu gwasanaeth rheng flaen. Mae amcanion corfforaethol a gwasanaeth yn cael eu rheoli yn yr un modd. Y bwriad yw cael strategaeth hyblyg sy'n adlewyrchu ein hanghenion presennol ac ar gyfer y dyfodol.
- D) Mae darparu ein Strategaeth Adnoddau Dynol yn ymwneud â sicrhau gall yr awdurdod barhau i ddarparu gwasanaethau sy'n fforddiadwy tra'n creu diwylliant sefydliadol o rymuso, menter, her a chymorth arloesi, gan osod yr Awdurdod mewn sefyllfa i ddod yn 'Gyflogwr o Ddewis' a sicrhau bod pobl yn anelu tuag at weithio i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy oherwydd ei enw da fel cyflogwr lleol. Mae cyfres o **bolisïau Adnoddau Dynol** sy'n cynnal amrywiaeth o agweddau ar reoli staff, pob un ohonynt yn cael eu hadolygu yn rheolaidd ac yn hygyrch drwy fewnwyd y cyngor.

- E) Bydd pob aelod o staff yn cael contract, swydd-ddisgrifiad ac yn cael **adolygiad datblygu perfformiad (PDR)** unwaith y flwyddyn. Mae'r PDR yn seiliedig ar fframwaith cymhwysedd a gafodd ei gyflwyno ar draws yr awdurdod yn 2013 a'i diweddarau yn 2016. Mae'r broses hon hefyd yn cynnwys PDR grŵp ar gyfer grwpiau staff penodol lle y tybir bod hynny'n briodol. Fodd bynnag, gall staff ofyn am Adolygiadau Datblygu Perfformiad unigol hefyd. Gall yr holl staff gael mynediad at **Gynllun Hyfforddiant Corfforaethol** sy'n cynnwys amrywiaeth o gyrsiau i gefnogi datblygiad personol. Mae'r broses hon yn cael ei defnyddio i gefnogi **cynllunio olyniaeth** gwasanaethau, y gellir ei gweld trwy drosglwyddiad llyfn ar ymddeoliad diweddar nifer o uwch reolwyr a'r gallu i wneud penodiadau mewnol i gymryd eu lle pan fo hynny'n briodol.
- F) Mae gan yr Awdurdod brosesau ar waith i reoli a chefnogi staff nad ydynt yn gallu dod i'r gwaith oherwydd salwch. Adolygwyd y Polisi Absenoldeb Oherwydd Salwch yn 2016 a chafodd ei ddisodli gan **Bolisi Rheoli Absenoldeb** a gyhoeddwyd fis Mehefin 2016. Mae presenoldeb da yn elfen allweddol o'n perfformiad, ac mae'r Awdurdod yn ceisio creu amgylchedd gwaith sy'n hyrwyddo iechyd a lles gweithwyr. Mae'r polisi yn hyrwyddo dull teg, cyson a chefnogol tuag at reoli presenoldeb ac yn annog diwylliant o bresenoldeb da. Mae'r Awdurdod yn cymryd camau rhagweithiol i reoli absenoldebau tymor byr rheolaidd, gan gynnwys cynnal cyfweiliadau dychwelyd i'r gwaith a chadw golwg ar y trothwyon. Fodd bynnag, mae'n rhaid ystyried anghenion gweithwyr sy'n absennol am gyfnodau hirach, sy'n dioddef o afiechydon cronig neu'n anabl, ac mae yna ddarpariaethau i wneud addasiadau rhesymol i ddyletswyddau a'r gweithle er mwyn cynorthwyo gweithwyr i gyflawni lefelau da o bresenoldeb. Mae rheoli presenoldeb wedi'i nodi'n faes is o gymharu ag awdurdodau eraill yng Nghymru ac felly mae'n cael ei fonitro'n agos i nodi gwelliannau. Darperir adroddiadau misol i uwch reolwyr er mwyn eu galluogi i reoli presenoldeb yn eu meysydd gwasanaeth. Mae ymyrraeth gynnar mewn meysydd gyda phroblemau sylweddol yn fuddiol, ac mae swyddog AD cyfnod penodol wedi'i benodi i ddarparu cefnogaeth gyda materion rheoli presenoldeb. Mae'r Awdurdod yn defnyddio cwmni allanol ar gyfer cefnogaeth **iechyd galwedigaethol** (Health Management Ltd) sy'n cynnig sgrinio cyn-gyflogaeth ac atgyfeiriadau. Mae'r Awdurdod hefyd yn darparu cymorth i weithwyr a chynllun buddiannau gweithwyr drwy **Care First**. Gall gweithwyr dderbyn amrywiaeth o gefnogaeth fel cwnsela a gwybodaeth a chyngor am waith a materion personol. Mae Care First hefyd yn darparu **Care First Zest**, sef gwefan ac ap ffôn symudol sy'n cynnig mynediad am ddim i weithwyr ac aelodau etholedig at borth iechyd a lles rhyngweithiol sy'n cynnwys dyddiadur bwyd ac ymarfer corff, rhaglen hyfforddi ymarfer corff personol a gwiriad lles.
- Mae edrych ar ôl eich iechyd a'ch lles yn helpu i gryfhau imiwnedd eich corff a gwella eich lles a'ch gwytnwch personol.
- G) Mae gan yr Awdurdod **gynllun dirprwyo** sy'n diffinio'r eglur y mandad ar gyfer gwneud penderfyniadau o fewn bob lefel yn y sefydliad. Cefnogir hyn gan **Orchmynion Sefydlog a rheoliadau ariannol** sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd.
- H) Mae'r awdurdod ers sawl blwyddyn wedi buddsoddi yn Rhaglen Cymorth i Weithwyr Care First. Mae'r gwasanaeth yn gyfrinachol ac mae pob arbenigwr gwybodaeth Care First wedi cael eu hyfforddi ac yn weithwyr cynghori profiadol sy'n gallu sicrhau bod gwybodaeth gywir yn cael ei darparu yn syth ar ystod eang o faterion sy'n effeithio ar fywyd bob dydd.
- I) Caiff gwybodaeth ei rhaeadru i'r staff drwy'r Briff Tîm, drwy e-bost, drwy'r fewnrwyd a thrwy newyddlen y staff. Ym mis Mawrth 2017 lanswyd gwefan newydd sy'n addas ar gyfer llechi electronig a ffonau clyfar. Gofynnir i'r staff rannu eu syniadau drwy'r Cyngor Staff, Gwella Conwy a'r dudalen 'Dweud eich Dweud' ar y fewnrwyd. Yn ogystal â phapurau Pwyllgorau, bydd yr Aelodau'n cael pecyn Gwybodaeth Aelodau bob pythefnos sy'n trafod gweithgarwch diweddar ar draws yr Awdurdod. Cynhelir cyfarfodydd tîm yn rheolaidd gan yr holl wasanaethau. Er mwyn gwella cyfathrebu islaw lefel y Pennaeth Gwasanaeth, sefydlwyd Fforwm Rheolwyr i gefnogi dull gweithredu mwy gwybodus a chynhwysol ac i hyrwyddo llywodraethu da, cyfathrebu a chydymffurfiaeth ymhlith yr holl staff. Mae rhaglen gwaith i'r dyfodol cyfathrebu wedi'i datblygu i roi trefn ar yr wybodaeth a gyhoeddir a chafodd Strategaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu ei datblygu ym mis Mehefin 2018.

E2 Adolygu Effeithiolrwydd

- A) Cwblhaodd yr Awdurdod werthusiadau perfformiad ar gyfer y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Strategol a chynhaliwyd Adolygiadau Datblygu Perfformiad ar gyfer yr holl Benaethiaid Gwasanaeth hefyd. Mae gan yr Awdurdod Ddatganiad Polisi Tâl Lleol a gymeradwywyd sy'n cael ei adrodd i'r Cyngor yn flynyddol. Mae hyn yn sicrhau bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r angen am atebolrwydd a thryloywder digonol o gwmpas cyflogau uwch reolwyr yn y sector cyhoeddus.
- B) Mae'r polisiau Adnoddau Dynol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, ac yn 17/18 cafodd y polisiau a ganlyn eu hadolygu a'u diweddarau:

Polisi Bwlio
Polisi Rheoli Perfformiad (Gallu)
Polisi Atal Dros Dro
Polisi Disgyblu
Proses Cyfweiliadau Ymadael
Polisi Iechyd Meddwl a Lles
Cwynion
Ymdeoliad ac Ymdeoliad Hyblyg – (wedi'i ymgorffori mewn un Polisi Ymdeoliad)
Polisi Rheoli Presenoldeb
Polisi Camddefnyddio Alcohol a Sylweddau
Polisi'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
Polisi Gwirfoddoli i Weithwyr
Canllawiau Cod Gwisg
Cefnogi Ynadon yn y Gweithle

- C) Golygodd y weinyddiaeth newydd fod 20 o aelodau etholedig newydd wedi eu hethol. Sicrhodd rhaglen gyflwyno aelodau fod pob aelod newydd wedi cael trosolwg o swyddogaethau'r cyngor a'u cyfrifoldebau. Mae dull y sesiynau cyflwyno yn cael ei adolygu i asesu beth aeth yn dda a beth y gellid ei wella, ac mae strategaeth hyfforddiant barhaus ar waith.
- C) Mae gan yr Awdurdod amserlen i ddatblygu a monitro capasiti a gallu aelodau a swyddogion er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol. Mae datblygu ein staff yn un o amcanion y Cynllun Corfforaethol, ac ym mhob PDR annogir staff yn i gynnig eu syniadau ar gyfer arbedion effeithlonrwydd a gwella'r gwasanaeth. Mae canran y staff sydd wedi derbyn Adolygiad Datblygu Perfformiad yn cael ei fonitro'n rheolaidd a'i adrodd i Uwch Reolwyr ac Aelodau.

Blwyddyn	Canran yr Adolygiadau Datblygu Perfformiad
10/11	64.57%
11/12	70.47%
12/13	68.77%
13/14	62.72%
14/15	75.77%
15/16	72.79%
16/17	76.03%
17/18	78%

- D) Mae'r perfformiad o ran Adolygiadau Datblygu Perfformiad yn dangos cynnydd yn ein perfformiad. Mae Adolygiadau Datblygu Perfformiad yn broses werthfawr i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u hamcanion, yn cael cyfle i asesu a thrafod eu cymwyseddau craidd ac adolygu eu hanghenion hyfforddiant. Bydd perfformiad Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth

yn parhau i gael ei fonitro trwy waith yr Adain Archwilio Mewnol ac adolygiadau perfformiad gwasanaeth. Er bod trefniadau da ar waith i gefnogi gweithwyr, mae lefel presenoldeb staff yn is nac mewn awdurdodau eraill yng Nghymru gan fod salwch staff yn uwch o'i gymharu ag awdurdodau eraill yng Nghymru.

Ar gyfer cyfnod Ebrill 2017 – Mawrth 2018, nifer y dyddiau a gollwyd yn sgil absenoldeb oherwydd salwch fesul gweithiwr FTE oedd 9.65. Mae hyn yn welliant cyffredinol mewn perfformiad o 2.02 diwrnod o gymharu â 2016/17 lle'r oedd y canlyniad diwedd blwyddyn yn 11.671 fesul gweithiwr FTE.

Cymerwyd 32,268 o ddiwrnodau o absenoldebau oherwydd salwch. Mae hyn yn ostyngiad o 7,209 diwrnod o gymharu â 2016/17.

Rhagorodd 17 o'r 24 uned adrodd ar amcangyfrif yr Awdurdod o 10.5 diwrnod fesul staff cyfwerth ag amser llawn.

Gwnaeth 17 o'r 24 uned adrodd gyflawni neu ragori ar amcangyfrifon penodol eu gwasanaeth.

Rhodddwyd 242 o hysbysiadau gwella (cynnydd ar y flwyddyn flaenorol).

- E) Pennir Uwch Reolwyr ac Aelodau Cabinet i fod yn gyfrifol am bob Blaenoriaeth Gorfforaethol fel bo modd dwyn yr unigolion hynny i gyfrif ynghylch effeithiolrwydd y gweithredu. Caiff gweithrediad y Strategaeth Datblygu Aelodau ei fonitro gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Mae'r holl Aelodau Etholedig sy'n derbyn cyflogau uwch yn cael Adolygiadau Datblygu Perfformiad blynyddol a chynhigir Adolygiadau Datblygu Perfformiad i'r holl gynghorwyr eraill pe baent yn dewis cael un. Fel isafswm, mae'n rhaid i'r holl Aelodau Etholedig lenwi holiadur dadansoddiad o anghenion hyfforddiant. Rhoddir cyfle i Aelodau gynhyrchu adroddiad blynyddol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Serch hynny, nid yw'r adroddiadau hyn yn orfodol.

E3 Casgliad yr Hunanasesiad

Mae systemau da ar waith i gefnogi a datblygu Aelodau Etholedig a staff. Mae swyddi a chyfrifoldebau Aelodau a Swyddogion wedi'u diffinio'n glir - yn enwedig mewn perthynas â swyddi'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr, sy'n cyfarfod yn rheolaidd i drafod ac adolygu cynnydd yr Awdurdod. Mae'r Cyflwyniad Corfforaethol ar gyfer Aelodau Etholedig a staff bellach wedi'i ymgorffori'n dda ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn cynnwys pob newid allweddol, gan sicrhau bod pob gweithiwr newydd yn ymwybodol o brosesau llywodraethu o fewn yr awdurdod a'r gefnogaeth sydd ar gael i'w datblygu yn eu swydd broffesiynol. Mae'r broses gyflwyno bellach yn cynnwys gwybodaeth ar Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r rhaglen hyfforddiant barhaus, yn galluogi gwelliant a datblygiad parhaus Aelodau a staff yr Awdurdod, sicrhau ein bod yn uwchsgilio pobl, eu cefnogi, atal materion Adnoddau Dynol rhag codi lle bo hynny'n ymarferol, a datblygu arweinwyr y dyfodol, yn unol â gofynion y Ddeddf Llesiant. Mae'n ddymunol i nodi bod y gefnogaeth a ddarperir i staff wedi gwella presenoldeb. Mae canlyniadau'r Adolygiadau Datblygu Perfformiad yn dangos cynnydd yn ein perfformiad, sy'n dystiolaeth gadarn o'r pwysigrwydd a roddir ar ddatblygu staff.

E4 Argymhellion ar gyfer Gwella

A6 Cwblhau'r adolygiad o'r Strategaeth Adnoddau Dynol

Egwyddor F. Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gryf

Mae angen i gyrff llywodraethu endidau sector cyhoeddus sicrhau bod yr endidau maent yn goruchwyllo wedi gweithredu – ac y gallant gynnal - system reoli perfformiad effeithiol sy'n hwyluso darpariaeth effeithiol ac effeithlon o wasanaethau a gynlluniwyd. Mae rheoli risg a rheolaeth fewnol yn rhannau pwysig ac annatod o system rheoli perfformiad ac yn hanfodol i gyflawni canlyniadau. Maent yn cynnwys proses barhaus a gynlluniwyd i nodi a mynd i'r afael â risgiau sylweddol ynghlwm wrth gyflawni canlyniadau endid.

Mae system gadarn o reolaeth ariannol yn hanfodol ar gyfer gweithredu polisiau sector cyhoeddus a chyflawni canlyniadau arfaethedig, gan y bydd yn gorfodi disgyblaeth ariannol, dyrannu adnoddau'n strategol, cyflenwi gwasanaeth effeithlon, ac atebolrwydd.

F1 Trefniadau Presennol

- A) Mae'r Awdurdod yn defnyddio system rheoli perfformiad integredig, **CAMMS**, i gefnogi cynllunio gwasanaethau, rheoli risg, digwyddiadau, archwilio a rheoli prosiectau. Mae CAMMS yn hwyluso cysylltiad ac integreiddio gwell rhwng canlyniadau gwasanaeth, camau gweithredu a rheoli risg, gan gefnogi'r gofyniad bod rheoli risg yn rhan annatod o wneud penderfyniadau a chamau gweithredu. Cafodd y **Fframwaith Rheoli Perfformiad**, ei adolygu yn ystod 2017/18 i adlewyrchu newidiadau i'r polisi a'r dangosydd perfformiad. Mae'r fframwaith yn ceisio darparu cysylltiad clir o ran sut y mae cyflawni'r amcanion a osodwyd ar gyfer swyddogion unigol yn eu cynlluniau datblygu personol, yn cyfrannu at gyflawni cynlluniau gwasanaeth sydd yn eu tro'n helpu darparu canlyniadau dinasyddion y Cynllun Corfforaethol a gan hynny, cyfraniad yr Awdurdod tuag at wella Sir Conwy er mwyn diwallu anghenion y presennol, heb beryglu anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r Fframwaith Rheoli Perfformiad yn cynnwys manylion y camau gweithredu y dylid eu cymryd i ddatblygu blaenoriaethau sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau dinasyddion a chyflawni targedau perfformiad, a'r modd y caiff y camau hynny eu rhaeadru i Gynlluniau Gwasanaeth ac i Adolygiadau Datblygiad Perfformiad unigol. Caiff cynnydd yn erbyn camau a mesurau perfformiad ei fonitro ddwywaith y flwyddyn drwy'r **Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth**. Mae'r adolygiadau yn rhan o hunanasesiad o berfformiad ac yn ddull o geisio sicrwydd gan Benaethiaid Gwasanaeth bod trefniadau rheoli mewnl yn eu lle o fewn eu maes gwasanaeth. Yn flynyddol mae pob Pennaeth Gwasanaeth a'u Cyfarwyddwr Strategol yn llofnodi datganiad o sicrwydd. Mae'r Cyfarwyddwr Strategol, y Dirprwy Arweinydd, Aelod Portffolio'r Cabinet, a chynrychiolwyr o'r ddau Bwyllgor Craffu mwyaf perthnasol yn bresennol yn yr Adolygiadau Perfformiad Gwasanaeth, ac yn darparu cefnogaeth a her i hunanasesiad y gwasanaeth. Caiff gwahoddiadau agored eu hestyn i bob Aelod Etholedig i fod yn bresennol mewn adolygiad perfformiad gwasanaeth. Caiff **Adroddiad Perfformiad Corfforaethol** ei lunio bob chwe mis, a bydd **Adroddiad Blynyddol** sy'n rhoi cyfrif am berfformiad ac yn meincodi yn erbyn Awdurdodau eraill yn cael ei gyhoeddi erbyn 31 Hydref bob blwyddyn.
- B) Mae'r gan yr Awdurdod **Bolisi Rheoli Risg a Llawlyfr Gweithdrefnau** yn eu lle. Cawsant eu hadolygu a'u cymeradwyo gan yr UDRh yn 2017/18. Mae polisi a llawlyfr gweithdrefnau ar gyfer ysgolion uwchradd a chynradd wedi'u cynnwys yn y trefniadau ar gyfer y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol, Gwe. Mae'r Polisi Risg a Llawlyfr Trefniadol yn cynnwys y fframwaith ar gyfer rheoli risgiau ar draws yr Awdurdod ac yn cynnwys swyddogaethau a chyfrifoldebau ar gyfer rheoli risg. Yn ogystal â chofrestrau risg y Gwasanaethau, mae'r Awdurdod wedi sefydlu Cofrestr Risgiau a Materion Corfforaethol. Caiff pob risg/mater ei neilltuo i Gyfarwyddwr Strategol neu Bennaeth Gwasanaeth ac aelod etholedig arweiniol. Mae'r gofrestr yn cael ei chynnal a'i rheoli drwy'r Grŵp Gwella ac Archwilio, y Tîm Arweinyddiaeth Strategol a'r Uwch Dîm Rheoli. Caiff y risgiau eu hadrodd i aelodau etholedig yn ffurfiol drwy'r broses ddemocrataidd. Roedd yr Awdurdod yn trafod ei risgiau corfforaethol gyda'i archwilwyr allanol bob 6 mis gan alluogi'r risgiau i gael eu hystyried mewn modd rheolaidd a strwythuredig, gydag elfen o gefnogaeth a her allanol. Mae'r broses hon bellach wedi newid i gyfarfodydd bob 6 mis gyda Chyfarwyddwyr Strategol a'r Arweinydd, yr Aelod Cabinet Cyllid ac Adnoddau, a chyfarfod

blynyddol gyda Swyddfa Archwilio Cymru. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn dal i dderbyn y Gofrestr Risg Gorfforaethol bob 6 mis fel rhan o'r broses o gyflwyno'r gofrestr i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Mae hyfforddiant ar reoli risg yn cael ei drefnu ddwywaith y flwyddyn drwy'r Tîm Hyfforddiant Corfforaethol. Hefyd, bydd risgiau corfforaethol yn cael eu hystyried yn ystod proses y **Fframwaith Cynllunio Busnes**, sy'n cefnogi proses ddyrannu adnoddau'r Awdurdod. Mae gan yr Awdurdod raglen dreigl o **Reoli Risg Gwell**, sy'n cynnwys adolygiad manwl o bob Risg Gorfforaethol i asesu effeithlonrwydd y rheolaethau risg a'r camau gweithredu a'r atebolrwydd priodol er mwyn darparu lefel sicrwydd ar gyfer rheoli pob risg.

- C) Mae **Fforwm Rheolwyr Rhaglenni a Phrosiectau** (PPM) yn cyfarfod bob chwarter blwyddyn. Ymhlith y rhai sy'n bresennol mae'r Rheolwyr Rhaglenni a Phrosiectau dynodedig ar draws yr Awdurdod ynghyd â Swyddogion Cefnogi Prosiect a Swyddogion sy'n dymuno datblygu eu sgiliau. Swyddogaeth y Fforwm yw rhannu gwybodaeth ac arfer gorau a darparu gwybodaeth gorfforaethol (h.y. llywodraethu, archebion sefydlog ac ati) i'r Rheolwyr Rhaglenni a Phrosiectau sydd ei hangen arnynt i weithredu eu Prosiectau a'u Rhaglenni. Diweddarwyd y Fframwaith Rheoli Rhaglenni a Phrosiectau ym mis Mai 2017 i adlewyrchu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r newidiadau o fewn CAMMs.
- D) Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i wella ei brosesau caffael ac mae gan y Gwasanaeth Caffael Corfforaethol ran ymarferol wrth gefnogi gwasanaethau i gaffael nwyddau a gwasanaethau wrth gydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol a rheolau mewnlol yr Awdurdod a ymgorfforir yn ei Reolau Sefydlog Contractau. Mae gan yr Awdurdod gysylltiadau cryf gyda Llywodraeth Cymru drwy ei Dîm Gwerth Cymru a chyrrff sector cyhoeddus cyfagos. Ymunodd yr Awdurdod â'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ym mis Rhagfyr 2012. Mae hyn wedi galluogi'r Awdurdod i ymgymryd â chaffael eitemau gwariant cyffredin ac ailadroddus yn Genedlaethol ar draws y sector cyhoeddus cyfan, gyda'r nod o sicrhau arbedion effeithlonrwydd ac arbedion pris trwy leihau nifer o ymarferion caffael ac dod â phŵer prynu ynghyd. Mae'r gweithdrefnau ar gyfer tendro a rhoi gwaith ar gontract wedi'u cynnwys yn Rheolau Sefydlog Contractau'r Cyngor. Cymeradwyodd y Cyngor set ddiwygiedig o **Reolau Gweithdrefn Contractau** (CPRs) ym mis Rhagfyr 2014. Bydd y CPR yn cael eu hadolygu'n ffurfiol ym mis Mehefin 2018. Cymeradwywyd **Strategaeth Gaffael Gorfforaethol** ddiwygiedig ym mis Chwefror 2016. Nod y strategaeth gaffael yw gwella dealltwriaeth o'r CPR i gynulleidfa ehangach o staff ac Aelodau. Mae trefniadau **Rheoli Trysorlys** yr Awdurdod yn dilyn arfer proffesiynol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cyflenwi a phrosiectau'n cael eu cwblhau'n llwyddiannus, rhoddir arweiniad canolog ar gyfer **caffael a rheoli prosiectau**. Caiff pob rhaglen a phrosiect arwyddocaol eu monitro'n gorfforaethol ac yn y **Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu** perthnasol lle mae adroddiadau o'r prif bwyntiau yn cael eu cyfeirio i'w craffu a'u herio ymhellach.
- E) Mae trefniadau cadarn ar gyfer **rheolaeth ariannol** effeithiol trwy weithdrefnau cyfrifyddu'r Awdurdod a Rheoliadau Ariannol. Mae'r rhain yn cynnwys gweithdrefnau cynllunio cyllideb sefydledig, sydd yn destun asesiad risg, ac adroddiadau rheolaidd i'r aelodau'n cymharu rhagolygon o wariant refeniw a chyfalaf i gyllidebau blynyddol a phroses Fframwaith Cynllunio Busnes sy'n cefnogi proses dyrannu adnoddau'r Awdurdod. Ym mis Mawrth 2018 cymeradwyodd y Cyngor **Strategaeth Ariannol Tymor Canolig** (MTFS) sy'n rhoi eglurder i'r broses gynllunio ariannol ac i'r cysylltiadau rhwng dyraniad adnoddau tymor canolig a'r blaenoriaethau corfforaethol. Mae swydd y **Prif Swyddog Ariannol** (Swyddog S151) wedi'i chynnwys yng nghyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr Strategol Cyllid ac Effeithlonrwydd. Y Cyfarwyddwr sy'n gyfrifol am weinyddu materion ariannol yr Awdurdod yn briodol, yn ôl gofynion Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972, ac mae'n gyfrifol am oruchwylio bod trefniadau llywodraethu cadarn yn eu lle ac yn cael eu hymgorffori yn yr Awdurdod. Mae hyn yn cynnwys cydlynu'r adolygiad o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a gweithredu unrhyw faes i'w wella. Mae'r Cyfarwyddwr Strategol Cyllid ac Effeithlonrwydd yn aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol ac yn adrodd i'r Prif Weithredwr. Fel aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol, mae'r Cyfarwyddwr Strategol, Cyllid ac Effeithlonrwydd, yn gallu datblygu a gweithredu strategaethau a darparu adnoddau a chyflawni amcanion strategol yr awdurdod, gan sicrhau eu bod yn gynaliadwy, er lles y cyhoedd, ac wedi'u halinio â'r strategaeth ariannol gyffredinol. Mae'r Awdurdod yn cydymffurfio'n llawn ag egwyddorion Datganiad CIPFA ar swydd y Prif Swyddog

Ariannol mewn Llywodraeth Leol (2010). Caiff Datganiad o Gyfrifon Blynyddol y Cyngor ei baratoi yn dilyn y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol ac yn amodol ar archwiliad gan Swyddfa Archwilio Cymru.

- F) Daeth **Strategaeth Rheoli Gwybodaeth** yr Awdurdod i ben yn 2017. Mae hwn wedi cael ei adolygu a bydd Fframwaith Rheoli Gwybodaeth ddiwygiedig o bolisïau gwybodaeth yn cael ei chymeradwyo yn hydref 2018. Diben y fframwaith hon yw sicrhau y gall yr Awdurdod wneud y defnydd gorau o'i asedau **Gwybodaeth** i lywio ei ofynion busnes gweithredol, strategol a thrawsnewidiol ac mae'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, safonau a'r codau ymarfer ar gyfer rheoli cofnodion a gwybodaeth. Caiff gweithrediad y Fframwaith ei oruchwylio gan Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth (GLIG). Diben y grŵp hwn yw cynnig cyfeiriad strategol ar gyfer rheoli gwybodaeth. Adolygwyd aelodaeth y grŵp hwn ym mis Mai 2018. Cadeirir y Grŵp gan y Pennaeth Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai, sef Uwch-Berchennog Risg Gwybodaeth yr Awdurdod. Cymeradwywyd strategaeth TGCh Corfforaethol 2017-2022 ym mis Hydref 2017.
- G) Sefydlodd yr Awdurdod brosiect yn 2017 i sicrhau bod y **Rheoliadau Diogelu Data** Cyffredinol wedi eu mewnllo mewn proses fusnes yn barod ar gyfer y dyddiad cau ym mis Mai 2018. Diweddarwyd y Polisi Gwarchod Data ac ystod o bolisïau, gweithdrefnau a hysbysiadau preifatrwydd. Rhoddwyd cynllun cyfathrebu codi ymwybyddiaeth ar waith ar draws yr awdurdod, a darparwyd hyfforddiant i dros 300 o staff cyn y dyddiad cau ar 25 Mai. Mae hefyd gan yr Awdurdod weithdrefnau ar waith i gyflawni ei gyfrifoldebau dan y **Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000**. Er mwyn cydymffurfio gyda'r olaf, mae gwefan yr Awdurdod yn cynnwys Cynllun Cyhoeddi Hawl i Wybodaeth sy'n rhoi canllawiau ar wybodaeth y mae'r Awdurdod yn ei chyhoeddi fel mater o drefn. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys gwybodaeth arall y mae gofyn i'r Awdurdod ei gyhoeddi, fel lwfansau a dalwyd i aelodau yn unol â darpariaethau statudol. Mae gan yr Awdurdod **Uned Ymchwil a Gwybodaeth** sy'n darparu data ystadegol a dadansoddiadau o anghenion i gefnogi a hysbysu penderfyniadau.

F2 Adolygu Effeithiolrwydd

- A) Mae'r Awdurdod yn parhau i adolygu rheolaethau mewnol a gwneud newidiadau lle bo angen yn ôl y ddeddfwriaeth. Mae cyflwyno gwell rheoli risg a newidiadau i hwyluso Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yn enghreifftiau o welliannau. Amlygodd asesiad allanol ym mis Tachwedd 2016 yr angen i gryfhau sicrwydd, e.e. adroddiadau ymgynghori, adroddiadau craffu, adolygiadau cyfoedion. Mae Archwilio Mewnol wedi datblygu Map Sicrwydd yn ystod 2017/18 a fydd yn cael ei ddefnyddio i lywio'r Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol Bydd y map yn cael ei ddiweddarau'n rheolaidd a bydd y Pennaeth Gwasanaethau Archwilio a Chaffael a'r Rheolwyr Archwilio yn cyfarfod timau rheoli gwasanaethau'n rheolaidd i drafod eu risgiau, pryderon a gofynion diweddaraf. Bydd hyn yn sicrhau y bydd Archwilio Mewnol wedi eu diweddarau'n llawn ac yn ymwybodol o faterion sy'n dod i'r amlwg a risgiau a bydd yn gallu canolbwyntio adnoddau yn y prif feysydd blaenoriaeth a risg ar y pryd. Bydd y broses mapio sicrwydd hefyd yn sicrhau fod unrhyw fylchau sicrwydd yn cael eu llenwi ac nad oes unrhyw 'sicrwydd gormodol' mewn unrhyw weithgarwch. Bydd y map yn caniatáu Archwilio Mewnol i ddarparu ymagwedd fwy hyblyg tuag at archwilio mewnol gan ystyried unrhyw newidiadau yn y sefydliad. Bydd y map hefyd yn cynorthwyo'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wrth asesu fframwaith sicrwydd y Cyngor a sicrhau ei fod yn mynd i'r afael yn ddigonol â pheryglon a blaenoriaethau'r Cyngor. Bydd hyn yn cefnogi cymeradwyaeth y Pwyllgor o'r cynllun yn seiliedig ar risg. Bydd y map yn dilyn ymgynghori â swyddogion yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn 2018/19.
- B) Mae gan yr Awdurdod hanes diweddar o reoli ei gynlluniau gwario o fewn y gyllideb a gymeradwywyd. Mae Adroddiadau Gwella Blynyddol olynol gan Swyddfa Archwilio Cymru yn nodi bod gan y Cyngor reolaeth fewnol dda. Nododd Archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru 2017 ar 'Llywodraethu Da wrth Benderfynu ar Newidiadau *"Mae gan arweinwyr gwleidyddol ac uwch swyddogion berchnogaeth a dealltwriaeth gadarn o flaenoriaethau'r Cyngor, ac maent yn cydweithio'n dda. Mae'r lefel uchel o ymddiriedaeth a chydweithredu rhwng cynghorwyr a staff yn un o nodweddion amlwg y Cyngor. Mae gan uwch swyddogion y Cyngor weledigaeth glir o'r*

hyn maent yn ceisio ei gyflawni. Ym marn cynghorwyr a staff mae uwch reolwyr yn effeithiol iawn wrth hyrwyddo dull gweithredu 'Tîm Conwy'. Mae dull gweithredu 'Tîm Conwy' yn creu'r amgylchedd ar gyfer diwylliant o fewn y Cyngor cyfan sy'n canolbwyntio ar weithgareddau craidd sydd angen eu gwella ac ymddengys fod trefniadau presennol yn gweithio'n dda wrth ystyried newidiadau i wasanaethau. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw ynglŷn â newidiadau i wasanaethau o'r farn bod dull gweithredu 'Tîm Conwy' yn parhau i greu ymdeimlad o falchder yng ngwaith y Cyngor, ynghyd â diwylliant cryf lle maent yn teimlo'n atebol am berfformiad gwasanaethau."

- C) Mae'r **Rhaglen Foderneiddio** yn parhau i weithredu'r achos busnes a'r polisiâu perthnasol er mwyn cyflawni'r amcan corfforaethol i foderneiddio'r ffordd rydym ni'n gweithio. Cadeirydd y Bwrdd yw'r Prif Weithredwr ac mae'r bwrdd yn datblygu ffrydiau gwaith corfforaethol ar gyfer Dinasyddion, Cyfathrebu, Asedau, TGCh, Prosesau Busnes a Chyfathrebu a Rheoli Newid. Mae'r Awdurdod wedi cyflwyno toreth o fentrau newydd a fydd yn gwella profiad y cwsmer tra'n lleihau costau ariannol e.e. taliadau ar-lein, ap Conwy, a'r wefan newydd.
- D) Cadarnhaodd y **Dystysgrif Cydymffurfiaeth Flynyddol** bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â'i gyfrifoldebau mewn perthynas ag adrodd ariannol, defnydd o adnoddau, cynllunio gwelliant a rheoli perfformiad. Fel sy'n wir ym mhob sefydliad yn y Sector Cyhoeddus, sicrhaodd yr Awdurdod arbedion sylweddol o £14.282m ar y gyllideb yn ystod 2017/2018. Mae'r Awdurdod yn mynd ati i gynllunio i sicrhau arbedion pellach ac yn wynebu diffyg adnoddau o £11.326 miliwn yn 2018/19 ac yn paratoi ar gyfer diffyg posibl o £13.262 miliwn yn 2019/20 a £12 miliwn yn 2020/21. Mae'r Awdurdod yn archwilio modelau cyflenwi amgen lle bo'n briodol, a bydd yn adolygu'r gofynion llywodraethu i adlewyrchu newidiadau yn ôl yr angen.
- E) Caiff yr Adroddiad Blynyddol ynglŷn ag asesiad yr Awdurdod o'i berfformiad a'r Dangosyddion Perfformiad sy'n cael eu cyhoeddi, eu harchwilio gan Swyddfa Archwilio Cymru trwy eu Asesiad o Berfformiad Corfforaethol. Mae canfyddiadau'r holl archwiliadau Swyddfa Archwilio Cymru a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol yn cael eu crynhoi yn eu Hadroddiad Gwella Blynyddol (AIR). Derbyniwyd Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Mai 2017 a daeth i'r casgliad bod y Cyngor yn bodloni'r gofynion statudol o ran gwelliant parhaus. Nid oedd argymhellion ar gyfer gwella ac mae yna gynlluniau gweithredu yn eu lle i fynd i'r afael â'r cynigion ar gyfer gwella a nodwyd mewn archwiliadau unigol. Yn 2017, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru archwiliad CAMMS, system rheoli perfformiad yr Awdurdod ac ym mis Gorffennaf 2018 daeth i'r casgliad fod "Y system rheoli perfformiad yn casglu data yn effeithlon ac yn cefnogi gwerthusiad y Cyngor o'i waith, ond nid oes digon o wybodaeth ariannol ynddi ar hyn o bryd."
- F) Yn rhinwedd eu gwaith proffesiynol, mae Penaethiaid Gwasanaeth yn darparu sicrwydd ar gyfer eu maes gwasanaeth drwy gyflwyno adroddiadau, ac adolygiadau gwasanaeth chwe-misol sy'n rhoi sicrwydd o ran rheoli risg, gweithredu ar argymhellion mewnol ac allanol a chynnydd o ran perfformiad. Caiff effeithiolrwydd ei herio gan adolygiadau a gynhelir yn fewnol (Craffu, Archwilio Mewnol, Adolygiadau o Berfformiad Gwasanaeth, a'r Grŵp Gwella ac Archwilio) a hefyd gan adroddiadau a gyhoeddir gan archwilwyr ac arolygwyr allanol. Bob mis Mai mae pob Pennaeth Gwasanaeth a'u Cyfarwyddwr Strategol yn llofnodi datganiad Sicrwydd.
- G) Mae gan yr Awdurdod broses hunanasesu, Gwella Conwy, a gynhelir gan dimau o staff ac aelodau etholedig sy'n cynnig argymhellion ynglŷn â sut i wella llywodraethu a pherfformiad o fewn yr Awdurdod. Mae'r fformat yn canolbwyntio ar wneud gwelliannau i gefnogi blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol. Mae hyn wedi bod yn ddull effeithiol o sicrhau cyfranogiad staff o bob lefel yn y sefydliad ac yn eu galluogi i gael profiad y tu allan i'w hardal waith arferol. Caiff yr argymhellion eu hadrodd i'r UDRh, y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau a'u cymeradwyo gan y Cabinet. Mae argymhellion a gymeradwywyd yn cael eu monitro trwy adolygiadau perfformiad gwasanaeth. Cyflwynir adroddiadau cynnydd chwe-misol i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyllid ac Adnoddau. Oedwyd gyda Gwella Conwy yn 2017/18 yn sgil capasiti staff.

F3 Casgliad yr Hunanasesiad

Mae gan yr Awdurdod gyfeiriad strategol clir sy'n seiliedig ar ganlyniadau sy'n canolbwyntio ar y dinesydd, ac mae'r ddarpariaeth yn gysylltiedig â rheoli risg. Caiff pob risg corfforaethol ei gategoreiddio gan ganlyniadau'r dinesydd, i amlygu'r cysylltiad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r Cynllun Corfforaethol. Mae 'prociau' y weithdrefn risg hefyd wedi cael eu diwygio i sicrhau fod yr awdurdod yn meddwl am risgiau a goblygiadau tymor hirach. Mae'r cyfarfodydd rheolaidd gyda'n harchwilwyr allanol i wahodd her ar ein cofrestr risg gorfforaethol yn dystiolaeth o bwysigrwydd y broses lywodraethu hon o fewn yr Awdurdod. Mae prosesau cadarn wedi'u sefydlu i sicrhau defnydd economaidd, effeithiol ac effeithlon o adnoddau ac i sicrhau gwelliant parhaus yn y modd y caiff swyddogaethau eu cyflawni. Mae'r Awdurdod yn gwneud newidiadau busnes a diwylliannol yn unol â gofynion deddfwriaethol.

F4 Argymhellion ar gyfer Gwella

A7 Adolygu'r Rheolau Sefydlog Contractau

Egwyddor G. Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd, ac archwilio i gyflwyno atebolrwydd effeithiol

Mae atebolrwydd yn ymwneud â sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a chyflwyno gwasanaethau yn atebol amdanynt, er bod ystod a chryfder gwahanol berthnasoedd atebolrwydd yn amrywio ar gyfer gwahanol fathau o gyrff llywodraethu. Mae atebolrwydd effeithiol yn ymwneud ag adrodd ar gamau gweithredu a gymerir a sicrhau bod rhanddeiliaid yn gallu deall ac ymateb wrth i'r endid gynllunio a chynnal ei weithgareddau mewn modd tryloyw. Mae'r swyddogaeth archwilio allanol a mewnol yn cyfrannu at atebolrwydd effeithiol.

G1 Trefniadau Presennol

- A) Mae'r holl raglenni ac adroddiadau ar gael ar wefan yr Awdurdod, oni bai eu bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig. Mae hyn yn cynnwys 'datganiadau o gysylltiad' a wneir mewn cyfarfodydd. Mae system rheoli gwefan yr Awdurdod bellach yn canolbwyntio mwy ar breswylwyr ac yn addas i lechi electronig a ffonau clyfar. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys cynllun crynodeb, ac mae wedi ei ddylunio ar ffurf mwy hygyrch sy'n canolbwyntio mwy ar ddinasyddion. Mae'r cynllun hefyd ar gael fel fideo laith Arwyddion Prydain. Pob blwyddyn cyhoeddir adroddiad perfformiad blynyddol ar y wefan sy'n cynnwys adroddiad cryno ac mae'n cael ei gefnogi gan animeiddiad byr i wneud yr wybodaeth yn fwy hygyrch i'r cyhoedd. Mae'r Awdurdod wedi adolygu a diweddarau'r Strategaeth Ymgysylltu â'r Gymuned a'r Strategaeth Gyfathrebu Gorfforaethol ac yn ystyried ffyrdd amgen i gyflwyno blaenoriaethau allweddol ac i esbonio'r hyn y mae'r Awdurdod yn ei wneud.
- B) Mae pedwar **Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu**: a ddechreuodd ym mis Mai 2017; y Pwyllgorau Trosolwg a Craffu **Cyllid ac Adnoddau** (wedi'i gadeirio gan arweinydd y blaid wleidyddol fwyaf heb ei chynrychioli ar y pwyllgor gwaith), **Addysg a Sgiliau, Gofal Cymdeithasol ac Iechyd, ac Economi a Lle**. Eu swyddogaeth yw adolygu, craffu a dal i gyfrif berfformiad y Cabinet, gwirio a yw polisiau presennol yn effeithiol a helpu i lunio polisiau newydd; adolygu neu ymchwilio i faterion o bryder arbennig naill ai o fewn yr Awdurdod neu o fewn y gymuned. Mae ei swyddogaeth graffu yn cynnwys ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i sicrhau fod y penderfyniad yn diwallu anghenion y presennol heb beryglu anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Mae hyn wedi'i ymgorffori yn y broses ar gyfer cyflwyno Aelodau. Mae gan y Pwyllgorau Craffu broses "Galw i Mewn" ar gyfer penderfyniadau sydd wedi'u gwneud ond heb eu gweithredu ac mae wedi'i chynnwys yn y Cyfansoddiad i alluogi'r Pwyllgorau Trosolwg a Craffu i ystyried a yw'r penderfyniadau a wneir yn briodol. Yn 2017/18 cafodd 2 achos eu 'galw i mewn'. Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, cafodd **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** ei sefydlu ym mis Mai 2012. Swyddogaeth y pwyllgor yw dynodi'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (sy'n gyfrifol am gefnogi trosolwg a craffu, gwasanaethau aelodau a gwasanaethau pwyllgor) ac i adolygu'r ddarpariaeth staff, gofod swyddfa ac adnoddau eraill sydd ar gael i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd er mwyn sicrhau bod y rhain yn ddigonol. Caiff **Cofrestr Cysylltiadau'r Aelodau** hefyd ei chyhoeddi ar wefan yr Awdurdod. Mae'r Awdurdod bellach wedi llofnodi contract 5 mlynedd i barhau i weddarlledu hyd at 60 awr y flwyddyn o gyfarfodydd pwyllgorau. Gweddarlledu yw trosglwyddo sain a fideo dros y rhyngwyd. Mae camerâu yn y siambr yn ffilmio'r wybodaeth fyw syddwedyn ar gael i'w gweld ar wefan yr Awdurdod i bwy bynnag sy'n dymuno ei wyllo. Cafodd nifer yr ymweliadau ei fonitro a'i adrodd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.
- C) Mae'r **Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu** yn cyfarfod o leiaf unwaith bob chwarter blwyddyn, ac yn ogystal â'r aelodau etholedig, mae hefyd yn cynnwys 2 aelodau lleyg a benodir drwy broses recriwtio. Swyddogaeth y pwyllgor yw ystyried effeithiolrwydd trefniadau rheoli mewnol, rheoli risg a llywodraethu'r Awdurdod; mae'n ystyried adroddiadau archwilio mewnol ac allanol a chynlluniau gweithredu sy'n ymwneud â phob argymhelliad; monitro'r berthynas rhwng archwilwyr a'r staff; a monitro'r ymateb i argymhellion archwilio ac arolygu. Mae hefyd yn gyfrifol am gymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon blynyddol a'r adroddiadau cysylltiedig (sy'n cynnwys y datganiad hwn). Mae'r

broes ar gyfer monitro argymhellion archwilio sydd eto i'w gweithredu yn cynnwys adrodd am gamau gweithredu mewnol ac allanol sydd heb eu cwblhau.

- D) Mae'r **Grŵp Gwella ac Archwilio** yn sicrhau ein bod yn mynd i'r afael yn briodol â risgiau a ganfyddir ac argymhellion archwilio mewnol ac allanol ar gyfer gwella. Mae'r mesurau hyn yn ymgorffori egwyddorion rheoli perfformiad a rheolaeth fewnol. Mae'r grŵp yn cynnwys y Cyfarwyddwr Strategol Cyllid ac Effeithlonrwydd, Pennaeth Gwasanaethau Archwilio a Chaffael, Rheolwr Archwilio, Rheolwr Perfformiad a Gwella Corfforaethol; Swyddog Perfformiad a Gwella Corfforaethol, Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol, Rheolwr Safonau Ansawdd a Chomisiynu.
- E) Mae gan yr Awdurdod berthynas wrthrychol a phroffesiynol gyda'i archwilwyr allanol ac arolygwyr statudol, fel y dangoswyd yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol³. Mae hwn i'w weld ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru a'r Cyngor. Cynhelir cyfarfodydd bob deufis gyda Swyddfa Archwilio Cymru, Cyllid Corfforaethol a Gwella a Datblygu Corfforaethol er mwyn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynydd a datblygiadau llywodraethu yn rheolaidd.

G2 Adolygu Effeithiolrwydd

- A) Cyhoeddir adroddiad blynyddol am berfformiad y swyddogaeth graffu er mwyn ei hystyried a'i hadolygu. Cynhaliwyd archwiliad o Graffu yn ystod 17/18. Cyhoeddwyd y casgliad ym mis Gorffennaf 18 a nododd "Mae swyddogaeth trosolwg a chraffu'r Cyngor yn ymateb yn effeithiol i anghenion presennol ac yn datblygu trefniadau i gwrrd â heriau yn y dyfodol." Mae gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Raglen Gwaith i'r Dyfodol a chynhelir sesiynau briffio cyn y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu fel mater o drefn gyda'r Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd ac Aelod Cabinet Cyllid ac Adnoddau i drafod eitemau'r rhaglen ac i gefnogi herio effeithiol.
- B) Mae Adroddiad 'Llywodraethu Da wrth benderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau' a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru fis Mai 2017 yn adolygu effeithiolrwydd llywodraethu corfforaethol ac yn dod i'r casgliad bod gan yr Awdurdod drefniadau llywodraethu da ar waith ond bod angen gwella cysondeb asesiadau o effaith ar gydraddoldeb a thryloywder arbedion i wasanaethau. Mae'r Awdurdod wedi datblygu cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â hyn.
- C) Casgliad Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio 2017/18 oedd bod gan y Cyngor brosesau rheoli mewnol, rheoli risg a llywodraethu boddhaol i reoli'r gwaith o gyflawni amcanion yr Awdurdod.
- D) Caiff yr adolygiad o effeithiolrwydd ei lywio gan waith y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Strategol sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd a'r diwylliant llywodraethu. Mae'n rhaid i'r Pennaeth Archwilio Mewnol lunio Adroddiad Blynyddol yn rhoi barn ynglŷn â digonolrwydd ac effeithiolrwydd amgylchedd rheoli mewnol yr Awdurdod, gan roi manylion unrhyw wendid a fyddai'n cynnal y farn hon a rhoi gwybod am unrhyw fater sy'n berthnasol wrth lunio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi tystiolaeth a sicrwydd bod y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn gweithio tuag at gyrraedd y safonau a amlinellir yn Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus 2013 er mwyn galluogi'r Awdurdod i gymryd sicrwydd o'r farn hon. Mae'r gwasanaeth yn cynnal adolygiadau rheolaidd o'r systemau a'r rheolaethau ariannol i roi sicrwydd i'r Awdurdod drwy ei Bwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
- E) Cafodd Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ym mis Mai 2018 ac mae'n dod i'r casgliad bod gan yr Awdurdod brosesau rheoli mewnol, rheoli risg a llywodraethu corfforaethol boddhaol ar waith i reoli'r gwaith o gyflawni amcanion yr Awdurdod ar gyfer y 12 mis yn diwedd 31 Mawrth 2018. Cafodd y canfyddiadau mewn perthynas ag archwiliadau dilynol a gynhaliwyd yn ystod 2016/17 eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu bob chwarter blwyddyn a dangoswyd, o'r 133 o gamau gwella a wnaed gan Archwilio Mewnol, nad oedd 55 wedi'u gweithredu eto neu fod gwaith yn parhau i gael ei wneud arnynt, sy'n rhoi cyfradd weithredu o 58.65%.

³ www.conwy.gov.uk/accountability or www.wao.gov.uk

- F) Nodwyd bod 43% o'r prif argymhellion hanfodol wedi cael eu gweithredu. Mae'r lleihad mewn perfformiad oherwydd peidio gweithredu 8 prif argymhelliad yr adroddiad Diogelu Corfforaethol. Nododd yr Archwiliad Diogelu Corfforaethol Dilynol bod 12 o'r 35 o argymhellion a wnaed yn yr adroddiad gwreiddiol wedi eu rhoi ar waith, ystyriwyd bod 12 yn dal ar y gweill, neu wedi'u gweithredu'n rhannol, ac 11 yn dal heb eu rhoi ar waith, ac ym marn yr archwilwyr, dim ond lefel Cyfyngedig o sicrwydd sy'n parhau i gael ei gynnig. Aeth y Prif Weithredwr, fel Cadeirydd y Panel Diogelu Corfforaethol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywo ym mis Chwefror 2018 i roi diweddariad ar gynnydd, ac mae dilyniant pellach wedi'i drefnu ar gyfer ar ddechrau 2018/19.
- G)
- H) Mae pob un o'r archwiliadau a gyflawnwyd yn ystod 2017/18 wedi arwain at lefelau cadarnhaol o sicrwydd ac eithrio archwiliadau o Ysgol Awel y Mynydd ac Ysgol Sŵn y Don, a roddodd sgôr **Sicrwydd Cyfyngedig**. Bydd archwiliadau dilynol yn cael eu cynnal yn ystod 2018/19 i wirio cydymffurfiaid â'r argymhellion a wnaed.
- I) Nid nodwyd unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol yn 2017/18 a oedd yn haeddu sylw yn Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio.

G3 Casgliad yr Hunanasesiad

Mae gan yr Awdurdod fynediad at wybodaeth dda ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn modd tryloyw mewn cyfarfodydd cyhoeddus a gofnodir. Mae Aelodau Etholedig yn ymwybodol y dylai penderfyniadau ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac roedd atodlen yn ei lle ar gyfer Rhaglen Gyflwyno Aelodau newydd i sicrhau eu bod yn deall eu cyfrifoldebau craffu. Mae penderfyniadau yn destun craffu allanol a mewnlol effeithiol ac os canfyddir gwendidau caiff cynlluniau gweithredu eu rhoi ar waith yn syth a'u monitro trwy grŵp corfforaethol a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu i sicrhau y gwneir gwelliannau. Mae'r Awdurdod wedi dechrau defnyddio graffeg, animeiddiadau a ffilmiau byrion i amlygu a chrynhai gwybodaeth gymhleth, ac mae'r broses hon yn esblygu'n barhaus wrth i ni ymchwilio i dechnoleg newydd.

G4 Argymhellion ar gyfer Gwella

Nid oes unrhyw argymhelliad ar gyfer gwella.

8 Rhaglen o Welliannau ar gyfer Materion Llywodraethu

- 8.1** Mae gan yr Awdurdod drefniadau llywodraethu da ond nid yw'n hunanfodlon. Mae angen adolygu trefniadau'n barhaus ac ystyried arferion gorau mewn lleoedd eraill i sicrhau y cynhelir trefniadau llywodraethu da, ac adlewyrchir hyn drwy gyflwyno prosesau newydd fel gwell map rheoli risg a sicrwydd.
- 8.2** Mae'r argymhellion llywodraethu ar gyfer gwella a nodwyd yng nghynllun gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2016/17 wedi eu monitro, eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac wedi eu cwblhau yn bennaf. Disgwylir i'r rhai sy'n weddill gael eu cwblhau erbyn hydref 2018. Bydd cynnydd yn erbyn yr argymhellion gwella a nodir yn y datganiad hwn yn cael eu cydlynu a'u monitro gan y Grŵp Gwella ac Archwilio a'u hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Hefyd, cefnogir pob cam gwella a nodwyd gan y rheoleiddwyr allanol a'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol gan gynlluniau gweithredu manwl gydag amserlenni gweithredu, y mae'r Grŵp Gwella ac Archwilio, y Gwasanaeth Archwilio Mewnol a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn eu monitro.

9 Crynodeb o'r Sicrwydd

- 9.1 Llywodraethu da yw'r sylfaen ar gyfer darparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion yr holl drigolion lleol ac mae'n sylfaenol i ddangos bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n ddarbodus. Fel y nodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru,

Mae llywodraethu da yn hanfodol er mwyn gwarchod arian cyhoeddus yn effeithiol a darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithlon yr ymddiriedir ynddynt yn barhaus. Mae'r hinsawdd ariannol bresennol a'r setliadau is i lywodraeth leol yn ogystal â'r galw cynyddol am rai gwasanaethau yn golygu ei bod yn debygol y bydd angen i bob cyngor barhau i wneud penderfyniadau ynghylch cyfluniad gwasanaethau a'r modd y cânt eu darparu yn y dyfodol. Mae'n briodol bod cyrff cyhoeddus yn ceisio gwella'n barhaus. Gwneir newidiadau cynyddrannol, bach i'r modd y darperir gwasanaethau ar lefel rheolwyr a lefel weithredol fel rhan o'r broses arferol o wneud newidiadau gweithredol. Fodd bynnag, mae llywodraethu da wedi'i ategu gan waith cynllunio effeithiol a phrosesau trylwyr yn hanfodol wrth benderfynu ar newidiadau sylweddol i wasanaethau. Yn aml mae'r fath benderfyniadau yn rhai dadleuol ac yn ennyn cryn dipyn o ddiddordeb lleol a gallant gael effeithiau sylweddol ar yr unigolion a'r grwpiau y maent yn effeithio arnynt. (Llywodraethu Da wrth Benderfynu ar Newidiadau Sylweddol i Wasanaethau, Mai 2017).

- 9.2 Yn seiliedig ar yr adolygiad, ar yr asesiad ac ar y gwaith monitro parhaus a wnaed yn ystod 2017/18, rydym o'r farn fod trefniadau llywodraethu da mewn grym, bod y systemau allweddol yn gweithredu'n gadarn ac nad oes tystiolaeth o unrhyw wendidau rheoli sylfaenol. Ni all unrhyw system reoli roi sicrwydd llwyr yn erbyn camdatganiad na cholled. Ar sail yr addewidion amrywiol a gafwyd, bwriedir i'r datganiad hwn roi sicrwydd rhesymol bod trefniadau boddhaol wedi'u sefydlu ar gyfer llywodraethu corfforaethol a bod y trefniadau hynny'n gweithio'n effeithiol.
- 9.3 Ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, cynigir cymryd camau i fynd i'r afael â'r argymhellion ar gyfer gwella a nodwyd yn y datganiad hwn i wella ein trefniadau llywodraethu ymhellach. Rydym yn fodlon bod y camau hyn yn mynd i'r afael â'r gwelliannau a nodwyd yn ein hadolygiad o effeithiolrwydd a byddwn yn monitro ein cyflawniad a'n gweithrediad fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf.

Llofnod

Llofnod

Dyddiad 3/8/2018

Dyddiad 3/8/2018

**Iwan Davies
Y Prif Weithredwr**

**Cynghorydd Gareth Jones
Arweinydd y Cyngor**

Crynodeb o'r Argymhellion

- A1** Y wybodaeth ddiweddaraf ar y strategaeth gwrth-dwyll a llygredigaeth
- A2** Cwblhau'r ymarferiad mapio sicrwydd archwilio mewnol
- A3** Cwblhau'r adolygiad o'r Siarter Cwsmeriaid.
- A4** Rhoi cynllun gweithredu ar waith er mwyn gwella mynediad ar gyfer pobl sy'n Fyddar, neu sydd â nam ar eu golwg neu eu clyw.
- A5** Parhau i weithredu'r argymhellion yn sgil yr archwiliad mewnol o ddiogelu corfforaethol.
- A6** Cwblhau'r adolygiad o'r Strategaeth Adnoddau Dynol
- A7** Adolygu'r Rheolau Sefydlog Contractau

Atodiad A

